

Gweithredu dros Blant

# Achubiaeth hanfodol

Adroddiad Blynyddol 2020/21



# Achubiaeth hanfodol

Mewn blwyddyn ddigynsail, roeddem yn achubiaeth hanfodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Cliciwch ar y seren i weld y gwahaniaeth rydym wedi'i wneud.

## Safe and happy childhood

Action for Children protects and supports children and young people, providing practical and emotional care and support, ensuring their voices are heard, and campaigning to bring lasting improvements to their lives.

## Plentyndod hapus a diogel

Mae Gweithredu dros Blant yn amddiffyn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu gofal ymarferol ac emosiynol, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac ymgyrchu i wella eu bywydau'n barhaol.

# Cynnwys


4 **Datganiad y Cadeirydd**

5 **Datganiad y Prif Weithredwr**

6 **Adroddiad Strategol**

7 **Amdanom ni**

9 **Dweud a gwneud**

14 **Blwyddyn ddigynsail**

19 **Beth a wnawn**

20 Dechrau gorau mewn bywyd

22 Cartrefi diogel, sefydlog a chariadus

24 Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu

25 Ymgyrchu dros newid

27 Diogelu

28 **Sut rydyn ni'n gweithio i gadw plant yn ddiogel ac yn hapus**

29 Rhoi llais i bobl ifanc

30 Codi arian

33 Y teulu Gweithredu dros Blant

36 Edrych i'r dyfodol: amcanion 2021/22

37 **Llywodraethu**

39 **Dyletswyddau'r ymddiriedolwyr**

42 **Rheoli risg mewn cyfnodau heriol**

46 **Materion ariannol**

52 **Datganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

53 **Adroddiad yr archwilydd annibynnol**

57 **Datganiadau ariannol**

83 **Manylion cyfreithiol a gweinyddol**

85 **Diolchiadau**

88 **Cymryd rhan**


## Gwarchod ein hamgylchedd

Mae gennym gyfrifoldeb i warchod yr amgylchedd ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc – nawr ac yn y dyfodol. Ewch i dudalen 41 i weld sut rydyn ni'n gweud hynny.



# Gyda'n gilydd rydyn ni wedi goresgyn heriau enfawr

**Bu'n flwyddyn heriol i Gweithredu dros Blant, fel y bu i weddill y byd. Serch hynny, rwy'n hynod o falch o'r ffordd rydyn ni wedi ymateb i'r her.**



*"Cafodd teuluoedd eu cefnogi gan ein staff rheng flaen drwy ddosbarthu bron i £900,000 o grantiau i helpu dros 20,000 o blant a phobl ifanc."*

Gwnaethpwyd hynny drwy addasu ein gwasanaethau i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed, a thrwy ganolbwyntio ar gadw ein gwasanaethau ar agor.

Wrth i ni ddelio ag effaith y pandemig, canolbwyntiodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd ar gynaliadwyedd hirdymor ein helusen. Fe wnaethom weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r sialensiau ariannol a waethygwyd yn sgil yr argyfwng a gweithio'n galed i wneud ein sefydliad yn fwy effeithiol ac effeithlon. Roedd y gwaith hwn yn rhan hanfodol o'n rhaglen drawsnewid Diogelu ein Dyfodol. Yn anffodus, roedd hynny'n golygu colli nifer o'n staff gwerthfawr. Cafodd Diogelu ein Dyfodol ei lywio gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, gan adrodd i is-grŵp o'r ymddiriedolwyr. Fe'i cefnogwyd gan y Bwrdd, y Cyfarwyddwyr a thimau ledled y wlad. Tynnodd pawb at ei gilydd i ddiogelu dyfodol yr elusen a'i diogelwch ariannol. Rwy'n credu ein bod bellach mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd ac i dyfu gwasanaethau sydd wir eu hangen.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfansoddiad Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi newid. Rydyn ni wedi mabwysiadu dull recriwtio sy'n seiliedig ar sgiliau ac rydw i wrth fy modd â'r cydweithwyr rydyn ni wedi'u denu.

Rydyn ni hefyd wedi miniogi ein dulliau llywodraethu a chyflwyno Pwyllgor Gwasanaethau Plant. Ei gylch gwaith yw gwella effaith a chanlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n rheoliadol ac yn parhau i arloesi. Atgyfnerthodd yr ymddiriedolwyr ein hymrwymiad at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a chymeradwyodd y Bwrdd strategaeth newydd. Rwy'n falch o'r gwaith y mae ein rhwydweithiau staff yn ei wneud i gefnogi'r holl staff yn gyfartal.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i'n staff am gefnogi plant a theuluoedd, eu hunain a'r sefydliad yn ystod argyfwng mwyaf ein hoes. Cynigiodd ein Hapêl Argyfwng Coronafeirws, a lansiwyd ddiwrnodau'n unig ar ôl y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, achubiaeth hanfodol i filoedd. Cafodd teuluoedd eu cefnogi gan ein staff rheng flaen drwy ddosbarthu bron i £900,000 o grantiau i helpu dros 20,000 o blant a phobl ifanc. Roeddwn yn falch iawn o rannu llythyr oddi wrth ein Noddwr, Ei Huchelder Brenhinol, Duges Caergrawnt, yn canmol staff ac yn rhoi gwybod iddyn nhw ei bod yn meddwl amdanyn nhw.

Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol. Rydyn ni wedi cymeradwyo strategaeth i ehangu ein cartrefi preswyl i blant ac i fuddsoddi mewn technoleg. Mae buddsoddi mewn technoleg yn bwysig iawn o ystyried y rôl y mae wedi'i chwarae wrth helpu gwasanaethau a staff i addasu i ffyrdd newydd o weithio, yn ogystal â chodi arian yn rhithiol.

Mae'r Bwrdd yn falch dros ben y bydd Melanie Armstrong, sydd wedi ein harwain yn wych drwy'r pandemig, yn parhau fel Prif Weithredwr nes diwedd 2022 o leiaf. Bydd Melanie yn adeiladu ar ein gwaith trawsnewid, ac yn canolbwyntio ar dyfu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion esblygol y rhai rydyn ni'n eu cefnogi.

I gloi, hoffwn ddiolch i'n staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr. Rydyn ni wedi bod trwy flwyddyn ryfeddol, ac ni allem fod wedi gwneud hynny heb eu hymdrech a'u hymroddiad enfawr. Mae fy niolch, fel arfer, yn mynd i holl aelodau'r pwyllgor sydd wedi'u cyfethol ac i fy nghyd ymddiriedolwyr am eu hangerdd a'u hymrwymiad tuag at Gweithredu dros Blant.



**Sarika Patel,**
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# Byddwn yma i blant agored i niwed beth bynnag ddaw

**Tarodd y pandemig fis yn unig ar ôl i fi ddychwelyd at Gweithredu dros Blant ym mis Mawrth 2020, gan newid ein ffordd o weithio ac o fyw i'r dyfodol. Daeth fy nghenhadaeth yn amlwg yn fuan: cefnogi staff fel y gallem gadw ein gwasanaethau i fynd a bod yn achubiaeth hanfodol i blant mewn argyfwng.**

Pan ddaeth y cyfnod clo, addasodd ein staff yn gyflym. Gwnaethom gadw 99% o'n gwasanaethau i fynd - rhai ar-lein - wrth sicrhau bod staff rheng flaen, yn enwedig y rhai yn ein lleoliadau preswyl, yn cael eu gwarchod yn eu gwaith.

Helpodd ein Apêl Argyfwng Coronafeirws i gadw teuluoedd i fynd pan oedd incwm a swyddi yn y fantol. Daeth ein gwasanaeth digidol, Parent Talk, sy'n cynnig cyngor a sgwrs fyw gydag arbenigwyr, yn elfen bwysig o'r gwaith hefyd. Defnyddiodd mwy na theirgwaith cymaint o rieni a gofalwyr y gwasanaeth y llynedd o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Mae'r llwyddiannau rhyfeddol hyn yn dyst o'n penderfyniad i gefnogi teuluoedd a hyblygrwydd staff i arloesi'n gyflym.

Fe wnaethom hefyd addasu i godi arian yn rhithiol pan gafodd digwyddiadau eu canslo. Roedd syniadau newydd gwych, fel 'Boycott your Bed', yn ogystal â'n trydydd apêl Nadolig Santa Cudd, yn boblogaidd dros ben.

A gydag ymyrraeth fedrus, fe wnaethom newid y sgwrs ar y Bil Cam-drin Domestig. Mae'r newid hwn yn sicrhau bod plant yn cael eu hystyried yn ddioddefwyr – ac nid fel tystion yn unig – yn y diffiniad cyfreithiol newydd o gam-drin domestig. Mae gan hyn y potensial i newid sut mae awdurdodau ac asiantaethau yn ymateb i'r broblem, a fydd o fudd i 800,000 o blant – effaith anhygoel.

Cynnig newid arhosol i blant oedd ein nod cychwynnol nôl yn 1869. A dyna beth rydyn ni'n parhau i'w wneud heddiw. Mae ein gwasanaethau lleol yn trawsnewid bywydau plant bob dydd. Ac mae ein llais ymgyrchu croch yn sicrhau bod y plant hyn yn cael eu clywed. Rwy'n falch dros ben o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni.

Hoffwn ddiolch i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth ddiwyro. Mae'r galwadau arnyn nhw wedi bod yn aruthrol o ystyried yr heriau rydyn ni wedi'u hwynebu. Fel y soniodd Sarika, rwy'n falch iawn o barhau i fod yn Brif Weithredwr tan ddiwedd 2022 o leiaf, i barhau â'r gwaith rydyn ni wedi'i ddechrau.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn anodd tu hwnt i bawb. Mae staff wedi goresgyn rhwystrau na welwyd eu tebyg erioed gan lawer ohonom, ac mae ein gwirfoddolwyr wedi parhau i fod wrth ein hochr. Rwy'n hynod ddiolchgar am eu tosturi, eu penderfyniad a'u hymrwymiad parhaus tuag at Gweithredu dros Blant.

Melanie Armstrong

**Melanie Armstrong,**
Prif Weithredwr



*"Darparu newid arhosol i blant oedd ein nod cychwynnol nôl yn 1869. A dyna beth rydyn ni'n parhau i'w wneud heddiw. Mae ein gwasanaethau lleol yn trawsnewid bywydau plant bob dydd."*



# Adroddiad strategol

# Amdanom ni



## Ein gweledigaeth

Mae pob plentyn a pherson ifanc yn y wlad yn cael plentyndod diogel a hapus, a'r sylfeini sydd eu hangen arnyn nhw i ffynnu.

## Ein cenhadaeth

Rydyn ni'n gwarchod ac yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy:

- Ddarparu gofal a chymorth ymarferol ac emosiynol.
- Sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Ymgyrchu i ddod â gwelliannau parhaol i'w bywydau.

## Ein gwerthoedd

Rydyn ni'n angerddol, yn uchelgeisiol, yn gydweithredol ac yn gynhwysol.

# Y gwasanaethau a ddarparwn

**39**
o wasanaethau cymorth iechyd meddwl.

**10**
o wasanaethau hawliau plant ac ymwelwyr annibynnol.

**13**
o wasanaethau gofalwyr ifanc.

**1**
ysgol breswyl.

**16**
o wasanaethau maethu a mabwysiadu.

**78**
o feithrinfeydd a chlybiau ar ôl ysgol (ar draws Prydain).

**55**
o wasanaethau ieuenctid, gan gynnwys cyflogaeth, cyfiawnder a thai.

**1**
gwasanaeth ar-lein Parent Talk.

**82**
o ganolfannau plant a hybiau teulu.

**47**
o wasanaethau addysg ieuenctid.

**45**
o gartrefi preswyl diogel a chariadus i blant, gan gynnwys seibiannau byr i blant a phobl ifanc anabl.


**88**
o wasanaethau cymorth i deuluoedd.

**37**
o seibiannau byr gofal cymunedol a maeth.

**512**
o wasanaethau lleol sy'n cael eu rhedeg gennym ar draws y DU, mewn ysgolion ac ar-lein.

# Lle rydyn ni

- Gwasanaethau dechrau gorau mewn bywyd
- Gwasanaethau iechyd meddwl a chyfle i ffynnu
- Gwasanaethau cartref diogel a sefydlog



# Dweud a gwneud



Fe wnaethom osod tri amcan uchelgeisiol i'n hunain yn adroddiad blyneddol y llynedd.

1. **I wneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel a hapus.**
2. **I gynyddu'r gefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith ac i ddylanwadu ar newid i blant.**
3. **I ddatblygu sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithiol.**

Mae'r pandemig yn golygu bod cyflawni'r addewidion hyn yn her. Nid oedd gennym unrhyw syniad sut byddai'r argyfwng coronafeirws yn siapio bywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Newidiwyd hefyd nifer o'r ffyrdd rydym yn gweithio yn sylweddol. Er gwaethaf popeth, serch hynny, gwnaethom gynnydd da tuag at ein tri amcan. Gwnaethom hyn drwy addasu'n gyflym i anghenion sy'n newid a dod o hyd i ffyrdd arloesol o wneud yn siŵr bod plant yn ddiogel ac yn hapus.

1. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel a hapus.**

2. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn cynyddu'r gefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith ac i ddylanwadu ar newid ar gyfer plant.**

3. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn datblygu sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithiol.**

## Rydyn ni wedi helpu

# 604,885

## o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod 2020/21.

Mae hyn 64% yn fwy na'r llynedd diolch i gynnydd mewn gwasanaethau digidol i helpu teuluoedd drwy'r pandemig.

1. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel a hapus.**

2. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn cynyddu'r gefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith ac i ddylanwadu ar newid ar gyfer plant.**

3. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn datblygu sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithiol.**

## Dechrau gorau mewn bywyd

Gwelwyd gwelliant datblygiadol yn 73% o'r plant a ddefnyddiodd ein canolfannau plant neu hybiau teuluol, er enghraifft gallu gwisgo eu hunain a lleferydd gwell. Ac roedd gan 83% o blant sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch gwell.

Mae 71% o rieni a gofalwyr yn gosod ffiniau mwy effeithiol ar ôl cael ein help. Mae plant a phobl ifanc yn gwybod pa ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn derbyn gofal.

## Cartrefi diogel, sefydlog a chariadus

Mae datblygiad emosiynol 83% o'r plant a phobl ifanc yn ein cartrefi preswyl wedi gwella. Mae hyn yn eu helpu i adeiladu perthnasoedd positif ac i wella sefydlogrwydd eu bywyd cartref neu leoliad.

Mae 73% o blant a phobl ifanc sy'n cael eu cefnogi gan ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd mewn tai mwy diogel ac addas.

## Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu

Mae iechyd meddwl 72% o blant a phobl ifanc wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen The Blues, ein prosiect sy'n adnabyddus yn rhyngwladol.

Mae gan 77% o blant a phobl ifanc fywyd teuluol mwy sefydlog diolch i'n gwasanaethau cymorth iechyd meddwl.


## Parent Talk

Derbyniodd 361,043 o rieni a gofalwyr gyngor ar fagu plant, perthnasoedd, ymddygiad, anabledd, iechyd meddwl a llesiant a mwy.

Dywedodd 90% o'r bobl a ddefnyddiodd ein gwasanaeth sgwrsio byw fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'wych'.

> *"Diolch am fy helpu drwy gyfnod anodd iawn. Eich ymateb chi oedd yr union beth oedd ei angen arna i ddal ati pan roeddwn yn barod i roi'r gorau iddi."*

Defnyddiwr Parent Talk




**Gwasanaethau dechrau gorau mewn bywyd**
Mae'r rhain yn cynnwys canolfannau plant, hybiau teuluol a chymorth cynnar.

**Gwasanaethau cartrefi diogel, sefydlog a chariadus**
Mae'r rhain yn cynnwys maethu, mabwysiadu, cymorth teuluol dwys a seibiannau byr i blant ag anableddau.

**Gwasanaethau iechyd meddwl a chyfle i ffynnu**
Mae'r rhain yn cynnwys cymorth iechyd meddwl, gwasanaethau i ofalwyr ifanc a chymorth cyflogaeth ieuenctid.

**Gwasanaeth gwybodaeth Parent Talk**
Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar-lein i rieni sydd â phlant 0 i 19 oed.

**Cymorth un-i-un Parent Talk**
Sgwrs fyw i helpu rhieni ddelio â phroblem benodol.

1. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel a hapus.**

2. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn cynyddu'r gefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith ac i ddylanwadu ar newid ar gyfer plant.**

3. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn datblygu sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithiol.**

Fe wnaethon ni gyrraedd **13,004,088** o bobl ar gyfryngau cymdeithasol, gyda **36,326** o ddilynwyr newydd.






Fe wnaethon ni gynhyrchu **3,541** darn o sylw yn y cyfryngau, sy'n golygu dros **616 miliwn** o gyfleoedd i weld, clywed neu ddarllen am yr hyn rydyn ni'n ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Gwariwyd **£139.4 miliwn** ar weithgareddau i helpu plant.

Cafodd dros **14,000** o weithredoedd eu gwneud gan ymgyrchwyr, o lofnodi deisebau i ysgrifennu at eu AS a thrydar y Prif Weinidog.

Fe wnaethon ni newid y gyfraith ar gam-drin domestig. Bydd y **800,000** o blant sydd wedi profi cam-drin domestig bellach yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr yn hytrach na thystion. **Bydd hyn yn siapio sut maen nhw'n cael eu cefnogi.**

1. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel a hapus.**

2. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn cynyddu'r gefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith ac i ddylanwadu ar newid ar gyfer plant.**

3. **Fe wnaethon ni ddweud y byddem yn datblygu sefydliad sy'n gynaliadwy yn ariannol ac yn effeithiol.**

## Bod yn gynaliadwy yn ariannol

- Helpodd ein cefnogwyr ni i godi £20 miliwn i blant a theuluoedd.
- Daeth y flwyddyn i ben gyda gwarged o £5.8 miliwn.

## Bod yn sefydliad effeithiol

- Ar ôl derbyn ein cefnogaeth, dywedodd 87% o blant a phobl ifanc eu bod yn gallu rhannu eu safbwyntiau'n well a chyfrannu at y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Hyrwyddodd ein 11 o rwydweithiau staff gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Fe wnaethon ni ymrwymiad rhagweithiol i ddod yn sefydliad gwrth-hiliol.

Daw'r ffigurau yn yr adroddiad hwn o'n dadansoddiad e-Aspire 2020/21 oni nodir yn wahanol.







# Blwyddyn ddigynsail

“Dwi’n gweithio gydag un fam a oedd yn cael pethau’n anodd cyn y pandemig. Ro’dd gan un o’i phlant anabledd. Maen nhw'n byw mewn lleoliad anghysbell ac ro’dd bywyd yn anodd iawn. Ond pan darodd y coronafeirws ni allai fforddio'r hanfodion. Doedd ganddi ddim bwyd i'w phlant. Doedd ganddyn nhw ddim rhyngrwyd i gael mynediad at wybodaeth. Gweithredu dros Blant oedd ei hunig achubiaeth. Fe wnaethon ni eu cefnogi mewn unrhyw ffordd bosibl. Mae hi'n gwybod ein bod ni yno ar ei chyfer 24/7.”

Sian, Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd

# Ymateb i'r pandemig

**Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gwbl ddigynsail. Rydyn ni'n falch o'n hymateb i'r hyn a fu'n heriau cwbl ddigynsail.**

Ein blaenoriaeth oedd cadw staff yn ddiogel a sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw. Rydyn ni wedi gwneud hyn mewn pob math o ffyrdd. Roedd hyn yn cynnwys Apêl Argyfwng Coronafeirws ddyddiau'n unig ar ôl y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf. Fe wnaethon ni lansio Parent Talk hefyd, gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a sgwrsio ar-lein i deuluoedd â phlant 0-19 oed.

"Cadw ein gwasanaethau i fynd drwy'r pandemig oedd ein prif flaenoriaeth. Parhaodd staff yn ein lleoliadau preswyl - gan gynnwys cartrefi gofal a gwasanaethau byw â chymorth - i fod yno i blant er gwaetha'r holl risgiau anhysbys. Fe wnaeth tîm o bob rhan o'r sefydliad, a oedd yn delio â'n hymateb i'r pandemig o ddydd i ddydd, sicrhau bod gan staff rheng flaen PPE. Fe wnaethant hefyd helpu i lunio sylwadau i'r llywodraeth ar beth oedd ar yr arferion diogelu gorau.

Trosglwyddwyd gwasanaethau na ellid eu darparu wyneb yn wyneb ar-lein wrth i ni frwydro i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd oedd ein hangen ni. Gwnaeth ein Tîm TG yn siŵr y gallai pobl weithio gartref yn ystod y cyfnodau clo. Ac fe wnaeth ein Bwrdd Ymddiriedolwyr a Thîm Arweinyddiaeth Gweithredol yr hyn oedd ei angen i reoli'r risgiau roeddem yn eu hwynebu.

Rwy'n falch dros ben o fod wedi arwain tîm mor angerddol, uchelgeisiol a gweithgar drwy'r argyfwng. Diolch iddyn nhw am bopeth maen nhw wedi'i wneud i helpu plant a phobl ifanc i deimlo'n ddiogel ac yn hapus."

Melanie Armstrong, Prif Weithredwr

## Parent Talk

Lansiodd ein gwasanaeth digidol newydd, Parent Talk, ym mis Mehefin. Mae'n rhoi gwybodaeth, cyngor a sgwrs un-i-un i rieni a gofalwyr gyda phlant 0 i 19 oed. Roeddem am sicrhau bod rhieni a gofalwyr - a adawyd yn ddisymwth heb eu rhwydweithiau cymorth arferol - yn cael yr help oedd ei angen arnyn nhw. Y bwriad oedd lansio Parent Talk yn 2021, ond cyflymwyd y broses i ddiwallu'r angen brys.

Yn ogystal â chyfoeth o wybodaeth a chanllawiau arbenigol, sydd ar gael 24/7, gall rhieni sgwrsio'n fyw ag un o'n hyfforddwyr magu plant. Gellir trafod unrhyw bwnc, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi helpu teuluoedd i ddelio â gorbryder, ymdopi ag ansicrwydd, a helpu eu plant i ddal i fyny yn yr ysgol. Mae'r gwasanaeth sgwrsio un-i-un bellach yn ddwyieithog i deuluoedd yng Nghymru, diolch i gyllid Cronfa Gymorth Strategol Elusennau Cenedlaethol i Blant Agored i Niwed. Derbyniodd Parent Talk Achrediad Safon Llinellau Cymorth, nod ansawdd sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol.

Mae'r galw am Parent Talk wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y cyfnodau clo cenedlaethol. Roedd nifer y rhieni a'r gofalwyr a gafodd gefnogaeth yn golygu bod cyfanswm ein ffigurau cyrhaeddiad ar gyfer 2020/21 bron â dyblu.

Derbyniodd **361,043 o rieni a gofalwyr** wybodaeth, cyngor a chanllawiau gan wasanaeth Parent Talk.

Cynigiodd ein hyfforddwyr gefnogaeth dwys un-i-un i **10,640 o rieni a gofalwyr.**

Dywedodd **90% o'r bobl** a ddefnyddiodd ein gwasanaeth sgwrsio byw fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'wych'.

***"Mae Parent Talk wedi fy helpu cymaint gyda chyngor gwych, cysylltiadau i gael mwy o gefnogaeth, a rhoi hyder fy mod i ar y trywydd iawn gyda fy mab. Mae fel petai pwysau wedi'i godi."***

# Blwyddyn ddigynsail

## Ebrill

Wythnos ar ôl cyhoeddi'r cyfnod clo, fe wnaethon ni lansio gwasanaeth cymorth a llesiant emosiynol newydd yn Swydd Stafford i **700 o blant a phobl ifanc.**

Erbyn diwedd Ebrill, symudodd ein prif brosiect iechyd meddwl, rhaglen The Blues, ar-lein.

Roeddem yn falch iawn o dderbyn llythyr oddi wrth ein Noddwr, Ei Huchelder Brenhinol Duges Caergrawnt, yn mynegi ei gwerthfawrogiad am ein gwaith yn ystod y cyfnod anodd hwn.

## Mehefin

Lansiwyd ein gwasanaeth digidol, **Parent Talk**, naw mis yn gynnar. Roedd teuluoedd na allent gael gafael ar eu cefnogaeth arferol yn gallu cael help ar unwaith gan ein hyfforddwyr magu plant.

## Awst

Helpodd teuluoedd ni i godi dros **£350,000** drwy gysgu yn y llefydd mwyaf anarferol y gallent feddwl amdanynt ar gyfer ein digwyddiad rhithiol newydd 'Boycott your Bed'.

Mewn partneriaeth â Sefydliad Clwb Pêl-droed Lerpwl, fe wnaethon ni lansio rhaglen iechyd meddwl newydd i bobl ifanc mewn ysgolion uwchradd yn Lerpwl.

Fe wnaethon ni ymuno â Barnardo's ar y prosiect 'See, Hear, Respond'. Mae'r prosiect yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o syrthio drwy'r craciau yn ystod y pandemig. Gyda'n gilydd, cyrhaeddwyd **100,000 o bobl ifanc** mewn chwe mis yn unig.

## Mai

Addasodd ein Gwasanaeth Cymorth i Blant a Theuluoedd yn South Lakes yn gyflym i gynnig sesiynau tylino babanod rhithiol, rhaglenni magu plant ac 'amser rhythm'.

## Gorffennaf

Fe wnaethon ni ddathlu ein **20fed pen-blwydd** yng Ngogledd Iwerddon. Goleuwyd ein logo yng nghanol y ddinas yn Belfast i ddangos ein cefnogaeth i blant a phobl ifanc.

Fe wnaethom hefyd lansio rhaglen ymyrraeth gynnar newydd yn Newcastle i bobl ifanc mewn perygl o gymryd rhan mewn troseddau cyfundrefnol difrifol.

Action for Children Gweithredu dros Blant
END CHILDHOOD CRISIS | RHOI DDIWEDD AR ARGYFWNG PLENTYNDOD

## Medi

**Tanlinellodd ein hymgyrch Dod â'r Argyfwng Plentyndod i Ben** effaith y pandemig ar blant agored i niwed. Fe wnaeth yr adroddiad ymgyrchu, *Plentyndod yn ystod y Coronafeirws*, greu darlun llwm o effeithiau dinistriol tlodi.

Yn ogystal, lansiwyd Bouncing Back ym mis Medi, rhaglen ddigidol i gefnogi iechyd meddwl pobl ifanc.

## Llynedd...

**Mawrth 2020**

Fe wnaethon ni lansio ein **Apêl Argyfwng Coronafeirws** ddiwedd Mawrth i dalu cost hanfodion fel bwyd, cewynnau, cynnyrch glanhau a biliau. Roedd yr arian a godwyd yn cefnogi 20,266 o blant a phobl ifanc agored i niwed.

Lansiwyd hefyd seibiannau rhithiol byrion i blant ag anableddau – yn cynnwys gemau, cwisiau a sgyrsiau – yn Bury a Swydd Northampton.

## Hydref

Symudodd ein rhaglen llythrennedd iechyd meddwl, The Guide, ar-lein. Mae hyn yn helpu myfyrwyr ac athrawon yng Nghymru i wella eu gwybodaeth am iechyd meddwl ac i leihau stigma.

Yn Derry-Londonderry, symudodd 40 staff i safle newydd i ddarparu gwasanaethau blynyddoedd cynnar, cymorth i deuluoedd ac iechyd meddwl. Mae'r safle mewn hen farics y fyddin yn Derry, ac felly'n troi gwaddol y trafferthion yn rhywbeth positif.

## Rhagfyr

Darparodd ein gwasanaeth Cymorth Cynnar yn Northumberland 312 o grantiau i helpu teuluoedd dalu am hanfodion fel bwyd a biliau.

Fe wnaethom hefyd gymryd yr awenau ar ddau gartref preswyl newydd yn Lerpwl. Cyfrannodd Marks & Spencer y celfi ar gyfer yr adeiladau.

Fe wnaethon ni lansio gwasanaeth llesiant emosiynol yn Orkney hefyd. Rydyn ni bellach yn darparu gwasanaethau mewn 31 o 32 awdurdod lleol yn yr Alban.

## Chwefror

Fe wnaethon ni ehangu Bouncing Back – ein gwasanaeth iechyd meddwl sy'n mynd i'r afael â'r sialensiau a achoswyd gan y pandemig – i blant oed cynradd.



## Tachwedd

Fe wnaethon ni agor gwasanaeth seibiannau byr yn Ealing. Mae'n gyfle i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu fwynhau amser i ffwrdd o'r cartref ac i wneud ffrindiau newydd.






## Ionawr

Cyrhaeddodd y rhoddion olaf ar gyfer ein Hapêl Nadolig Santa Cudd. Diolch i gefnogwyr, cododd yr apêl swm anhygoel o **£1.5 miliwn**, gan ragori ar ein targed o £650,000.

## Mawrth

Cafodd y toriad i'r Credyd Cynhwysol ei oedi, yn rhannol diolch i'n hymdrechion ymgyrchu.





Jane a Deion Griffiths

***Mae ein gweithiwr cymorth wastad yno i ni.***

Mae'r pandemig wedi bod yn anodd i Jane a Deion Griffiths a'u teulu ifanc sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Mae gan eu merch hynaf, Ellie, awtistiaeth ac ADHD, tra bod gan y mab ifancaf, Lewis, anghenion synhwyraidd cymhleth a pharlys yr ymennydd.

Dywedodd Jane: "Mae'r coronafeirws wedi cael effaith go iawn arnom ni. Rydyn ni wedi gorfod dibynnu ar Gredyd Cynhwysol ac mae wedi bod yn anodd ceisio bwydo pawb a chadw'r tŷ yn gynnes. Mae wedi bod yn flwyddyn ofnadwy i'r plant, ac oherwydd sefyllfa waith Deion, rydyn ni wedi bod yn trïo ymdopi nes i'r taliad Credyd Cynhwysol nesaf gyrraedd bob mis."

Diolch byth, llwyddodd y teulu i gael cefnogaeth drwy un o'n prosiectau.

"Mae Gweithredu dros Blant wedi bod yn wych," eglura Jane. "Maen nhw wedi helpu gyda thalebau bwyd, teganau, gwely a blanced drymach. Rydyn ni wedi bod mor ddiolchgar am y gefnogaeth honno. Mae ein gweithiwr cymorth Hayley, wastad yno i ni hefyd. Mae hi wedi bod yn wych am gadw mewn cysylltiad ac yn trefnu cwisiau a gemau'n rheolaidd i'r teulu ar Zoom. Dwi ddim yn siŵr iawn sut fydden ni wedi llwyddo hebddyn nhw."

# Ymgyrchu i ddod â thlodi plant i ben

**Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd nifer o deuluoedd incwm isel yn ei chael hi'n anodd cael deupen llinyn ynghyd. Ond roedd colli swyddi a chostau cynyddol yn y cartref yn golygu bod nifer o'r rhai a oedd yn ymdopi o'r blaen wedi'u gwthio at dlodi.**

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi ymgyrchu'n ddiflino i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae hyn yn cynnwys pwyso ar y llywodraeth i feddwl am ddull cynhwysfawr o leihau tlodi plant ac i beidio â thorri Credyd Cynhwysol £20 yr wythnos.

## Credyd Cynhwysol

I gefnogi teuluoedd a effeithiwyd gan gyfyngiadau coronafeirws, cynyddodd y llywodraeth Credyd Cynhwysol £20 yr wythnos. Er bod hynny ymhell o fod yn ddigon, cynigiodd achubiaeth i lawer.

Fe wnaethon ni ymgyrchu i'r llywodraeth sicrhau na fyddai'r cymorth pellach hwn yn cael ei dorri. Canfu adroddiad polisi *Plentyndod Yn Ystod y Coronafeirws*, a oedd yn rhan o'n hymgyrch Dod ag Argyfwng Plentyndod i Ben, fod nifer o deuluoedd y DU yn ei chael hi'n anodd yn ariannol. Dangosodd ddadansoddiad o geisiadau i'n Cronfa Argyfwng Coronafeirws:

- **gwariwyd 29% o'r gronfa ar fwyd i deuluoedd.**
- **gwelodd 21% o deuluoedd o leiaf un oedolyn yn colli gwaith neu eu cyflog yn cael ei dorri.**
- **dywedodd 78% o staff fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant y plant maen nhw'n ei gefnogi.**

Arweiniodd hyn at weithredu ymhlith ein teulu o gefnogwyr, a ddenodd sylw'r cyfryngau a rhoddwyd pwysau ar y llywodraeth. Yn dilyn ymgyrchu helaeth, mae'r llywodraeth bellach wedi gohirio'r toriad tan fis Medi 2021. Yn y flwyddyn i ddod, wrth i'r llywodraeth lunio ei chynlluniau ar gyfer adferiad y DU, byddwn yn parhau i godi llais ac i sicrhau bod gan blant a theuluoedd y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i ffynnu.

**40%**

**o deuluoedd yn dweud wrthym eu bod wedi'i chael hi'n anodd bwydo eu plant yn ystod y pandemig.**



## Beth a wnawn

**Mae ein gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn rhoi'r dechrau gorau iddyn nhw mewn bywyd, cartref diogel a chariadus, iechyd meddwl da a chyfle i ffynnu.**

# Dechrau gorau mewn bywyd

**Dylai pob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd.**

Rydyn ni'n un o'r darparwyr mwyaf o ran meithrinfeydd, canolfannau plant, hybiau teuluol a chymorth blynyddoedd cynnar yn y DU. Mae'r gwasanaethau hyn wedi bod yn achubiaeth hanfodol i blant ifanc a'u teuluoedd yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Addasu i'r pandemig

Addasodd ein staff yn gyflym i fodloni canllawiau newidiol y llywodraeth. Fe ddaethon nhw o hyd i ffyrdd newydd o helpu rhieni i ddiwallu anghenion eu plant. Ac fe wnaethon nhw barhau i gefnogi plant a theuluoedd a oedd yn byw gydag amrywiaeth o sialensiau o dlodi i gam-drin domestig.

Roedd hyn yn cynnwys cynnal nifer o wasanaethau ar-lein am y tro cyntaf. Yn Cumbria, cynhaliwyd sesiynau tylino babanod rhithiol. Ac yn Solihull, datblygwyd Rhaglen Magu Plant 10 wythnos ar-lein i helpu teuluoedd a oedd yn teimlo'n ynysig ac yn bryderus yn ystod y cyfnod clo.



Gwnaethom hefyd gefnogi rhieni dros y ffôn ac ar garreg y drws, a'u helpu i reoli ymddygiad eu plant ac ymdopi â magu plant yn ystod pandemig. Dywedodd un fam wrthym, "Ar adegau pan feddyliais nad oedd gobaith ac na allwn weld, daethoch draw a chafwyd gobaith, help a chefnogaeth".

Roedd nifer o wasanaethau, gan gynnwys y Gwasanaeth Plentyndod Cynnar a Theuluoedd yn Norfolk, yn gallu cynnig parseli bwyd brys i deuluoedd, pecynnau gweithgareddau i gefnogi datblygiad plant a dyfeisiau digidol i helpu teuluoedd gael mynediad at gymorth a dysgu ar-lein. Heb hyn, byddai nifer o deuluoedd wedi cael anhawster fforddio'r pethau sylfaenol ac wedi cael eu heithrio o'r gefnogaeth. Ond ni newidiodd popeth i fod ar-lein. Fe wnaeth ein rhaglen Grow Cook Eat yng Ngogledd Iwerddon – sydd bellach wedi ehangu i fod yn sawl prosiect ar wahân – annog teuluoedd i dyfu bwyd gartref.

**Dywedodd tua 70% o'r teuluoedd a ddefnyddiodd ein canolfannau plant a'n hybiau teuluol fod eu teulu'n gweithredu'n well. Roedd hynny oherwydd bod eu plant yn teimlo'n fwy diogel ac roedd ganddyn nhw drefn glir, gan gynnwys amser bwyd, amser gwely a chodi i fynd i'r ysgol.**

**Rydyn ni'n rhedeg dros 160 o wasanaethau blynyddoedd cynnar, sy'n cynnwys canolfannau plant, hybiau teuluol a meithrinfeydd.**

Yn fwy na hynny, roedd gan 70% o blant berthynas gynhesach, fwy cariadus gyda'r rhiant/rhieni a/neu ofalwr/ofalwyr ar ôl derbyn ein help.

## Meithrinfeydd a chlybiau plant

Mae ein meithrinfeydd Spring, sydd wedi ennill gwobrau, yn cefnogi dysgu, datblygiad a lles plant. Rydyn ni mewn 37 o leoliadau ar draws y DU, sydd naill ai wedi'u sgorio fel 'Da' neu 'Rhagorol' gan Ofsted, Cyfarwyddiaeth Gofal Cymru neu Gyfarwyddiaeth Gofal yr Alban.

**Rydyn ni'n falch o fod wedi cadw 14 lleoliad ar agor yn ystod y pandemig, drwy gefnogi rhieni a oedd yn weithwyr allweddol a'u plant.**

Gwnaethom ehangu ein gofal plant cofleidiol y tu allan i oriau ysgol i blant pedair i 16 oed drwy ychwanegu tri clwb Spring Oscars newydd yn Lloegr. Mewn partneriaeth â Chronfa Les yr Awyrlu Brenhinol, gwnaethom ddarparu Ben Clubs - gwasanaeth chwarae i blant pump i saith oed ac Airplay i'r rhai rhwng 11 ac 18 oed. Cymerodd 1,940 o bobl ifanc ran yn y prosiectau mewn 24 o leoliadau. Sefydlwyd Airplay Connect, hefyd, platfform digidol a oedd yn cadw cysylltiad â'r plant yn ystod y cyfnod clo.

Defnyddiwyd unrhyw arian a oedd yn weddill o Action for Children Developments Limited i gefnogi ein gwaith elusennol. Mae ein meithrinfeydd, clybiau a thimau masnachol hefyd yn cefnogi ymgyrchoedd fel Santa Cudd. Y llynedd, codwyd £9,500 drwy gynnal dawns-athon.

## Ymgyrchu dros blant

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf rydyn ni wedi chwarae rhan hanfodol wrth alw ar y llywodraeth i wneud y blynyddoedd cynnar yn flaenoriaeth. Mae hyn mewn ymateb i flynyddoedd o doriadau ariannol i'r cymorth sydd ar gael i fabanod a phlant ifanc.

O dan arweiniad Andrea Leadsom AS, cynhaliodd y llywodraeth adolygiad o'r 1,001 diwrnod hanfodol cyntaf ym mywyd plentyn. Gwnaethom gynnig argymhellion ar sut gallai'r llywodraeth gefnogi teuluoedd yn well. Roedd hyn yn cynnwys cynnal dros 20 sesiwn ar gyfer Andrea Leadsom a'i thîm yn ystod ymweliad rhithiol i un o'n canolfannau plant yn Nyfnaint.

Yn dilyn yr adolygiad, nododd y llywodraeth ei gweledigaeth ar gyfer rhoi'r dechrau gorau posib mewn bywyd i fabanod a phlant. Er bod hwn yn gynnydd mawr, mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n cael eu hariannu'n iawn a bod agenda'r blynyddoedd cynnar yn cael ei blaenoriaethu. Gyda'r pandemig yn rhoi mwy fyth o bwysau ar deuluoedd, mae'r angen am ymrwymiad y llywodraeth i'r gwasanaethau hyn yn fwy dybryd nag erioed. Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn parhau â'n hymdrechion ymgyrchu fel bod mwy o deuluoedd yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.



**Andrea Leadsom a'i thîm ar ymweliad rhithiol ag un o'n canolfannau plant yn Nyfnaint**



Daeth Vicky, sydd â phedwar o blant, ar un o ymweliadau Andrea Leadsom. Dywedodd fod y gefnogaeth ymarferol ac emosiynol a gafodd ei theulu yn y ganolfan, ynghyd â'r cyfle i gwrdd â mamau eraill, yn achubiaeth go iawn.

"Fel mam rydych chi'n dibynnu ar bobl eraill i'ch cefnogi gyda'ch plentyn – o weithwyr y ganolfan blant i'r ymwelydd iechyd. Does gen i ddim syniad beth fyddwn i wedi'i wneud hebddyn nhw dros y blynyddoedd. Dwi'n ffodus bod y gwasanaethau cymorth cynnar hyn dal ar gael yn fy ardal i. Dwi'n meddwl am rieni mewn rhannau eraill o'r wlad lle nad oes ganddyn nhw'r gefnogaeth hon".

**Vicky a'i theulu**


## Ehangu ein gwasanaeth troseddau cyfundrefnol difrifol

Lansiwyd ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar i droseddau cyfundrefnol difrifol yng Nghaerdydd, Caeredin a Newcastle y llynedd.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth un-i-un dwys, mentora ymhlith cymheiriaid, addysg a hyfforddiant cyflogaeth i bobl ifanc 11 i 18 oed sydd ar drothwy troseddau cyfundrefnol difrifol. Mae'r ymyrraeth gynnar hon yn hanfodol i helpu pobl ifanc i ffynnu. Y prosiect yw'r cyntaf o'i fath i ddefnyddio mentoriaid cymheiriaid, y mae nifer ohonyn nhw'n gyn-droseddwyr ifanc eu hunain. Mae'r mentoriaid yn fodelau rôl i bobl ifanc yn eu harddegau sydd wedi gwrthsefyll mathau eraill o gymorth yn y gorffennol.

'Mae'r gwasanaeth, sydd wedi ennill gwobrau, wedi'i gynnal o Glasgow ers 2013.

**83%**



**o bobl ifanc wedi dangos gostyngiad mewn ymddygiad troseddol.**

Yn seiliedig ar werthusiad o'n gwasanaeth yn Glasgow gan Research Scotland (2021).

# Cartrefi diogel, sefydlog a chariadus

**Dylai pob plentyn gael lle diogel i'w alw'n gartref.**

Rydyn ni'n helpu plant a'u rhieni i oresgyn problemau fel ei bod hi'n ddiogel iddyn nhw aros gyda'i gilydd. Lle nad yw hynny'n bosib, darparwn gartrefi sefydlog a pharhaol gyda theuluoedd maeth, mabwysiadu a phreswyl gwych. Rydyn ni hefyd yn cynnal seibiannau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau.

## Helpu teuluoedd i blant fod yn fwy diogel a hapus

Rydyn ni'n gwybod bod bod yn rhiant yn anodd. Ac weithiau mae angen ychydig o gefnogaeth ychwanegol ar deuluoedd. Y llynedd helpodd gwasanaethau fel Dundee Families ac Ymyrraeth Teulu Bro Morgannwg rieni i oresgyn heriau, creu amgylchedd gofalgar yn y cartref ac adeiladu rhwydweithiau cymorth. Mae gwneud hyn yn rhoi'r cyfle gorau i deuluoedd aros gyda'i gilydd.

**Ar ôl gweithio gyda ni, gwellodd sgiliau a hyder magu plant 77% o rieni a/neu ofalwyr ac mae 87% yn ymgysylltu'n well gyda'u plant.**

## Maethu a mabwysiadu

Rydyn ni'n dod o hyd i gartrefi mabwysiadu i blant yn Lloegr ac yn cynnal gwasanaethau maethu ym mhob un o'r pedair cenedl. Mae ein teuluoedd maeth a mabwysiadu yn cynnig cynhesrwydd, cariad a sefydlogrwydd. Fel ni, maen nhw eisiau i bob plentyn deimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael gofal.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae ein staff, teuluoedd maeth a mabwysiadu wedi dangos gwytnwch aruthrol mewn amgylchiadau anodd. Daeth staff o hyd i ffyrdd creadigol o ddiwallu anghenion teuluoedd drwy addasu'n gyflym i gynhyrchu cymorth a hyfforddiant ar-lein.


Yn 2020/21, cafodd pob un o'n gwasanaethau maethu a mabwysiadu yn Lloegr eu sgorio fel 'Rhagorol' neu 'Da' gan Ofsted. Ar ymweliad â'n gwasanaeth yng Nghaerwysg, dywedodd Ofsted: 'Mae nifer o blant wedi byw gyda'u gofalwyr maeth am amser hir. Maen nhw'n teimlo eu bod yn cael eu caru, yn cael gofal ac mae ganddyn nhw ymdeimlad o barhauster. Mae plant yn cael eu paru gyda gofalwyr maeth yn ofalus. Roedd adborth gan ofalwyr maethu a gweithwyr proffesiynol yn bositif iawn ynglŷn â'r asiantaeth, y gofal y mae plant yn ei dderbyn a'r cynnydd y mae plant yn ei wneud'.

Y llynedd, helpodd ein gwasanaethau maethu 21 o frodyr a chwiorydd i aros gyda'i gilydd. Gwelwyd cynnydd o 100% mewn paru brodyr a chwiorydd yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn yn unig.

> *"Heb os, mae dod yn fam faeth i Gweithredu dros Blant wedi trawsnewid fy mywyd. Dyma'r peth gorau i fi ei wneud erioed. Roedd y gefnogaeth a roddwyd i fi gan Gweithredu dros Blant yn anhygoel. Mae fy ngweithiwr cymdeithasol yn wych."*

Nicky,
gofalwr maeth yng Ngogledd Iwerddon

## My Time in Care




Roedd y prosiect My Time in Care, a ariannwyd gan y partner corfforaethol CBRE, yn adrodd stori bywydau mewn gofal maeth drwy gyfres o fideos a grëwyd gan bobl ifanc. Rhannodd y fideos brofiadau ac awgrymiadau, gan gynnwys sut i ymgartrefu ar eich noson gyntaf a ble i fynd am help.

Mae tudalen Instagram y prosiect wedi'i rannu gan enwogion a'i drafod ar Sky News. Derbyniwyd llu o negeseuon positif am yr ymgyrch, gan gynnwys:

> *"Fel rhywun wnaeth gael ei fagu mewn gofal, mae'r negeseuon hyn yn amhrisiadwy i'r genhedlaeth iau sy'n mynd drwy hyn."*

Anfonodd y Gweinidog Plant, Vicky Ford AS, neges drydar:
'Cyfres anhygoel am fywyd mewn gofal maeth gan helpu eraill ar eu taith, yng ngeiriau'r rhai sy'n gadael gofal ac a gynhyrchwyd gan Gweithredu dros Blant.'

## Cartrefi preswyl a byw â chymorth

Fe wnaethon ni gynnal 19 o wasanaethau preswyl parhaol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y llynedd. Ac rydyn ni'n agor dau gartref newydd yn Tyne and Wear yn 2021. Ein nod yw sicrhau bod plant yn teimlo bod croeso iddyn nhw, yn gyffyrddus ac wedi setlo mewn cartrefi modern teuluol, mewn tai â chymorth neu yn ein hysgol breswyl, Headlands.

Gweithiodd ein staff rheng flaen yn hynod o galed i sicrhau bod pobl ifanc yn hapus ac yn derbyn gofal yn ystod yr argyfwng. Symudodd rhai hyd yn oed i'n cartrefi plant. Yng Nghymru, cynlluniodd ein cartref preswyl Tan y Bryn gyfres o weithgareddau, gan gynnwys coginio, garddio a gwersylla. Rhys, 13 oed, oedd un o'r rhai cyntaf i symud i Tan y Bryn yn 2019. Dywedodd: "Ro'dd y newyddion yn frawychus iawn ond ro'n i'n teimlo'n ddiogel yma. Mae'r staff wedi edrych ar ein holau mor dda a chafwyd lot o hwyl yn gwneud gemau ac ymarfer corff. Roedden ni gyd wrth ein bodd yn mynd allan i gefn gwlad a gofalu am ein gardd."

Yng Ngogledd Iwerddon, cefnogodd ein gwasanaeth Cymorth Fel y Bo'r Angen a Llety â Chymorth 70 o bobl ifanc. Mae'r gwasanaeth yn helpu pobl ifanc sydd wedi gadael neu sydd ar fin gadael gofal, neu sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys galwadau fideo, teithiau cerdded wedi ymbellhau'n gymdeithasol, pecynnau llesiant a'n gwasanaeth testun positif. Fe wnaethom hefyd eu helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol drwy e-byst wythnosol i chwilio am swyddi, cymorth CV a hyfforddiant, a rhaglen goginio ar gyllideb.



**Ar ôl byw yn un o'n cartrefi preswyl, mae sgiliau bywyd 77% o bobl ifanc wedi gwella, gan gynnwys gwybod sut i reoli tenantiaeth neu i ofalu am eu cartref.**

## Ysgol go wahanol

Headlands yw ein hysgol breswyl ym Mhenarth, De Cymru. Mae'r ysgol fel arfer yn cefnogi 70 o blant a phobl ifanc sy'n cael trafferth dysgu o ganlyniad i drawma cynnar, problemau emosiynol a chymdeithasol cymhleth, cyflyrau sbectrwm awtistig a syndrom Asperger.

Arhosodd Headlands ar agor drwy gydol y cyfnodau clo, drwy ofalu am blant gweithwyr allweddol a myfyrwyr eraill a oedd yn agored i niwed. Roedd staff yn benderfynol o gadw'r disgyblion yn brysur drwy gynnig pob math o weithgareddau i sicrhau cyrff a meddyliau iach. Roedd hyn yn cynnwys trampolinio, paentio, pobi cacennau a dechrau'r dydd gyda dosbarth ymarfer corff Joe Wicks. Roedd ci yr ysgol, Dexter, hefyd wedi helpu i gadw'r myfyrwyr yn ddigynnwrf ac yn hamddenol.

Ym mis Medi, daeth pedwar alpaca o Periw i'r ysgol. Cynlluniodd ac adeiladodd y disgyblion dai ar gyfer yr alpacas, a rhannwyd y cyfrifoldeb am ofalu amdanyn nhw. Maen nhw'n hybu iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr, ac yn rhan hanfodol o addysg awyr agored pobl ifanc.

"Dwi'n mwynhau bod yn yr awyr agored yn gofalu am yr alpacas. Pan ddes i i Headlands y llynedd, ro'n i'n grac, ond dwi'n llawer gwell nawr. Mae gweithio gyda'r alpacas wedi helpu."

Casey, 15



## Seibiannau byr

Mae ein seibiannau byr yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ag anableddau gael hwyl, mwynhau amser oddi cartref ac i ddysgu sgiliau newydd. Maen nhw hefyd yn rhoi seibiant i deuluoedd o'u cyfrifoldebau gofalu. Mae'r seibiannau yn amrywio o ddyddiau allan i dripiau preswyl mewn lleoliadau gwahanol ar draws y DU.

Gweithiodd ein staff ymroddedig yn galed i addasu ein seibiannau byr y llynedd. Roedden nhw'n cynnal gwasanaethau rhithiol, yn dosbarthu pecynnau gweithgareddau i stepen y drws, ac yn creu llefydd diogel lle gallai clybiau ddigwydd wyneb yn wyneb. Yn Bury, symudodd ein gwasanaeth seibiannau byr 100% ar-lein. Drwy ddefnyddio eu sgiliau technoleg, creodd staff gemau a gweithgareddau dychmygus ar-lein, a oedd yn boblogaidd iawn gyda'r plant. Enillodd y gwasanaeth wobr BBC Manchester yn dilyn enwebiad gan riant.

**17,500**

**o blant wedi mynd ar un o'n seibiannau byr, er gwaetha'r heriau a wynebwyd yn ystod y pandemig.**

# Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu

## Mae pob plentyn yn haeddu cael iechyd meddwl da.

Rydyn ni'n sicrhau bod gan blant y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw i ofalu am eu hiechyd meddwl. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy gynnal rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n helpu plant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw.

Mae un enghraifft, Build Sound Minds Derby and Derbyshire, yn cynnig cefnogaeth ymyrraeth gynnar i blant a phobl ifanc 0 i 17 oed sy'n profi anawsterau iechyd meddwl. Drwy weithio mewn partneriaeth â Ffederasiwn Iechyd Meddwl Swydd Derby, mae'r gwasanaeth cymunedol hwn yn cynnal sesiynau therapiwtig un-i-un a sesiynau grŵp. Mae hefyd yn cynnig gwybodaeth a chyngor wyneb yn wyneb, yn ddigidol ac ar y ffôn.

Mae'r pandemig wedi cael effaith fawr ar lesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd. Gwnaethom ymateb drwy ehangu ein cymorth iechyd meddwl, gan gynnwys lansio gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion yn Inverclyde a chymorth llesiant yn Orkney. Fe wnaethom hefyd symud nifer o'n gwasanaethau ar-lein, gan gynnwys ein prosiect blaenllaw The Blues, sydd wedi'i gynnal mewn ysgolion ers 2017.

Rydyn ni'n falch dros ben bod y Sefydliad Ymyrraeth Gynnar wedi sgorio The Blues gyda'r effeithiolrwydd uchaf posibl wrth ddelio ag arwyddion cynnar o orbryder ac iselder ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau. Mae hyn yn golygu bod effeithiau positif y rhaglen yn cael eu teimlo ymhell ar ôl iddi ddod i ben.

Symudodd The Guide – ein gwasanaeth sy'n cynnig hyfforddiant llythrennedd iechyd meddwl i athrawon a gweithwyr iechyd ledled Cymru – ar-lein hefyd. Dywedodd 97% o athrawon a gweithwyr proffesiynol a gwblhaodd The Guide bod ganddyn nhw ddealltwriaeth well o iechyd meddwl a'r stigma sy'n gysylltiedig ag ef. Cyrhaeddodd y gwasanaeth hefyd rownd derfynol Gwobrau Effaith Arweinwyr Digidol 2021 yn y categori iechyd meddwl. Mae The Guide a Bouncing Back yng Nghymru wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru.

**Cafodd dros 98,000 o blant a phobl ifanc gymorth iechyd meddwl drwy raglenni a gwasanaethau a ddarparwyd mewn ysgolion a'r gymuned. Mae hynny'n 291% yn fwy na'r llynedd diolch i brosiectau newydd a chynyddwyd y cymorth ar-lein.**

### The Blues a Bouncing Back

Pan darodd y coronafeirws, dywedodd athrawon wrthym fod angen help ar frys ar eu myfyrwyr i ddelio â phwysau'r cyfnod clo. Cafodd The Blues ei addasu i'w gyflwyno ar-lein. Ond fe wnaethon ni ddatblygu rhaglen newydd hefyd – Bouncing Back – sy'n cyd-fynd â The Blues ac sy'n mynd i'r afael â'r heriau a ddaeth i'r amlwg yn sgil y pandemig.

Ers mis Medi, mae dros 5,000 o ddisgyblion mewn 50 ysgol wedi cymryd rhan yn Bouncing Back. Dywedodd bron i dri chwarter (72%) eu bod wedi gweld cynnydd o ran hyder a'u gallu i ymdopi â sefyllfaoedd o straen. Derbyniodd y bobl ifanc becyn cymorth cyntaf iechyd meddwl i'w helpu i reoli eu hysbryd ac i gynnal gwelliannau yn eu lles emosiynol.

Cymerodd Niamh sy'n 14 oed, ran yn rhaglen The Blues yn rhithiol yn ystod y pandemig.



Teimlai Niamh fod yr ail gyfnod clo yn anoddach o lawer na'r cyntaf. Mae'n egluro sut wnaeth y rhaglen ei helpu i reoli ei theimladau ac i ofalu am ei hiechyd meddwl.

"Mae'n dda eich bod yn gallu siarad am eich teimladau, ond rydych chi hefyd yn clywed am bobl eraill. Rydyn ni'n cynnal gweithgareddau yn yr ysgol a thu allan, ac mae ein mentoriaid yn ein helpu drwy hyn."

### Darparu iechyd meddwl gwell i bobl ifanc

Am bedair blynedd, mae'r Post Brenhinol wedi ein helpu i godi arian ac ymwybyddiaeth am well cefnogaeth iechyd meddwl i blant. Fe wnaethant hefyd ein helpu i lansio rhaglen The Blues, lobïo'r llywodraeth am newid a chefnogi nifer o ymgyrchoedd.

Wrth i staff godi arian a diolch i arian cyfatebol, cododd y Post Brenhinol swm anhygoel o £2 filiwn. Fe wnaethant hefyd gyfrannu dros 1,100 o oriau gwirfoddoli i'n gwasanaethau a 400 awr o gymorth pro bono i wella sut rydyn ni'n gweithio.

# Ymgyrchu dros newid

Mae ein gwaith polisi ac ymgyrchu yn codi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a theuluoedd, yn enwedig ar adegau o argyfwng.

Addaswyd pwyslais ein hymgyrchoedd yn gyflym i fynd i'r afael â'r materion a waethygwyd gan y coronafeirws. Y llynedd, fe wnaethom:

- Tanlinellu'r angen am fesurau diogelwch parhaus yn y broses fabwysiadu.
- Pwyso ar y Llywodraeth i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau.
- Rhannu profiadau o gael PPE a phrofion gyda'r sector.
- Gweithio gyda swyddogion y Llywodraeth i roi cymorth penodol i deuluoedd sy'n agored i niwed, gan gynnwys y prosiect See, Hear, Respond.
- Ein hymgyrch Credyd Cynhwysol i gael oedi o chwe mis i'r toriad (darllenwch fwy ar dudalen 18).
- Trafod pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar gyda Duges Caergrawnt a chefnogi adroddiad 'Cyflwr y Genedl' y Sefydliad Brenhinol ar effaith y pandemig ar rieni (darllenwch fwy am ein hymgyrch blynyddoedd cynnar ar dudalen 21).
- Cynnal ymchwil gyda 100 o weithwyr rheng flaen yr Alban i ddeall eu profiadau a chynhyrchu argymhellion cyn etholiadau Seneddol yr Alban.
- Arwain 50 o elusennau eraill mewn ymgyrch i sicrhau bod plant wrth wraidd cynllun adfer y coronafeirws, a anfonwyd at Swyddfa'r Weithrediaeth yng Ngogledd Iwerddon.



Yng Nghymru, fe wnaethon ni barhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i hyrwyddo cyfraith sy'n gwahardd cosbi plentyn yn gorfforol yng Nghymru, a fydd yn dod i rym o 2022. Fe wnaethon ni hefyd eu helpu i greu fideos hyrwyddo a rhannu negeseuon pwysig, gan ddefnyddio ein gwasanaeth Parent Talk dwyieithog i sôn wrth deuluoedd am y Ddeddf.

Yng Ngogledd Iwerddon, cafodd y Cynulliad ei adfer ym mis Ionawr 2020 ar ôl tair blynedd heb Weithrediaeth Ddeddfwriaethol. Adeiladwyd perthnasoedd cryf â Gweinidogion, Aelodau, grwpiau diddordeb arbennig, a sefydliadau yn y sector plant. Gyda'n gilydd, gwnaethom ddylanwadu ar lunio polisïau ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc, llesiant mewn ysgolion, tlodi plant, a hawliau gofalwyr ifanc. Cafodd y gwaith hwn ei lywio gan y plant a'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi. Chwaraeodd pobl ifanc rôl enfawr, gan siarad â swyddogion y llywodraeth a phobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau, ymddangosiadau ar y teledu a siarad ar gyfryngau cymdeithasol.

## Datblygiadau ymgyrchu:

### Newid y gyfraith ar gam-drin domestig i wneud cartrefi yn fwy diogel i blant a phobl ifanc

Yn dilyn ymdrechion ymgyrchu anhygoel staff, cefnogwyr, gwleidyddion, partneriaid a goroeswyr, llwyddwyd i newid y gyfraith ar gam-drin domestig.

Mae tua 800,000 o blant yn Lloegr wedi profi cam-drin domestig. Gall goblygiadau hynny fod yn ddinistriol. Daeth Gweithredu dros Blant a Chymorth i Fenywod â sefydliadau cam-drin domestig a phlant at ei gilydd i bwyso am newid. O gyhoeddi adroddiadau polisi a chynnal digwyddiadau i Aelodau Seneddol, i ofyn i ymgyrchwyr e-bostio'r Prif Weinidog, a chyfarfodydd preifat gyda'r Llywodraeth, rydyn ni'n falch o'r rôl y gwnaethom ei chwarae.

## Stori Carol

**Roedd Carol* mewn perthynas gamdriniol am dros ddegawd. Llwyddodd i ddianc rhag y person a oedd yn ei cham-drin ar ôl i un o'i merched ddweud wrth athro ei bod yn credu 'y byddai dadi yn lladd mami'.**

Er gwaethaf gwneud popeth o fewn ei gallu i warchod ei phlant rhag camdriniaeth, fe effeithiodd y trawma yn ddrwg arnyn nhw. Roedd ei merch hynaf, Melanie*, 15, yn beio ei hun a cheisiodd gyflawni hunanladdiad ddwywaith. Fe wnaeth Gweithredu dros Blant estyn allan i gefnogi'r teulu a helpu Melanie i fynegi sut roedd hi'n teimlo.

"Ro'dd Melanie yn gwrthod siarad â fi, ond fe siaradodd hi â gweithiwr Gweithredu dros Blant," eglurodd Carol. "Dywedodd wrthi sut roedd hi'n teimlo a thrafododd ei hemosiynau. Hyd yn oed yn ystod y cyfnod clo, roedd hi mewn cysylltiad yn gyson, ac roedd hynny'n achubiaeth i Melanie."

Ar ôl symud i gartref diogel, rhoddwyd y teulu ar Gredyd Cynhwysol. Ond pan roedd y plant yn barod i fynd nôl i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo cyntaf, ni allai Carol fforddio eu dillad ysgol.

Diolch byth, llwyddodd ei gweithiwr cymorth i helpu. Dywedodd Carol: "Fe wnes i sôn wrth basio bod pethau'n anodd. Fe wnaeth ein gweithiwr gael gafael ar gyllid a chael popeth iddyn nhw, dillad ysgol ac offer, i fynd nôl. Golygai hynny y gallai Melanie fynd i'r coleg a theimlo rhywfaint o normalrwydd."

Fe wnaeth y cymorth yma wahaniaeth a oedd yn gallu newid bywyd. "Mae hi'n Melanie eto – fy merch fach i unwaith eto," dywedodd Carol. "Oni bai am Gweithredu dros Blant, byddwn i wedi bod yn eistedd fan hyn yn pendroni sut i gael fy merch yn ôl. I'r teulu, dangosodd y gefnogaeth y gall bywyd fod yn fwy na'r hunllef roeddem ynddo."

Cafodd Carol a'i theulu eu cefnogi gan ein Cronfa Argyfwng Coronafeirws. Fe wnaethon nhw dderbyn cymorth ein partner corfforaethol Turner & Townsend hefyd, a ariannodd y dillad ysgol a hanfodion eraill.



*Rydyn ni wedi newid enwau pobl i ddiogelu eu hunaniaeth.

# Sut mae'r gyfraith wedi newid?

1. **Mae plant bellach yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr cam-drin domestig o dan y Ddeddf Cam-drin Domestig.**
2. **Mae'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r afael â'r effaith ar blant a phobl ifanc, a fydd yn siapio sut mae sefydliadau yn cefnogi plant.**
3. **Bydd y Comisiynydd Cam-drin Domestig bellach yn gorfod canolbwyntio ar blant yn ogystal ag oedolion sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig.**

# Diogelu

**Dylai pob plentyn deimlo'n ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed.**

Mae diogelu wrth wraidd popeth a wnawn. Ni fu hyn erioed yn bwysicach nag yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'n dechrau gyda'n prosesau recriwtio a chynefino, sy'n sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn rhannu ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth positif i fywydau plant. Mae'r bobl sy'n darparu ein gwasanaethau yn cael eu harwain gan yr ymchwil a'r arfer gorau diweddaraf. Mae eu gwaith o ddydd i ddydd wedi'i wreiddio yn ein polisïau a'n gweithdrefnau diogelu, sy'n gwarchod plant rhag niwed.

Rydyn ni'n adolygu ein harferion, ein polisïau a'n gweithdrefnau diogelu bob blwyddyn. Rydyn ni hefyd yn archwilio ein ffeiliau achos yn rheolaidd ac yn siarad â staff a rheolwyr am yr hyn sy'n gweithio'n dda a lle mae angen i ni wneud newidiadau. Mae'r holl waith hwn yn cael ei oruchwylio gan ein Bwrdd Ymddiriedolwyr, sy'n cefnogi ac yn herio ein trefniadau diogelu plant.

## Ymateb i'r argyfwng coronafeirws

Aeth ein staff y cam ychwanegol hwnnw i sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.

Fe wnaethom gynyddu faint o hyfforddiant a oedd ar gael drwy symud y rhan fwyaf o'n gweithgaredd dysgu a datblygu ar-lein. Gwnaethom hefyd gymryd gofal mawr i sicrhau bod canllawiau diogelu newydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y pandemig, a'u bod yn cael eu diweddaru wrth i'r sefyllfa newid. Mynychwyd sesiynau Holi ac Ateb staff yn rheolaidd gan dros 200 o bobl.

Cadwodd staff 99% o'n gwasanaethau ar agor drwy'r argyfwng. Gwnaethom sicrhau bod gan staff a oedd mewn gofal cyswllt agos neu'n gweithio mewn cartrefi teuluol y PPE cywir. Gwnaethom hefyd ddatblygu asesiadau ar-lein a rhoddwyd prosesau ar waith i weld plant a theuluoedd mewn cymunedau o bell, ar garreg y drws a lle bo'n bosib, yn eu cartrefi. Fe wnaethom hefyd barhau i ofalu am blant yn ein cartrefi preswyl, maeth a mabwysiadu, meithrinfeydd a'n gwasanaethau seibiannau byr cymunedol.

Mae'r gwaith a wnaethom y llynedd yn golygu ein bod mewn lle da i ddelio â chamau nesaf y pandemig. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau sy'n cefnogi iechyd meddwl plant. A byddwn yn parhau i gynnig cyfuniad o gymorth ar-lein a phersonol i gyrraedd y rheini sydd fwyaf mewn perygl.

Byddwn hefyd yn ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau sy'n cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Rydyn ni'n gwybod bod rhai plant anabl heb dderbyn yr un lefel o gymorth cymunedol eleni, er enghraifft. Rydyn ni hefyd yn gwybod bod cam-drin domestig wedi cynyddu a bod y bygythiadau o ecsbloetio rhywiol ac afiechyd meddwl ar gynnydd. Rydyn ni'n gweithio'n galed i gyflawni'r heriau hyn.





# Sut rydyn ni’n gweithio i gadw plant yn ddiogel ac yn hapus

**Rydyn ni’n uchelgeisiol o ran yr hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni i blant. Mae popeth a wnawn yn cael ei ategu gan angerdd y bobl sy'n gweithio i ni, yn gwirfoddoli ac yn ein cefnogi. I wneud gwahaniaeth sy'n newid bywydau, rydyn ni'n codi arian, yn gwrando ar blant a theuluoedd, ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i redeg sefydliad cynaliadwy.**


# Rhoi llais i bobl ifanc

**Rydyn ni wastad yn rhoi barn plant a phobl ifanc yn gyntaf.**

Mae eu barn yn siapio popeth a wnawn. Y llynedd, fe wnaethon ni recriwtio mwy o bobl ifanc i'n Panel Llysgenhadon Ifanc – grŵp sydd â dylanwad mawr ar brosiectau ar draws Gweithredu dros Blant. Bellach mae gennym 15 o aelodau parhaol.

## Creu deunydd cyfathrebu am coronafeirws sy'n addas i bobl yn eu harddegau

Helpodd ein Grŵp Cynhwysol Gofalwyr Ifanc yng Ngogledd Iwerddon y llywodraeth i ddod o hyd i ffyrdd addas o rannu canllawiau coronafeirws ymhlith pobl ifanc. Llywiodd eu gwaith gyhoeddiadau cyhoeddus ar hysbysfyrddau, trafnidiaeth a chyfryngau cymdeithasol.



**Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol yn clywed gan ein Grŵp Cynhwysol Gofalwyr Ifanc**

## Dylanwadu ar y rheini sy'n gwneud penderfyniadau

Fe wnaeth grŵp o bobl ifanc roi adborth ar ein hadroddiad *Plentyndod Yn Ystod Coronafeirws*, gan rannu syniadau am yr hyn sydd angen ei wneud i warchod plant rhag effeithiau tlodi. Cyflwynodd un o awduron y fersiwn o'r adroddiad i bobl ifanc y canfyddiadau i ASau mewn digwyddiad galw heibio rhithiol. Rhannodd pobl ifanc hefyd eu barn ar iechyd meddwl gydag ASau yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant. A chyflwynodd tîm o ymgyrchwyr ifanc ddeiseb i'r Prif Weinidog yn rhithiol yn galw ar ddod â thlodi plant i ben.

Byddwn yn parhau i harneisio lleisiau pobl ifanc i greu newid yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae gennym gynlluniau cyffrous i helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i siapio'r hyn sy'n deillio o'r Adolygiad Gofal ac i bwyso ar y llywodraeth.

**384**

**o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn ein gwaith y llynedd.**

Gallwch hefyd ddarllen am ymgyrch Instagram My Time in Care, a grëwyd gan bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, ar dudalen 22.

## Datblygu adnoddau iechyd meddwl newydd




Fel rhan o'r rhaglen The Blues, creodd ddisgyblion Academi Strabane yng Ngogledd Iwerddon gyfrol iechyd meddwl i bobl ifanc 11-16 oed. Mae *Looking After Me* yn annog pobl ifanc i fynegi sut maen nhw'n teimlo drwy ysgrifennu a thynnu lluniau.



# Codi arian

**Bu'n 12 mis heriol o ran codi arian. Ond er gwaethaf popeth - parhaodd ein cefnogwyr i wneud yr hyn maen nhw'n ei wneud orau: codi arian ac ymwybyddiaeth ar gyfer Gweithredu dros Blant.**

Yn anffodus, cafodd ein holl ddigwyddiadau wyneb yn wyneb eu canslo yn sgil y cyfnodau clo. Ond drwy addasu'n gyflym a dod o hyd i ddulliau rhithiol eraill, roedd cefnogwyr hen a newydd, enwogion a'r cyhoedd yn gallu cefnogi ein hymdrechion codi arian a'n hymgyrchoedd.

Fe wnaeth hyn ein helpu i gynyddu'r incwm codi arian yn sylweddol yn ystod 2020/21. Fe wnaethom hefyd elwa o sawl rhodd unwaith ac am byth, a oedd yn unigryw y llynedd. Rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r cefnogwyr hael hynny a adawodd rodd i ni yn eu hewyllys hefyd.


Cysgodd cefnogwyr mewn llefydd anarferol ar gyfer digwyddiad Boycott your Bed

PRIF BARTNER YR YMGYRCH SANTA CUDD.

## Arloesi wrth godi arian: Boycott your Bed

Mae'r pandemig yn golygu nad oedd modd i ni gynnal ein 23ain Byte Night y llynedd. Yn hytrach, lluniwyd digwyddiad newydd sbon gartref, Boycott your Bed.

Cafodd aelwydydd ar hyd a lled y wlad wared ar y duvet, rhoddwyd y blancedi a'r gobennydd i'r naill ochr er mwyn dod o hyd i'r llefydd cysgu mwyaf anarferol. Roedd pobl yn cysgu mewn pob math o lefydd rhyfedd a thrawiadol, gan gynnwys stablau, baddonau, traethau, trampolinau ac ymylon clogwyni.

Cofrestrodd 4,500 o bobl i roi'r gorau i'r gwely. Fe wnaethon nhw fwynhau noson rithiol o adloniant yng nghwmni'r sêr gan gynnwys Pixie Lott, y digrifwr Ed Byrne a llawer mwy.

Drwy godi arian, nawdd, arian cyfatebol, arwerthiant distaw, raffl a mwy, cododd Boycott your Bed dros £350,000.

> ***"Doedd fy mhlentyn pum mlwydd oed ddim yn gallu dirnad plant heb eu gwelyau eu hunain. Fe wnaethon ni egluro fod y £300 wnaethon ni ei godi yn ddigon i brynu tri gwely! Ro'dd e wrth ei fodd."***

## Llwyddiant Santa Cudd

Mae'n dair blynedd eleni ers i ni ddechrau ein hapêl Santa Cudd sy'n hynod lwyddiannus. Cododd cefnogwyr hael ledled y DU £1.5 miliwn i blant agored i niwed a'u teuluoedd – dros ddwbl cyfanswm y flwyddyn flaenorol.

Bu'n rhaid i ni addasu rhai o'n gweithgareddau Santa arferol oherwydd cyfyngiadau coronafeirws. Ymunodd 900 o aelwydydd â ni am gyngerdd carolau rhithiol a gyflwynwyd gan Jon Snow o Channel 4, gan godi dros £31,000. Ac fe wnaeth sêr Instagram Mr a Mrs Hinch gyflwyno cwis rhithiol, a gododd dros £30,000.

Cefnogodd dros 50 o enwogion Santa Cudd y llynedd gan helpu i greu 160 miliwn o gyfleoedd i weld. Ymhlith yr uchafbwyntiau oedd sawl artist yn rhoi senglau Nadolig i Gweithredu dros Blant, gan gynnwys Liam Gallagher.

Siop y stryd fawr Iceland oedd ein prif bartner Santa Cudd cyntaf. Daeth pob un o 28,000 o staff Iceland yn Santas Cudd, gyda Sefydliad Elusennol Iceland Foods yn cyfrannu £280,000 i wneud yn siŵr y byddai mwy o blant yn cael pryd poeth dros gyfnod y Nadolig. Casglodd cydweithwyr fwyd a theganau hefyd, ac aeth y digrifwr Jason Manford â danteithion Nadoligaidd i rai o'n gwasanaethau.

Roedd Metro Bank hefyd yn rhan o'r apêl, gan sefydlu pop-yp Nadoligaidd hudol ym mhob un o'u hadeiladau. Cynhaliodd ein partner corfforaethol, FirstGroup, Bysiau Santa ar draws eu safleoedd yn Doncaster, Caerlŷr, Caerwrangon, Potteries, Sheffield a Hadley, gan ddod â hwyl yr ŵyl i gwsmeriaid.



Jason Manford yn mynd â danteithion i'n gwasanaethau

## Dod o hyd i ffyrdd newydd o godi arian

Yn ogystal â Santa Cudd a Boycott your Bed, cymerodd ein cefnogwyr ran mewn llwyth o weithgareddau rhithiol cyffrous eraill.

Ddechrau Mawrth, cafodd y Cwis Newyddion Mawr ei ddisodli gan rifyn y cyfnod clo, gyda chyfres o gwestiynau cyfredol yn cael eu gofyn gan wynebau cyfarwydd o fyd darlledu. Daeth y flwyddyn i ben gydag ocsiwn ar-lein - gyda gwobrau unigryw – yn lle Cinio Gwanwyn y Merched. Cododd yr ocsiwn £15,000.

Codwyd y swm anhygoel o £3.2 miliwn drwy godi arian rhanbarthol yn ystod 2020/21. Gwelwyd symudiad mawr tuag at ddigwyddiadau rhithiol, gan gynnwys yr Her 2.6, 30 Days Your Way, the Woman of Influence Awards, a Chinio Chwaraeon yr Alban. Bu newidiadau i ddigwyddiadau chwaraeon hefyd, gyda Marathon Virgin Money Llundain a'r Great North Run yn cael eu cynnal yn rhithiol.

Yn yr Alban, fe wnaeth y Loteri Genedlaethol, Creative Scotland, Sefydliad John Lewis, BBC Plant mewn Angen, Sefydliad William Grant, Ymddiriedolaeth Miss M J M Smith a Chymdeithas Adeiladu Nationwide gefnogi ceisiadau i ariannu ein gwaith.

Parhaodd y Tîm Dyngarwch i greu partneriaethau cryf, hirhoedlog gydag unigolion dyngarol, ymddiriedolaethau a sefydliadau. Mewn nifer o achosion roedd hyn yn golygu dod o hyd i ffyrdd newydd o weithio, wrth i ni geisio codi arian ar gyfer ein Cronfa Argyfwng Coronafeirws, a dalodd am hanfodion fel bwyd, biliau ac eitemau babanod. Gwnaethom sicrhau bod cefnogwyr yn ymwybodol o effaith eu rhoddion. Roedd hyn yn cynnwys cynnal cyfres o weminarau yn dangos sut roedd staff yn ymateb i heriau ac yn trawsnewid bywydau.

Rydyn ni'n hynod ddiolchgar am gefnogaeth barhaus ein teulu Methodistaidd. Er bod y cyfnodau clo wedi rhoi stop ar nifer o'u gweithgareddau codi arian, llwyddodd cefnogwyr Methodistaidd i godi dros £330,000, sy'n gamp rhyfeddol. Ymhlith yr enghreifftiau o syniadau codi arian arloesol oedd llyfr Jim Godfrey o gartwnau, *Trying Times*, a gododd dros £2,600 a phecyn o gymeriadau drama'r Geni i'w rhoi yn y ffenest gan gylchdaith Brownhills and Willenhall, a gododd £340.

## Ein partneriaid corfforaethol

**Parhaodd ein partneriaid corfforaethol gwych i fynd y filltir ychwanegol honno, o godi arian ymhlith gweithwyr a rhoddion gan gwmnïau hyd at gefnogaeth pro bono gwerthfawr a chyfraniadau eraill.**

Daeth ein partneriaeth wobredig gyda **CBRE** i ben ym mis Ionawr 2021. Rhagorwyd ar ein targed codi arian, gan godi dros £1.3 miliwn i blant a phobl ifanc mewn gofal maeth. Cymerodd staff CBRE ran mewn un her olaf i godi arian, £10k Your Way, gan godi dros £60,000.

Mewn partneriaeth â **Dell Technologies**, fe wnaethom barhau i redeg y rhaglen Inspire IT, sy'n helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau digidol gwerthfawr. Fe wnaethom ehangu'r rhaglen yn 2020/21 i roi mynediad i bobl ifanc i dechnoleg gartref. Gwnaethom hefyd gynnig cymwysterau sgiliau digidol a chyflogadwyedd.

Yn y bedwaredd flwyddyn a'r olaf yn ein partneriaeth â'r **Post Brenhinol**, fe wnaethon ni lansio pecynnau adnoddau Can't Talk, Write gydag Ymddiriedolaeth y Tywysog. Mae'r pecyn adnoddau yn annog pobl ifanc 11-18 oed i rannu eu teimladau drwy ysgrifennu a chynnwys awgrymiadau i wella llesiant.

Parhaodd **Turner & Townsend** i gefnogi ein Cronfa Addysg, sy'n cynnwys cost adnoddau addysgol hanfodol. Y llynedd fe wnaethom ddarparu grantiau ar gyfer 2,027 o blant a phobl ifanc. Gwnaethom hefyd gyflwyno adnoddau i gefnogi dysgu yn y cartref yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn galluogi plant i fynychu, ymgysylltu a chyflawni pan aethant nôl i'r ysgol.

Cefnogodd **FirstGroup** y broses o gyflwyno hyfforddiant iechyd meddwl arbenigol i staff rheng flaen y llynedd. Cafwyd dros 450 o gyfleoedd hyfforddi, gyda sesiynau yn cwmpasu pynciau fel adeiladu gwytnwch emosiynol. Fe wnaethom hefyd barhau i elwa ar hysbysebu rhoddion y hwnt i arian ar draws rhwydwaith trafnidiaeth FirstGroup yn y DU.

Cyllidodd **CMC Markets (y pencadlys yn Llundain)** y cydlynydd ar gyfer ein gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol yn Llundain. Mae'r cydlynydd yn cefnogi mentoriaid gwirfoddol i helpu plant a phobl ifanc mewn gofal i ddatblygu sgiliau annibyniaeth hollbwysig.




**Rhoddodd ein Rheolwr Gwasanaethau Plant, Paul Kellagher, y gorau i'w wely am glogwyn wrth ymyl Cefnfor yr Iwerydd**

## Cydymffurfiaeth codi arian

Fe wnaethom gynyddu ein hincwm codi arian y llynedd drwy addasu gweithgareddau yn gyflym i fodel rhithiol, gan weithio'n galed i ymgysylltu â chefnogwyr, a thrwy ddefnyddio cefnogaeth y cyhoedd yn ehangach.

I godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, fe wnaethom hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol a mannau cyhoeddus awyr agored. Fe wnaethom hefyd ymgysylltu â chefnogwyr yn uniongyrchol drwy e-bost, post, ffôn neu SMS.

Ar adegau rydyn ni'n defnyddio asiantaethau i gyflawni gweithgarwch codi arian (er enghraifft post uniongyrchol, ffôn neu farchnata digidol). Disgwylir i bob trydydd parti ac asiantaeth allanol sy'n gweithredu ar ein rhan wneud hynny yn unol â'n safonau. Rhaid iddyn nhw hefyd ddilyn yr holl reoliadau, cyfreithiau perthnasol a'r Cod Ymarfer Codi Arian.

Mae Gweithredu dros Blant wedi ymrwymo i gynnal safonau uchel o ran codi arian. Rydyn ni'n aelod o'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac yn dilyn ei God Ymarfer Codi Arian a'r Addewid Codi Arian.

Byddwn wastad yn glir, yn agored ac yn onest wrth gyfathrebu â chefnogwyr. Rydyn ni'n parchu eu preifatrwydd a'u dewisiadau cyswllt. Rydyn ni hefyd wedi cofrestru gyda'r Gwasanaeth Dewis Codi Arian.

Y llynedd, fe wnaethom ddiweddaru ein Polisi Pobl Agored i Niwed, Polisi Derbyn Rhoddion a Datganiad Codi Arian Moesegol. Gwnaethom hefyd ddatblygu canllawiau ar feysydd codi arian penodol, gan gynnwys ad-dalu rhoddion.

## Delio â chwynion

Rydyn ni wedi ymrwymo i wasanaeth gwych i gwsmeriaid ac yn croesawu sylwadau ac adborth am y ffordd rydyn ni'n gweithio. Cymerir pob cwyn o ddifri ac ymdrinnir â hi yn unol â'n Gweithdrefnau Cwyno Codi Arian. Ceisiwn ddatrys cwynion mor gyflym ac effeithlon â phosibl, ac mewn ffordd bersonol, deg a chyfrinachol.

Yn 2020/21, fe dderbyniwyd 17 o gwynion am ein prosesau codi arian. Roedd y mwyafrif (wyth) yn gysylltiedig â'r ffordd rydyn ni'n cydnabod rhoddion. Mae diolch i gefnogwyr am y pethau anhygoel maen nhw'n eu gwneud yn bwysig dros ben. Gyda mwy o roddion yn cael eu gwneud yn ddigidol, mae disgwyliadau pobl yn newid. I fodloni'r rheini, rydyn ni'n defnyddio offer digidol newydd i sicrhau bod rhoddion yn cael eu cydnabod yn gyflym ac mewn ffordd gost-effeithiol.

Roedd gweddill y cwynion yn ymwneud ag archebion deunydd codi arian (dau), problemau gyda phrosesau mewnol (dau), digwyddiad codi arian (un), dewisiadau cyfathrebu (un) a rhoi'n rheolaidd (tri).

# Y teulu Gweithredu dros Blant

**Ni allem fod yma i blant oni bai  am ymroddiad, sgiliau ac angerdd ein staff a'n gwirfoddolwyr uchelgeisiol. Maen nhw wedi gweithio'n ddiflino yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mewn amgylchiadau hynod o anodd.**

Bu'r 12 mis diwethaf – gyda'i gyfnodau clo, cyfyngiadau'n newid a'r effaith ar blant agored i niwed - yn her enfawr i'n staff. Roedd sicrhau bod ein pobl dalentog, gweithgar yn ddiogel ac yn hapus yn bwysicach nag erioed.

## Gofalu am ein staff

Fe wnaethon ni roi tîm at ei gilydd i sicrhau bod staff rheng flaen yn cael PPE, yn derbyn y cyngor iechyd a diogelwch diweddaraf, ac yn deall y cyfyngiadau wrth iddyn nhw newid. Pan laciodd y cyfnod clo cyntaf, gwnaethom gyhoeddi mwy o ganllawiau, y tro hwn ar ail-agor rhai gwasanaethau.

Cynhaliodd ein 'Tîm Arian' alwadau rheolaidd gyda'n holl staff. Rhoddodd hyn gyfle i bawb ofyn am help, cwestiynu sut roedden ni'n rheoli'r argyfwng, a chael cefnogaeth gyda'u llesiant.

Rydyn ni wedi rhoi'r pwyslais mwyaf ar iechyd meddwl staff. Fe wnaethon ni gynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar a hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl i reolwyr. Mae gennym hefyd 160 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl ar draws yr elusen. Cynhyrchwyd pecyn cymorth cydnabyddiaeth newydd a fideo buddion i sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cydnabod am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Cynigiwyd offer, hyfforddiant a chymorth llesiant i staff a oedd yn gweithio gartref hefyd.

Cyfarfu ein Rhwydwaith Gweithio Gartref yn rheolaidd, gan gefnogi staff ar draws y DU. Gwnaethom wahodd siaradwyr gwadd i gyflwyno gweminarau ar bynciau a oedd yn cynnwys cydbwyso bywyd a gwaith ac adeiladu gwytnwch. Roedd 'oriau undod' rheolaidd yn cynnig llefydd diogel i drafod ac i rannu.

**Cadwodd staff rheng flaen**

**99%**




**o'n gwasanaethau ar agor yn ystod cyfnodau clo cenedlaethol.**



## Ein gwirfoddolwyr

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dewisodd 2,875 o bobl i wirfoddoli eu hamser i helpu plant a theuluoedd. Mae'n gynnydd o 15% o'r llynedd ac yn naid fawr ar ein targed o 10%. Amcangyfrifir bod y bobl wych hyn wedi rhoi 95,220 o oriau o gefnogaeth.

Daeth y gwirfoddolwyr atom drwy ein hafan gwirfoddoli, cyfryngau cymdeithasol, cymunedau lleol a'n gwasanaethau. Drwy addasu'r rolau, symud ar-lein a chreu cyfleoedd newydd, parhaodd 60% o'n gwirfoddoli drwy'r pandemig. Cyflwynwyd gwasanaethau cyfeillio newydd dros y ffôn, rolau cerdded a sgwrsio, a phrosiect siarad gydag athrawon i helpu rhieni gydag addysg gartref.

**90%**

**o'n gwirfoddolwyr yn dweud y bydden nhw'n argymell gwirfoddoli gyda Gweithredu dros Blant wrth ffrind.**

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae bod yn gynhwysol yn un o'n gwerthoedd craidd. Rydyn ni'n angerddol am hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gwneud hyn yn creu gweithle gwell a thecach i bawb.

Y llynedd lansiwyd ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant newydd. Mae'n nodi tair blaenoriaeth: darparu gwasanaethau a diwylliant gweithlu sy'n parchu ac yn adeiladu ar werthoedd ac amrywiaeth staff, gwirfoddolwyr a defnyddwyr gwasanaethau; cynyddu amrywiaeth ar draws ein bwrdd, gweithlu a chymunedau gwirfoddoli erbyn 2025; a dod yn sefydliad gwrth-hiliaeth.

Rydyn ni'n falch o'n strategaeth newydd ac, ers ei lansio, mae'r holl uwch reolwyr wedi cwblhau hyfforddiant ar ddeall rhagfarn. Gwnaethom hefyd Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb i ddeall yn well yr effaith y mae newidiadau sefydliadol mawr yn ei chael ar staff a chymunedau. A gwnaethom gyhoeddi datganiad gwrth-hiliaeth a oedd yn manylu ar sut byddwn yn chwarae ein rhan wrth ddatgymalu hiliaeth sefydliadol a systemig.

Mae amrywiaeth yn parhau i gael ei ddathlu drwy ein rhwydweithiau staff a gwirfoddolwyr. Mae'r rhwydweithiau'n cynnwys Celebrate (LGBTQ+), Rhwydwaith Cristnogol, Rhwydwaith Grymuso Rhywedd, Breakthrough (hil ac ethnigrwydd) ac Inspire (anabledd a gofalu). Mae'r grwpiau'n hyrwyddo digwyddiadau pwysig fel Mis Hanes Pobl Dduon, Pride, Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Mae Cadeiryddion y Rhwydweithiau yn cwrdd â'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i drafod materion fel y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a hybu iechyd meddwl da. Mae amrywiaeth a chynhwysiant hefyd yn cael eu dathlu ar draws ein gwasanaethau. Er enghraifft, datblygwyd cyfres o bosteri yn hyrwyddo ein neges bod 'croeso i bawb' mewn sawl iaith.

Mae ein Grŵp Cynghori Amrywiaeth a Chynhwysiant - sy'n cynnwys arweinwyr cynhwysiant o bob rhan o'r sefydliad - yn monitro ein hagwedd tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n gwneud argymhellion i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r ymddiriedolwyr, ac yn rhoi llais i staff a gwirfoddolwyr i lywio ein strategaeth uchelgeisiol.

"Hoffai Gweithredu dros Blant gadarnhau ei ymrwymiad i fod yn sefydliad gwrth-hiliol drwy ddatgymalu rhagfarn, gwahaniaethu a hiliaeth yn ei holl ffurfiau i wneud ein helusen yn sefydliad gwirioneddol deg, amrywiol a chynhwysol." Dyfyniad o'n datganiad a gyhoeddwyd flwyddyn ers marwolaeth George Floyd.




### Angerdd Denise am gynhwysiant

Mae gan Denise barlys yr ymennydd a nam iaith, ac mae hi wedi wynebu heriau cyfathrebu gydol ei hoes. Mae ei phrofiadau wedi ei gwneud hi'n angerddol am gynhwysiant. Cysylltodd â ni ynglŷn â chyfleoedd gwirfoddoli gyda'r nod o wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i blant a phobl ifanc ag anableddau.

Gan weithio gyda'n tîm yng Ngogledd Iwerddon, datblygodd Denise raglen ar-lein sy'n dangos i bobl sut i drin, rhyngweithio, deall a dangos empathi tuag at bobl ag anghenion cyfathrebu gwahanol. Lansiwyd y rhaglen E-ddysgu Cyfathrebu Cynhwysol y llynedd, o dan arweiniad Denise.

**227**

**o bobl wedi cofrestru ar ein rhaglen E-ddysgu Cyfathrebu Cynhwysol.**

## Tâl a recriwtio

Cafodd ein polisi a'n gweithdrefnau tâl, a lansiwyd yn ddiweddar, eu hymgorffori yn ein strwythur y llynedd. Bydd hyn yn ein helpu i ddenu, recriwtio a chadw'r sgiliau sydd eu hangen arnom i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Wrth bennu graddfeydd cyflog newydd, rydyn ni'n meincnodi yn erbyn y sectorau nid-er-elw a chyhoeddus. Caiff cyflog staff ei reoli drwy gynnydd sefydliadol y cytunwyd arno ac sydd wedi'i drafod gyda'n partneriaid undebau llafur.

Mae tâl uwch reolwyr (lefel cyfarwyddwr ac uwch) yn seiliedig ar gyflog ar hap yn hytrach nag amrediad. Mae unrhyw newid i gyflog staff ar hyn o bryd yn gofyn am gyflwyno a chymeradwyo achos busnes tâl i aelod perthnasol o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'r Prif Swyddog Pobl.

Mae'r polisi tâl yn nodi na ddylai cyflog sylfaenol y Prif Weithredwr fod yn fwy na 10 gwaith canolbwynt cyflog sylfaenol gweithiwr llawn amser ar radd 6/7. Cytunir ar gyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Chyflogau.

Caiff ein polisi tâl ei fonitro gan ein Bwrdd Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth. Mae'r Bwrdd yn adrodd i'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Lle bo angen, caiff ei archwilio hefyd yn unol â'r cynllun dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Chyflogau, a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Ein bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn Ebrill 2020 oedd 5.06%. Mae hynny'n agos at ein targed 2022 o 4.90%, sy'n anelu at haneru'r 9.80% a gofnodwyd yn 2017.

Fel rhan o'n cynllun gweithlu strategol, gwnaethom y penderfyniad i ddod â'n gwasanaethau recriwtio a datgelu yn fewnol. Mae hynny'n golygu y gallwn fod yn fwy hyblyg a denu pobl dalentog yn fwy effeithlon.

## Effaith barhaus coronafeirws

Mae'r coronafeirws wedi herio'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Mae hefyd wedi dod â chyfleoedd newydd. Mae ein staff wedi dangos bod gweithio ystwyth, hyblyg, o bell yn bosib. Mae'r pandemig hefyd wedi tanlinellu sut mae profiad pawb o weithio gartref yn wahanol. Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio ac wrth i swyddfeydd ail-agor, rydyn ni am roi mwy o ddewis a chyfle i staff, tra'n rhedeg Gweithredu dros Blant yn llwyddiannus.

Efallai y bydd cadw pellter cymdeithasol yn parhau tan y flwyddyn nesaf. Bydd hynny'n cael effaith ar ffyrdd o weithio, wrth i ni geisio cynnig mwy o wasanaethau yn ddigidol. Serch hynny, nid yw'r gwasanaethau hyn yn disodli gwaith gofal cymdeithasol wyneb yn wyneb hanfodol mewn cartrefi plant.

Gwaethygodd y pandemig ein sefyllfa ariannol heriol hefyd. Golygai hynny bod yn rhaid i ni fynd drwy raglen newid sefydliadol, Diogelu ein Dyfodol (mwy o wybodaeth ar dudalen 46).

## Technoleg

Dydy ein dibyniaeth ar dechnoleg erioed wedi bod yn bwysicach. Chwaraeodd ran hanfodol yn ein hymateb i'r pandemig.

Y llynedd, fel rhan o'n strategaeth dechnoleg, newidiwyd ein holl hen galedwedd. Fe wnaethom hefyd symud at fwrdd gwaith rhithiol newydd. Fe wnaeth hyn ein galluogi i ymateb yn gyflym i sefyllfa a oedd yn newid drwy'r amser. O fewn ychydig ddyddiau i'r cyfnod clo cyntaf, roedd yn bosib gweithio o bell ar draws y sefydliad. Roeddem hefyd yn gallu symud y broses o gyflenwi gwasanaethau ar-lein.

Darparodd ein timau cymorth arweiniad i staff wrth iddyn nhw addasu i ffyrdd newydd o weithio. Fe wnaethon ni hyfforddi 2,400 o staff i weithio'n effeithiol gartref drwy gynnig cyngor ar ddefnyddio Microsoft Teams, a chefnogi partneriaid, rhieni a phobl ifanc. Gwnaethom ddefnyddio offer i olrhain incwm a gwariant y Gronfa Argyfwng Coronafeirws a chefnogwyd y symudiad at ddigwyddiadau codi arian rhithiol fel Boycott your Bed (mwy o wybodaeth ar dudalen 30).

Gwnaethom hefyd ddatblygu strategaeth dechnoleg a thrawsnewid digidol gynhwysfawr newydd. Caiff ei gweithredu mewn dwy ran yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd systemau newydd yn gwneud ein gallu gweithrediadau, data a dadansoddeg yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Bydd mwy o awtomeiddio hefyd yn ein helpu i leihau costau a gwella ein harferion seiberddiogelwch a diogelu data.

# Edrych i'r dyfodol

**Bydd effeithiau'r pandemig i'w teimlo am beth amser. Ond mae'r camau rydyn ni wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a achoswyd gan yr argyfwng wedi ein rhoi mewn sefyllfa gref.**

Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i fuddsoddi mewn cartrefi preswyl i blant yn 2021/22. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn technoleg er budd y bobl rydyn ni'n eu cefnogi, ac i helpu staff a'n sefydliad i weithio'n effeithlon.

Bydd ein Pwyllgor Gwasanaethau Plant newydd yn sicrhau ein bod yn gwella effaith a chanlyniadau i blant a phobl ifanc.

## Ein hamcanion ar gyfer 2021/22

1. Gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel a hapus.
2. Cynyddu'r gefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith a dylanwadu ar newid i blant.
3. Datblygu sefydliad cynaliadwy, effeithiol a chynhwysol.

## 1. Gwneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel a hapus

Byddwn yn gwneud hyn mewn tri maes allweddol:

**Dechrau gorau mewn bywyd**

Drwy sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth gywir ym mlynyddoedd cynnar eu bywydau - drwy ein meithrinfeydd, canolfannau plant, hybiau teuluol a Parent Talk. Bydd ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn rhoi'r dechrau gorau posib i blant ifanc.

**Cartref diogel a chariadus**

Drwy gefnogi ac ymyrryd yn gynnar i helpu rhieni a gofalwyr, a gweithio i gadw teuluoedd gyda'i gilydd, byddwn yn cynyddu'r buddsoddiad i ddarparu cartrefi diogel a chariadus i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Byddwn hefyd yn dod o hyd i gartrefi maeth a mabwysiadu diogel i blant a phobl ifanc sydd ddim yn gallu byw gyda'u teuluoedd biolegol.

**Iechyd meddwl da a chyfle i ffynnu**

Drwy gael sgyrsiau positif am iechyd meddwl a lles emosiynol a rhoi'r deunydd i blant a phobl ifanc ddatblygu gwytnwch yn dilyn y pandemig. Byddwn hefyd yn cefnogi gofalwyr ifanc fel eu bod yn cael plentyndod hapus, ac yn helpu pobl ifanc i ddod o hyd i waith.

## 2. Cynyddu'r gefnogaeth fel y gallwn barhau i ariannu ein gwaith a dylanwadu ar newid i blant

Byddwn yn ysbrydoli hyd yn oed mwy o bobl i gefnogi ein gwaith dros blant, pobl ifanc a theuluoedd. Byddwn yn datblygu ffyrdd arloesol o ddenu diddordeb cefnogwyr ar-lein ac mewn bywyd go iawn. Byddwn yn ymgyrchu dros newid parhaol i blant drwy siarad â'r llywodraeth am yr heriau sy'n wynebu plant, gan gynnwys y rhai a achoswyd gan y pandemig. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i weithredu ac i sicrhau bod plant yn uchel ar yr agenda wleidyddol. A byddwn yn cynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc rannu eu barn ar bethau sy'n effeithio arnyn nhw, gan roi llais iddyn nhw.

## 3. Datblygu sefydliad sy'n gynaliadwy, effeithiol a chynhwysol

Byddwn yn parhau i weithio ar siapio'r sefydliad i'r dyfodol. Mae'n cynnwys cynlluniau strategol i ateb y galw cynyddol am ein gwasanaethau hanfodol. Bwriadwn fuddsoddi'n sylweddol mewn technoleg ac offer digidol i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau i blant a theuluoedd, a chymorth i staff. I gyflawni ein nodau, byddwn yn defnyddio perthnasoedd a phartneriaethau, a chydweithio â sefydliadau eraill sy'n rhannu ein gweledigaeth ar gyfer plant. Byddwn yn cyflawni ein cynllun gweithlu strategol fel bod staff yn cael yr hyn sydd ei angen a'r gefnogaeth. Byddwn yn sicrhau bod ein gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod ac yn mwynhau'r hyn maen nhw'n ei wneud yn fawr. A byddwn yn cyflawni ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys y cynllun gwrth-hiliaeth, fel bod pawb yn teimlo'r croeso yn Gweithredu dros Blant.

# Llywodraethu

**Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am lywodraethu, goruchwylio ein perfformiad a darparu cyfeiriad strategol.**

O dan arweiniad ein Cadeirydd, Sarika Patel, mae ein hymddiriedolwyr a'n Prif Swyddog Gweithredol yn adolygu'n rheolaidd sut rydyn ni'n gweithredu er mwyn i ni gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y ffordd orau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i arferion da a'r safonau llywodraethu uchaf. Rydyn ni'n monitro ein ffyrdd o weithio ochr yn ochr â phob un o saith egwyddor y Cod Llywodraethu Elusennau. Diweddarwyd y Cod ym mis Rhagfyr 2020 i gynnwys pwyslais ar uniondeb (gweler tudalen 40) a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gweler tudalen 34).

Mae ein fframwaith llywodraethu yn cefnogi ein hamcanion strategol ac yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein nodau fel sefydliad. Cawn ein llywio gan ein pwrpas elusennol.

## Ein pwrpas elusennol


Nodir ein pwrpas yn ein herthyglau cymdeithasu (a elwir hefyd yn wrthrychau elusennol), sef:

Hyrwyddo magwraeth a gofal plant a phobl ifanc mewn angen, o bob cefndir, diwylliant a chred, neu ddim yn benodol, drwy:

- Hyrwyddo eu hiechyd.
- Hyrwyddo gwell gofal a'u diogelu.
- Hyrwyddo eu haddysg a'u sefydlu mewn bywyd.
- Rhoi cymorth iddyn nhw, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Rydyn ni'n fodlon bod ein gwasanaethau yn adlewyrchu ein pwrpas elusennol a'r gofyniad budd cyhoeddus, fel y nodir yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011.

## Fframwaith llywodraethu




### Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cynnwys naw ymddiriedolwr. Maen nhw'n cael eu rhestru ar dudalen 83. Penodir pob ymddiriedolwr ar sail ei sgiliau a'i brofiad, sy'n ein helpu i gyflawni ein hamcanion strategol. Mae'r Bwrdd yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn ac yn cynnal cyfarfodydd ad-hoc achlysurol lle bo angen.

Rydyn ni'n ceisio denu ystod eang o ymgeiswyr ac yn gwahodd pobl ifanc o'n gwasanaethau i gymryd rhan wrth ddethol ymddiriedolwyr. Ar ôl eu penodi am dymor o dair blynedd, mae ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor yn mynd drwy raglen gynefino i sicrhau eu bod yn deall eu rolau o dan gyfraith elusennau a chyfraith cwmnïau.

Mae gennym gysylltiadau clos â'r Eglwys Fethodistaidd. Adlewyrchir y rhain yn ein cyfansoddiad, sy'n golygu y gall yr Eglwys enwebu ymddiriedolwr. Mae'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r angerdd a ddaw yn sgil ein hymddiriedolwr Methodistaidd yn bwysig dros ben.

Gwnaed nifer o newidiadau i'r Bwrdd yn arwain at 1 Ebrill 2021. Gadawodd pedwar ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn ariannol a chafodd pum ymddiriedolwr newydd eu recriwtio. Mae'r Bwrdd bellach yn cynnwys naw ymddiriedolwr, y mae gan bob un ohonyn nhw brofiad ac arbenigedd sylweddol. Mae recriwtio pellach ar y gweill i wella cydbwysedd sgiliau a gwybodaeth y Bwrdd. Rydyn ni wastad yn ceisio adlewyrchu amrywiaeth wrth recriwtio ymddiriedolwyr.

Mae ymddiriedolwyr yn ymweld â gwasanaethau'n aml i gael dealltwriaeth o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Cafodd mynediad i wasanaethau eu cyfyngu yn ystod y pandemig, ond roedd rhai ymweliadau rhithiol yn bosib.

Mae pob un o'n hymddiriedolwyr yn rhoi o'u hamser yn wirfoddol ac yn derbyn dim gwobrwyon na buddion gan Gweithredu dros Blant. Maen nhw'n cymryd rhan oherwydd eu bod nhw'n credu yn yr hyn a wnawn ac eisiau gwneud gwahaniaeth go iawn. Mae unrhyw gostau sy'n cael eu hawlio gan yr ymddiriedolwyr wedi'u nodi yn ein datganiadau ariannol. Y ffigur presenoldeb cyfartalog ar gyfer ein hymddiriedolwyr eleni oedd 98%. Mae hyn i fyny o 83% y llynedd.

**Pwyllgorau'r bwrdd**

Mae gan y Bwrdd bwyllgorau sefydlog sy'n adrodd ar faterion penodol. Mae pob pwyllgor wedi cytuno ar gylch gorchwyl ac yn cynnwys aelodau cyfetholedig arbenigol, yn ogystal ag ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r gwaith o redeg Gweithredu dros Blant o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Mae'r Bwrdd hefyd yn dirprwyo rhai meysydd o'i waith i is-bwyllgorau.

***Pwyllgor Archwilio a Risg***

Yn sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau cyfrifyddu statudol a bod gennym systemau effeithiol o ran rheolaeth fewnol, swyddogaeth archwilio a rheoli risg.

***Cyllid***

Goruchwylio ein cyllid a chynnal hyfywedd byr dymor a hirdymor Gweithredu dros Blant. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynghori'r Bwrdd ar strategaeth ariannol briodol. Wrth oruchwylio buddsoddiadau, caiff ei lywio gan is-bwyllgor buddsoddi.

***Llywodraethu, Pobl a Chyflogau***

Yn cefnogi'r broses o redeg y sefydliad yn effeithiol, gan sicrhau safonau rhagoriaeth a chymryd rôl arweiniol ar bolisi pobl a chyflogau.

***Pwyllgor Gwasanaethau Plant***

Wedi'i sefydlu ym mis Ionawr 2021 i oruchwylio a datblygu ansawdd, cyrhaeddiad a pherfformiad gwasanaethau plant. Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

***Y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol***

Sefydlwyd y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol y llynedd yn lle Pwyllgorau'r Cenhedloedd. Eu rôl yw arwain yr hyn a wnawn ym mhob cenedl a chynnig cyngor i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Maen nhw hefyd yn ein helpu i ddatblygu cysylltiadau dwfn a hirhoedlog ym mhob un o'r gwledydd rydyn ni'n gweithio ynddyn nhw.

**Sut rydyn ni'n trefnu'n gwaith**

Mae gennym bedair cyfarwyddiaeth, pob un wedi'i harwain gan aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol:

- Gwasanaethau Plant.
- Codi Arian, Cyfathrebu a Pholisi.
- Pobl.
- Cyd-wasanaethau Corfforaethol.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cydweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gefnogi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, ac i gyflawni ein hamcanion.

**Effeithiolrwydd y Bwrdd**

Mae'r Bwrdd yn adolygu ei berfformiad ei hun - a'r Cadeirydd yn rheolaidd. Ym mis Medi 2020, cynhaliwyd gwerthusiad y Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys: asesiad o rôl a chyfansoddiad y Bwrdd; ein strategaeth; rheoli perfformiad; rheoli'r busnes; talent ac olyniaeth; buddsoddiadau; ymgysylltu â rhanddeiliaid; pwyllgorau; risg; ymddygiad y Bwrdd; diwylliant; ac amrywiaeth a chynhwysiant.

**Amrywiaeth**

Mae'r Bwrdd o'r farn bod cydbwysedd o brofiad, sgiliau, gwybodaeth a chefndiroedd yn cynnig amrywiaeth o wahanol safbwyntiau ac yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau. Bob blwyddyn, mae penodiadau ymddiriedolwyr newydd yn cael eu gwerthuso ochr yn ochr â'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd ar y Bwrdd ar y pryd. Mae'r term 'amrywiaeth' yn cynnwys naw nodwedd warchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â chefndiroedd gwahanol, profiadau bywyd, llwybrau gyrfa ac amrywiaeth barn.

Mae Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Chyflogau'r Bwrdd yn rhoi sylw penodol i amrywiaeth. Mae aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau hyfforddiant amrywiaeth a chytunodd y Bwrdd ar ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Tachwedd 2020. Mae hyn bellach wedi'i gyflwyno ar draws y sefydliad. Ystyriwyd amrywiaeth hefyd fel rhan o broses werthuso flynyddol y Bwrdd ym mis Medi 2020. Ac mae'r Bwrdd wedi penodi Hyrwyddwr o blith yr Ymddiriedolwyr ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Rydyn ni'n gweithio'n galed i greu diwylliant sy'n wirioneddol gynhwysol. Mae ein strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn mynd i'r afael ag argymhellion y Cod ac yn cyfleu ein huchelgeisiau ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys dod yn sefydliad gwrth-hiliaeth. Ymgynghorwyd â'n rhwydweithiau staff ar ddatblygiad y strategaeth ac maen nhw'n chwarae rhan hanfodol wrth fonitro ei gweithrediad. Gallwch ddarllen mwy ar dudalen 34.

Rydyn ni'n dryloyw ac yn cyhoeddi cynnydd yr elusen, gan gynnwys dysgu ar y cyd, lle bo'n briodol.

# Dyletswyddau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas ag adran 172 o'r Ddeddf Cwmnïau

**Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'i ddyletswydd o dan Adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys gweithredu er budd rhanddeiliaid wrth hyrwyddo llwyddiant y cwmni.**

Mae'r ymddiriedolwyr, fel cyfarwyddwyr cwmni Gweithredu dros Blant, yn gweithredu yn unol â'r gofyniad hwn, ac wrth wneud hynny, yn rhoi sylw i:

- Goblygiadau tebygol unrhyw benderfyniad yn yr hirdymor.
- Buddiannau gweithwyr y cwmni.
- Yr angen i feithrin perthnasoedd busnes y cwmni â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill.
- Effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned a'r amgylchedd.
- Buddioldeb y cwmni i gynnal enw da am safonau uchel o ran ymddygiad busnes.
- Yr angen i weithredu'n deg rhwng aelodau'r cwmni.

Fel rhan o'u sesiwn gynefino, mae ymddiriedolwyr yn cael eu briffio ar eu dyletswyddau, sy'n cael eu cyflawni'n rhannol drwy'r strwythur llywodraethu y manylir arno ar dudalen 37. Mae'r rhain yn cynnwys cofleidio ein gweledigaeth o blentyndod diogel a hapus, a hyrwyddo ein gwerthoedd i fod yn angerddol, uchelgeisiol, cydweithredol a chynhwysol, sy'n sylfaen i bopeth a wnawn. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Thîm Arweinyddiaeth Gweithredol Gweithredu dros Blant i ddiogelu ein cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

## Cydweithio ag eraill

### Ymgysylltu â'n holl staff

Mae ymgysylltu â gweithwyr yn bwysig iawn yn Gweithredu dros Blant. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn cadw mewn cysylltiad â staff drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd, ein mewnrwyd, e-byst wythnosol a misol, a chyfarfodydd holl staff. Rydyn ni hefyd yn cynnal sioeau teithiol bob chwe mis sy'n rhoi cyfle i bobl ofyn cwestiynau ac i roi adborth (i gael mwy o wybodaeth am sut rydyn ni'n ymgysylltu â staff gweler tudalen 33).

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol hefyd yn briffio'r ymddiriedolwyr yn rheolaidd. Ymhlith y diweddariadau mae: dadansoddiad o'r cynllun gweithlu strategol; denu ymgeiswyr a datblygu talent; gwobrwyo a chydnabyddiaeth; llesiant ac ymgysylltiad; tâl staff; a'n strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae'r wybodaeth hon, sy'n cyrraedd y Bwrdd drwy adroddiadau mewn cyfarfodydd, yn rhoi trosolwg i'r ymddiriedolwyr o'n diwylliant a sut mae ymgysylltiad pobl yn effeithio ar berfformiad. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Chyflogau yn adolygu adborth o arolygon staff a gwirfoddolwyr - yn ogystal â phrosiectau eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd yn y gwaith, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant - i sicrhau bod unrhyw bryderon yn dod i sylw ymddiriedolwyr.

Mae Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn cyfathrebu â staff drwy ddiweddariadau e-bost a digwyddiadau Cwrdd â'r Cadeirydd. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ac i gynnal morâl drwy'r pandemig. Cynhaliwyd galwadau rhithiol rheolaidd i staff a sesiynau holi ac ateb, symudwyd cyfarfodydd staff a sioeau teithiol ar-lein, rhannwyd straeon o newyddion da, hyrwyddwyd ein hyb llesiant, a chafodd pobl eu hannog i gymryd gwyliau blynyddol.

### Ymgysylltu â gwirfoddolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod y gwerth enfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei gynnig. Cefnogodd ein 2,875 o wirfoddolwyr dros 200 o brosiectau, gwasanaethau ac adrannau y llynedd. Mae'r ymddiriedolwyr yn ymgysylltu â gwirfoddolwyr drwy ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol. Mae hyn yn rhoi cipolwg iddyn nhw ar y gwaith maen nhw'n ei wneud, ein gwasanaethau ar draws y cenhedloedd, a'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud. Mae gwirfoddolwyr yn derbyn cylchlythyrau rheolaidd, yn dod i'n sioeau teithiol bob chwe mis ac yn cael eu gwahodd i ymuno â'n grwpiau rhwydwaith (darllenwch fwy am wirfoddoli ar dudalen 33).

### Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill

Mae'r ymddiriedolwyr yn cydnabod pwysigrwydd rhanddeiliaid mewnol (staff a gwirfoddolwyr) ac allanol (plant a phobl ifanc, rhieni, ein Noddwr, y cyhoedd, rheoleiddwyr, partneriaid masnachol, y cyfryngau, awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth, elusennau, cymdeithasau plant a chyflenwyr). Gallwch ddarllen am y gwaith rydyn ni'n ei wneud gyda phlant a phobl ifanc o dudalen 19 ymlaen.

Mae ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i adeiladu perthnasoedd cryf gyda'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi. Maen nhw'n ymwybodol mai dim ond os ydym yn ymgysylltu'n effeithiol, yn cydweithredu ac yn rhoi eu barn wrth wraidd ein gwasanaethau y gallwn fod yn achubiaeth hanfodol. Mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli ar ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol ac yn ein helpu i recriwtio ymddiriedolwyr ac uwch staff.

Disgwylir i'n holl bartneriaid gydymffurfio â gofynion unrhyw safonau proffesiynol neu gyrff masnach, yn ogystal â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau ymarfer cymwys sy'n ymwneud â diogelu, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd. Mae ein Polisi Derbyn a Gwrthod Rhoddion yn sicrhau nad ydym yn cyfaddawdu ar ein cenhadaeth, gwerthoedd a'n dibenion elusennol wrth godi arian (am fwy ynglŷn â'n cydymffurfiaeth elusennol, gweler tudalen 32). Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd hefyd yn cael eu hyrwyddo i bartneriaid a darparwyr newydd i sicrhau eu bod yn deall yr hyn rydyn ni'n ei arddel fel elusen.

Mae ymddiriedolwyr yn derbyn diweddariadau masnachol, gweithredol, cyfathrebu, codi arian, cyfryngau a pholisi yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth iddyn nhw o'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael a barn ein rhanddeiliaid. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn adolygu, yn eu cyfarfodydd bwrdd bob yn ail fis, berfformiad ariannol a gweithredol. Maen nhw'n gyfrifol am sefydlu a chynnal system effeithiol o reolaethau mewnol i ganfod, atal a rheoli risgiau. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am adolygu cydymffurfiaeth cyfreithiol a rheoliadol. I gael mwy o wybodaeth am ein Fframwaith Rheoli Risg, a sut rydyn ni'n nodi ac yn rheoli risgiau yn ein holl weithgareddau, ewch i dudalen 42.

**Uniondeb**

Mae ein fframwaith moesegol yn ein helpu i reoli unrhyw faterion sy'n ymwneud â rhoddion, yn ein gwaith gyda chyflenwyr neu bartneriaid, neu wrth benodi ymddiriedolwyr, staff a llysgenhadon.

I wneud yn siŵr ein bod yn bodloni safonau cyfreithiol a safonau'r sector, nid ydym yn gweithio gydag unrhyw sefydliad:

- Sy'n gwrthdaro â'n gwerthoedd a'n hymddygiadau.
- Sy'n gwrthdaro â'n hegwyddorion a'n polisïau.
- Sy'n tanseilio ein gwasanaethau i blant.
- Sy'n tanseilio ein hymrwymiad at ddiogelu.
- Sy'n tanseilio ein hymrwymiad at amrywiaeth.
- Sy'n gweithredu mewn marchnadoedd lle rydyn ni'n gwybod sy'n niweidio plant a theuluoedd.
- Sy'n trin yr amgylchedd mewn ffordd anghynaliadwy.
- Sy'n gwrthdaro â'r egwyddorion moesegol a ddatblygwyd gan NCVO ac egwyddorion y Cod Llywodraethu Elusennol.
- Y mae eu gweithredoedd yn mynd yn groes i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Lle bo darpar bartneriaid yn gweithio mewn gwledydd sydd heb danysgrifio i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rydyn ni'n gofyn iddyn nhw anrhydeddu'r datganiadau uchod yn eu holl waith.

Aethom i'r afael â phwyslais cynyddol y Cod ar 'uniondeb' y llynedd. Parhaodd ein hymddiriedolwyr i:

- Ddeall cyfrifoldebau diogelu.
- Dilyn gweithdrefnau priodol sydd wedi'u gwreiddio o fewn ein fframwaith a hyfforddiant rheoli risg.
- Sicrhau bod pawb yn gwybod sut i godi pryderon.
- Mynd i'r afael ag anghydbwysedd pŵer.

## Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Mae gan Gweithredu dros Blant bolisi dim goddefgarwch at gaethwasiaeth fodern.

Rydyn ni wedi ymrwymo i:

- Ymddwyn yn foesegol a chydag uniondeb yn ein holl drafodaethau a pherthnasoedd busnes.
- Gweithredu a gorfodi systemau a rheolaethau effeithiol, er mwyn sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd unrhyw le yn ein busnes nac yn unrhyw un o'n cadwyni cyflenwi.
- Bod yn dryloyw ym mhopeth a wnawn ac yn ein dull o fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn ein cadwyni cyflenwi sy'n gyson â'n rhwymedigaethau datgelu o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Rydyn ni'n cynnwys gwaharddiadau penodol yn erbyn defnyddio llafur dan orfod, gorfodol neu fasnachu, neu unrhyw un sy'n cael ei ddal mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth, boed yn oedolion neu'n blant, fel rhan o'r diwydrwydd dyladwy yn ein proses gytundebu.

Disgwyliwn i'n cyflenwyr ddal y busnesau maen nhw'n gweithio gyda nhw i'r un safonau uchel. I gyflawni hynny y llynedd, gwnaethom:

- Gydymffurfio â deddfwriaeth atal caethwasiaeth ac atal masnachu pobl drwy weithredu prosesau, mecanweithiau adrodd ac atal.
- Cynnwys cymalau templed sy'n mynd i'r afael â'r broblem er mwyn osgoi torri'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern ymhlith ein cyflenwyr. Mae'r rhain wedi'u nodi'n glir yn ein dogfennau caffael, gan gyfeirio at y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn yr Holiadur Cyn Gymhwyso (PQQ).
- Cynnwys dulliau atal caethwasiaeth fodern yn ein Fframwaith Diogelu a pholisïau'r sefydliad. Rhoddwyd deunyddiau hyfforddi i staff yn egluro caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

## Riportio digwyddiadau difrifol

Mae gennym fesurau ar waith i fodloni gofynion riportio'r Comisiwn Elusennau ar ddigwyddiadau difrifol. Mae Gweithredu dros Blant yn riportio unrhyw ddigwyddiadau difrifol i'r corff. Caiff hynny ei wneud drwy'r Grŵp Riportio Digwyddiadau Difrifol sy'n cwrdd pedair gwaith y flwyddyn. Mae'r grŵp yn rhannu unrhyw broblemau posib gyda'r Bwrdd, sy'n gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid hysbysu'r Comisiwn Elusennau, drwy ddefnyddio'r weithdrefn adrodd swmp. Mae gennym hefyd weithdrefn gyflym ar waith pe bai angen i ni roi gwybod am ddigwyddiad difrifol.



## Edrych ar ôl ein hamgylchedd

Mae gennym gyfrifoldeb i warchod yr amgylchedd i blant a phobl ifanc y presennol a'r dyfodol.

Gwyddom fod materion amgylcheddol o bryder mawr i blant a phobl ifanc. Fel elusen blant, mae angen i ni wneud yn siŵr bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac yn cael eu cymryd o ddifri.

Eleni, lansiwyd Rhwydwaith Gweithredu Gwyrdd newydd. Ar hyn o bryd mae gan y rhwydwaith 75 aelod o bob rhan o'r sefydliad. Mae wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth a gweithredu ar faterion gwyrdd unigol a systemig ar draws Gweithredu dros Blant. Mae croeso i bawb ymuno â'r cyfarfodydd rheolaidd ac i drafod problemau ac atebion i faterion amgylcheddol gartref ac yn y gwaith - ac yna dod o hyd i ffyrdd pendant o fynd i'r afael â nhw.

Rydyn ni'n sicrhau bod y sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw hefyd yn lleihau difrod a straen ar ein hamgylchedd ac rydyn ni'n parhau i weithio tuag at achrediad caffael cynaliadwy. Ein nod yw bodloni safonau Caffael Cynaliadwy ISO20400:2017 erbyn diwedd 2021. Mae ein Polisi Cynaliadwyedd yn nodi sut rydyn ni'n lleihau effaith amgylcheddol ein gweithgareddau i'r eithaf. Mae hyn yn cynnwys:

- Cydymffurfio â'r holl reoliadau a gofynion cyfreithiol cymwys.
- Alinio ein systemau â safonau rheoli amgylcheddol.
- Mabwysiadu egwyddorion 'lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu' yn ein holl waith.
- Gwarchod adnoddau naturiol drwy ddefnyddio dulliau cost-effeithiol i reoli ynni, dŵr ac e-wastraff.
- Lleihau faint o wastraff rydyn ni'n ei gynhyrchu.
- Lleihau faint o wastraff na ellir ei ailgylchu rydyn ni'n ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Gweithio gyda chyflenwyr i leihau unrhyw effeithiau a risgiau negyddol ar yr amgylchedd sy'n gysylltiedig â'u cynnyrch a'u gwasanaethau.
- Deall eu rôl wrth warchod yr amgylchedd.

## Adrodd ar ynni a charbon (SECR)

Rydyn ni ar dariff gwyrdd 100% ar gyfer ein trydan. Bwriadwn symud i dariff nwy gwyrdd 100% cyn gynted â phosibl.

| Math o ynni | Defnydd | Allyriadau |
|---|---|---|
| Nwy | 8,200,863 KWh | 1,507.89 tunnell CO2e |
| Trydan | 2,133,200 KWh | 540.13 tunnell CO2e |
| Fflyd | 42,497.85 litr | 106.33 tunnell CO2e |
| **Cyfanswm Allyriadau** | | **2,154.35 tunnell CO2e** |
| **Gwrthbwyso allyriadau drwy ailgylchu gwastraff** | | **-408.70 CO2e** |
| **Allyriadau net** | | **1,745.65 CO2e** |

(Cymhareb dwyster: CO2e kg/trosiant £miliwn = 25,276).
Mae'r ffigurau uchod yn cwmpasu'r flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021.


# Rheoli risg mewn cyfnodau heriol

**Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn diogelu plant, pobl ifanc a theuluoedd, yn gynaliadwy yn ariannol ac yn rheoli'r holl risgiau yn effeithiol.**

Mae ein hagwedd at reoli risg yn cael ei lywio gan arferion gorau'r Sefydliad Rheoli Risg (IRM). Rydyn ni'n adolygu ac yn gwella ein gallu i atal, nodi, asesu a lliniaru risgiau sy'n dod i'r amlwg ar draws y sefydliad yn rheolaidd. Rydyn ni hefyd yn cadw at safonau rheoleiddio, fel y rheini a nodir yn y canllawiau Elusennau a Rheoli Risg (CC26).

Mae ein fframwaith rheoli risg yn seiliedig ar strwythur llywodraethu rhesymegol, fframwaith rheolaeth fewnol drylwyr, staff profiadol a defnyddio arbenigwyr pwnc allanol.

- Mae cymryd agwedd gymesur tuag at risg strategol yn golygu y gallwn roi'r gefnogaeth orau bosib i blant a phobl ifanc. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, ac is-bwyllgorau'r Bwrdd yn cael eu harwain gan ein strategaeth rheoli risg, a adolygwyd ddiwethaf yn 2019.
- Mae pawb yn Gweithredu dros Blant yn cael eu hystyried fel 'rheolwyr risg'. Rydyn ni'n ymwybodol bod staff, contractwyr a darparwyr gwasanaethau allanol yn hanfodol i reoli risgiau menter yn ddiwyd.
- Mae ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol a'n Grŵp o Gyfarwyddwyr yn cwrdd ac yn trafod risgiau sy'n dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd. Mae timau rhaglenni a phrosiectau'n cael eu creu ar gyfer darnau sylweddol o waith, fel cyflawni ein strategaeth llywodraethu gwybodaeth.
- Mae ein gweithdrefnau chwythu'r chwiban yn sicrhau ymchwiliadau a dulliau adrodd priodol ar unrhyw ddigwyddiadau difrifol. Mae ein Grŵp Riportio Digwyddiadau Difrifol yn ystyried pob digwyddiad sy'n peri pryder ac yn gwneud argymhellion priodol i'r Bwrdd.




Rydyn ni'n parhau i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol i nodi, asesu a pharatoi ar gyfer unrhyw beryglon a allai ymyrryd â'n gweithrediadau a'n hamcanion.

Mae effeithiau economaidd, gweithredol a chymdeithasol y pandemig – a Brexit – wedi parhau i brofi gwytnwch ein hadnoddau ariannol a dynol. Mae ein dull o reoli risg yn parhau i gael ei adolygu'n gyson fel y gallwn gymryd camau ymatebol ac ataliol cyflym lle bo angen.

## Atebolrwydd clir

Mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol am sefydlu a chynnal system effeithiol o reolaethau mewnol. Er na ellir gwarantu sicrwydd llwyr, nod ein fframwaith rheolaeth fewnol yw darparu'r effeithiolrwydd mwyaf posib wrth ganfod, atal a rheoli risgiau menter.

Mae'r Bwrdd yn ystyried y prif risgiau sy'n dod i'r amlwg ym mhob un o'i chwe chyfarfod blynyddol.

- Mae ein fframwaith sicrwydd risg yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n adolygu risgiau yn ei gyfarfodydd chwarterol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn archwilio'r gofrestr risg o bryd i'w gilydd, sy'n cael ei chynnal gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.
- Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol blynyddol sy'n seiliedig ar risg ar effeithiolrwydd ein systemau rheolaeth fewnol. Mae hyn yn cael ei guradu gan ein harchwilwyr mewnol annibynnol. Yn seiliedig ar ei adolygiad o adroddiadau rheolaidd, mae'r Pwyllgor yn rhoi crynodeb blynyddol o'i weithgareddau i'r Bwrdd, ynghyd â'i farn ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a phrosesau rheoli risg.
- Mae'r archwilwyr mewnol hefyd yn rhoi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar weithgaredd archwilio mewnol. Maen nhw'n rhoi barn wrthrychol ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol y sefydliad.

Mae gwaith y Pwyllgor yn cael ei ategu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Plant, is-bwyllgor y Bwrdd sy'n cwrdd yn chwarterol. Mae'n goruchwylio diogelu, iechyd a diogelwch, perfformiad gweithredol ac ansawdd ein gwasanaethau plant a gwasanaethau gofal plant.

## Risgiau corfforaethol

Caiff risgiau corfforaethol eu goruchwylio gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. Gyda'i gilydd, maen nhw'n nodi rhwystrau posibl i gyflawni ein hamcanion strategol.

- Caiff risgiau gweithredol o ddydd i ddydd eu rheoli gan arbenigwyr ym mhob maes drwy ddefnyddio cofrestrau risg lleol. Mae materion allweddol yn cael eu huwchraddio i'w hadolygu gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol.
- Rydyn ni'n cymryd mesurau gweithredol i liniaru'r risgiau mwyaf sylweddol i'n hamcanion strategol ac mae gennym gynllun adfer trychineb sylweddol ar waith.
- Rydyn ni'n profi ein trefniadau parhad busnes o bryd i'w gilydd.
- Nodir y prif risgiau sy'n weddill i'n hamcanion strategol isod.

## Coronafeirws

Mae'r pandemig coronafeirws wedi bygwth iechyd a lles staff a gwirfoddolwyr, yn ogystal â'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi. Roedd darparu gwasanaethau yn llawer anoddach a chymhleth y llynedd. Bu'n rhaid i ni hefyd asesu'r risgiau a'r camau roedd angen i ni eu cymryd yn gyflym. Ymhlith y risgiau strategol allweddol yr oedd angen rhoi sylw iddyn nhw ar unwaith oedd y galw cynyddol am ein gwasanaethau, yr effaith ar ein hincwm, ffrydiau costau a llif arian, a'r straen corfforol a meddyliol ar ein staff.

Drwy gyfathrebu rheolaidd rhwng y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, fe wnaethom ymateb yn gyflym i'r sialensiau hyn. Lansiwyd Cronfa Argyfwng Coronafeirws i ddiwallu anghenion uniongyrchol teuluoedd. Fe wnaethom symud nifer o'n digwyddiadau a'n gweithgareddau codi arian ar-lein. Aethom i'r afael ag effaith y cyfnod clo ar ofal plant. Ac fe wnaethom ddefnyddio'r cynllun ffyrlo lle bo'n briodol.

Aeth ein rhaglen newid sefydliadol, Diogelu ein Dyfodol, i'r afael â'n strwythur costau a'n cynaliadwyedd ariannol. Bydd y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn parhau i fonitro ein sefyllfa fel y gallwn ymateb i effeithiau tymor hwy ar ôl y pandemig, newidiadau strwythurol a risgiau sy'n dod i'r amlwg.

Gwnaethom reoli risgiau gweithredol drwy ein system ymateb i reoli digwyddiadau. Gwnaethom leihau'r tarfu ar wasanaethau drwy ddefnyddio ein Polisi Parhad Busnes, gan sicrhau bod gan staff y PPE a'r canllawiau iawn a datblygwyd gwasanaethau digidol i sicrhau parhad a chyrhaeddiad. Fe wnaeth ein seilwaith technoleg ein helpu i symud yn gyflym tuag at weithio o bell. Drwy gyfathrebu'n rheolaidd â staff a rheolwyr, gwnaethpwyd yn siŵr eu bod yn cael arweiniad a chefnogaeth gyfoes drwy gydol y flwyddyn.

Rhoddwyd pwyslais mawr ar lesiant staff drwy'r pandemig (gallwch ddarllen mwy am hyn ar dudalen 33). Fe wnaethom ddarparu adnoddau a chefnogaeth, yn ogystal â rhwydweithiau, gweminarau a sesiynau briffio rheolaidd, i helpu pobl i gadw mewn cysylltiad. Rydyn ni'n ymwybodol bod angen i'r gefnogaeth hon barhau hyd yn oed wrth i ni ddychwelyd at ffyrdd mwy arferol o weithio.

## Risgiau diogelu

Diogelwch plant, pobl ifanc a theuluoedd yw ein blaenoriaeth. Mae ein polisïau a'n gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr wedi'u cynllunio i liniaru unrhyw risgiau posib.

Ymdrechwn yn barhaus i wella ein harferion gwaith. Cefnogir yr ymdrechion hyn gan ein Tîm Diogelu. Mae rheolaethau llym a strwythurau goruchwylio ar waith o ran goruchwylio staff sy'n gweithio gyda phlant. Mae ein holl weithdrefnau diogelu wedi'u hadolygu a'u diwygio fel rhan o'r ymdrech barhaus i wella arferion.

Fe wnaethom barhau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cadw'n ddiogel drwy'r pandemig. Un o'r ffyrdd y gwnaethom hyn oedd drwy gynnal ein gweithgaredd archwilio i sicrhau bod staff sy'n gweithio gyda phlant yn cael eu goruchwylio'n effeithiol drwy gydol y flwyddyn.

Fe wnaethon adolygu ein safonau o ran recriwtio mwy diogel a chymerwyd camau i wella sut rydyn ni'n cofnodi manylion staff. Gweithiwyd hefyd gyda darparwr ein contractwyr eiddo i sicrhau eu bod i gyd yn ddarostyngedig i weithdrefnau recriwtio mwy diogel.

Cynhaliwyd sawl adolygiad mewnol i ddysgu o'r achlysuron pan aeth rhywbeth o'i le gyda'n gwaith gyda phlant a theuluoedd. Hysbyswyd ein hymddiriedolwyr o'r holl ddigwyddiadau difrifol ac ystyriwyd gwersi a chynllunio ar gyfer y dyfodol yn ein Grŵp Diogelu - sy'n cael ei arwain gan ein Prif Weithredwr ac sy'n cael ei fynychu gan ein hymddiriedolwr diogelu – a'n Pwyllgor Gwasanaethau Plant newydd.

## Brexit

Rydyn ni'n monitro effaith Brexit yn ofalus. Hyd yma, nid yw wedi cael effaith sylweddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau. Serch hynny, mae rhai o effeithiau'r pandemig a Brexit, gyda'i gilydd, yn effeithio ar symud nwyddau ar draws Prydain a Gogledd Iwerddon yn ogystal ag argaeledd a phris deunyddiau adeiladu. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau wrth i ddeddfwriaeth a chytundebau newydd gael eu sefydlu.

## Perfformiad a chynaliadwyedd ariannol

Gall pwysau sy'n cael ei ragweld neu bwysau annisgwyl ar ein ffrydiau incwm gael effaith negyddol ar ein gallu i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae ein dulliau presennol yn ein helpu i ganfod tueddiadau ariannol niweidiol yn gynnar, gan annog camau priodol lle bo'n bosib.

Gwnaethom fonitro effaith y pandemig ar ein tair prif ffrwd incwm yn ofalus. Parhaodd ein gwasanaethau plant ac incwm codi arian yn weddol wydn drwy gydol y flwyddyn. Serch hynny, mae incwm o'n gwasanaethau gofal plant wedi lleihau oherwydd cau meithrinfeydd a chlybiau y tu allan i oriau ysgol dros dro yn dilyn canllawiau'r llywodraeth.

Bydd y coronafeirws a'r pwysau disgwyliedig ar gyllid cyhoeddus yn cynyddu'r risg o ostyngiad sylweddol yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau plant. Gallai hyn, o bosib,



wanhau ein gallu i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd yn ogystal â chyflawni ein hamcanion strategol. Mae ein rhanddeiliaid allweddol, ein partneriaid a llywodraeth leol yn wynebu heriau tebyg, ac rydyn ni'n ymgyrchu gyda'n gilydd i dynnu sylw at fylchau yn y cyllid.

Rydyn ni wrthi'n rheoli risgiau ariannol esblygol o ran sefyllfa hylifedd ac ariannol y sefydliad, yn ogystal â'n cronfeydd wrth gefn, fel y nodir ar dudalen 49. Fe wnaethom weithredu cynllun trawsnewid i ail-lunio ein model gweithredu ac i sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol tymor canolig i'r hirdymor.

## Risgiau o ran gallu

Rydym yn falch o'n staff profiadol, angerddol ac ymroddedig. Mae ein polisïau yn pwysleisio pwysigrwydd cadw a denu pobl dalentog, er mwyn i ni fod yn gyflogwr delfrydol. Derbyniodd staff arfarniadau perfformiad gan fanteisio ar raglen gynhwysfawr o hyfforddiant. Fe wnaethom hefyd ddatblygu Cynllun Gweithlu Strategol i fynd â ni at 2022. Rydyn ni'n parhau i gael achrediad Buddsoddwyr mewn Pobl hefyd.

Gweithiodd ein staff yn ddiflino drwy'r pandemig coronafeirws, yn aml iawn mewn amodau heriol dros ben. Mae eu hiechyd, eu diogelwch a'u llesiant wedi bod wrth wraidd ein hagwedd at reoli risgiau.

## Risgiau diogelwch gwybodaeth

Mae technoleg ar waith i leihau risgiau diogelwch gwybodaeth rhag ymosodiadau seiber a'r ymgais i ddwyn data yn ogystal ag ymosodiadau gwrthod gwasanaeth (DoS).

Wrth i fwy o staff weithio o bell – a nifer o ymosodiadau diweddar ar y sector nid-er-elw – rydyn ni'n effro i'r risgiau cynyddol o droseddau seiber. Mae'r rhain yn cynnwys y rheini sy'n defnyddio technegau peirianneg gymdeithasol cyffredin fel gwe-rwydo, gwe-forfila a meddalwedd wystlo. Rydyn ni wedi buddsoddi yn ein diogelwch gwybodaeth i gryfhau ein gwytnwch.

Adnewyddwyd ein polisïau diogelu data, rhoddwyd platfform hyfforddi diogelwch seiber newydd ar waith i staff, sefydlwyd rhaglen o brofion hacio, a chwblhawyd y broses o ail-ardystio ein hachrediad Cyber Essentials Plus. Parhaodd y Tîm Diogelwch Gwybodaeth i weithio'n agos gyda diogelu data a llywodraethu gwybodaeth i adeiladu partneriaethau cryf gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Rydyn ni'n ymwybodol, mewn marchnadoedd ariannol cyfnewidiol, y gallai asedau sy'n cael eu dal gan Gynllun Pensiwn â Buddion wedi'u Diffinio y sefydliad brofi perfformiad buddsoddi negyddol. Gallai hyn arwain at ddiffyg sylweddol a allai fod yn anghynaliadwy rhwng rhwymedigaethau ac asedau.

Mewn cydweithrediad ag ymddiriedolwyr ein Cronfa Bensiwn, fe wnaethon ni weithredu cynllun yn 2009 i leihau'r diffyg hwn yn sylweddol dros gyfnod o 20 mlynedd. Ar 31 Mawrth 2021, rydyn ni wedi gwneud cynnydd da, y manylir arno ar dudalen 50. Mae strategaeth fuddsoddi'r cynllun hefyd wedi'i diwygio i bortffolio asedau sy'n is o ran risg i gyfyngu'r risg ariannol negyddol i Gweithredu dros Blant.

## Rheolaethau ariannol

Yn ystod y flwyddyn, aethom i'r afael â chanfyddiadau adroddiadau ein harchwilwyr allanol a mewnol. Bydd gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud, sy'n cynnwys buddsoddi yn ein systemau ariannol, i sicrhau ein bod yn gweithredu mewn amgylchedd rheolaeth ariannol gadarn.

## Iechyd a diogelwch

Mae iechyd a diogelwch yn elfen ganolog o'n dulliau rheoli risg a llywodraethu o fewn y sefydliad. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith yn sicrhau rheolaeth risg effeithiol, ac yn cadw staff, gwirfoddolwyr a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn ddiogel.



Mae'r risg o fethu â gweithredu yn unol â chanllawiau, deddfau a rheoliadau perthnasol, a allai achosi niwed, effeithio ar ein gwasanaethau ac a allai arwain at ganlyniadau rheoliadol neu gyfreithiol, yn cael ei liniaru gan ein Timau Iechyd a Diogelwch ac Eiddo arbenigol. Mae risg hefyd yn cael ei reoli drwy ein hyfforddiant, riportio digwyddiadau yn effeithiol, a thrwy hyrwyddo diwylliant diogelwch ar draws y sefydliad. Rydyn ni'n cefnogi ac yn herio rheolaethau iechyd a diogelwch drwy ein Pwyllgor Iechyd a Diogelwch mewnol, adolygiadau rheolaidd yn y Pwyllgor Archwilio a Risg, a thrwy adrodd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Yn ystod y pandemig, gweithiodd ein Timau Iechyd a Diogelwch a Diogelu gyda'i gilydd i roi arweiniad i'n rheolwyr a'n staff. Eu pwyslais oedd cynnal gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, gan sicrhau eu bod nhw - a'n staff - yn ddiogel ac yn iach.

Cryfhawyd ein trefniadau yn ystod y flwyddyn drwy Bolisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig, cyfres hyfforddi gynhwysfawr a system newydd o riportio digwyddiadau. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â Gwasanaeth Tân Hampshire i weithredu fel ein Prif Awdurdod Tân. Maen nhw bellach yn ein cynghori ar bob mater sy'n ymwneud â diogelwch tân.

# Materion ariannol

**Mae popeth a wnawn yn cefnogi ein cenhadaeth i amddiffyn a chefnogi plant agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys ein perfformiad ariannol hefyd. Mae sicrhau bod ein materion ariannol yn gadarn yn golygu y gallwn wneud mwy dros blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU – nawr ac yn y dyfodol.**

Roedd sicrhau bod Gweithredu dros Blant yn gynaliadwy yn ariannol yn ystyriaeth hanfodol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn ystod 2020/21. Roedd hynny'n golygu ymgymryd â rhaglen o drawsnewid ar draws y sefydliad, Diogelu ein Dyfodol.

## Diogelu ein Dyfodol

Fe wnaethom weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r heriau ariannol a gafodd eu gwaethygu gan yr argyfwng coronafeirws a chyllidebau tynnach awdurdodau lleol. Er mwyn dod yn sefydliad mwy effeithiol ac effeithlon, gwnaethom gynnal rhaglen drawsnewid Diogelu ein Dyfodol.

Bydd Diogelu ein Dyfodol yn helpu i ddiogelu ein dyfodol a'n diogelwch ariannol. Yn anffodus, serch hynny, roedd mynd drwy'r broses hon yn golygu colli nifer o staff.

Byddwn yn parhau i adolygu ein costau yn barhaus ac yn parhau i arfer rheolaethau ariannol tynn.

Bydd arloesedd yn bwysig dros ben wrth symud ymlaen. Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd newydd o godi arian i gefnogi'r hyn a wnawn. Y llynedd, dyna wnaethom ni, a helpodd i gynyddu'r incwm codi arian i £20.0 miliwn.

Effeithiwyd yn sylweddol ar ein gwasanaethau meithrin, sydd hefyd yn darparu gofal plant cofleidiol, rhaglenni gwyliau a gwasanaethau ieuenctid, gan gyfyngiadau a orfodwyd i reoli'r pandemig. Er mwyn addasu i'r amgylchedd newidiol, gwnaethom adolygu ein gweithrediadau, ac o ganlyniad caewyd rhai meithrinfeydd ac ailstrwythurwyd y rheolwyr.

Fe wnaethom barhau i ganolbwyntio ein gwariant ar wasanaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar fywydau plant, pobl ifanc a theuluoedd. Rydyn ni'n buddsoddi yn natblygiad gwasanaethau preswyl newydd. Rydyn ni'n buddsoddi hefyd yn ein Technoleg gan gynnwys systemau Cyllid ac AD newydd i sicrhau y gall staff a thimau ar draws y sefydliad weithio'n effeithiol.



Candice a Giselle yn eu cwtsh ar gyfer Boycott your Bed


## Incwm a gwariant

Cawsom ein llethu gan haelioni ein cefnogwyr y llynedd. Tyfodd incwm gwirfoddol o roddion a chymynroddion £1.2 miliwn (6%) i £20.0 miliwn. Cododd incwm gwirfoddol anghyfyngedig £2.9 miliwn (24%) i £14.6 miliwn diolch i deyrngarwch parhaus rhoddwyr rheolaidd, cefnogwyr hirdymor a chynnydd o £2.1 miliwn mewn incwm etifeddol. Fe wnaethon gynnig digwyddiadau rhithiol newydd yn gyflym hefyd, gan gynnwys Boycott your Bed, a gododd dros £350,000. A chododd ein Hapêl Santa Cudd dros £1.5 miliwn, i fyny o £600,000 yn 2019/20. Yn sgil yr ymateb anhygoel i'n apêl Argyfwng Coronafeirws - gan y cyhoedd a'n partneriaid corfforaethol – codwyd £950,000. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ddefnyddio'r dulliau cymorth a oedd ar gael gan y llywodraeth, gan gynnwys grantiau cynllun cadw swyddi'r llywodraeth gwerth £4.1 miliwn a grantiau'r Adran Addysg gwerth £1.2 miliwn.

Fel pob blwyddyn, buom yn edrych yn ofalus ar ein costau cymorth a'n gorbenion. Gwnaethom leihau costau mewn sawl maes drwy wario'n effeithlon ac annog arferion gwaith da. Roedd ein gweithgareddau yn ystod 2020/21 wedi ein helpu i sicrhau cyfanswm incwm sefydlog o £145.2 miliwn. Roedd incwm net ar gyfer y flwyddyn - cyn symudiadau prisio buddsoddiadau a phensiwn yn £5.8 miliwn.

Dangosir ein canlyniadau ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 yn ein Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Ceir crynodeb o'r ffigurau yn y tabl.

| | 2020/21 £m | 2019/20 £m |
|---|---|---|
| Incwm o roddion a chymynroddion | 20.0 | 18.7 |
| Incwm buddsoddi a gwerthu asedau sefydlog | 0.8 | 1.0 |
| Incwm o weithgareddau elusennol | 119.1 | 126.9 |
| Incwm arall | 5.3 | - |
| | **145.2** | **146.6** |
| Gwariant ar godi arian | (5.4) | (7.7) |
| Gwariant ar weithgareddau elusennol | (134.0) | (140.1) |
| **Cyfanswm gwariant** | **(139.4)** | **(147.8)** |
| **Enillion net /(colled) ar gyfer y flwyddyn** | **5.8** | **(1.2)** |
| Enillion / (colled) ar brisiad buddsoddi | 4.7 | (2.3) |
| Colled actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | (2.7) | (2.8) |
| **Symudiadau net mewn cronfeydd** | **7.8** | **(6.3)** |




## Cyfanswm incwm

- **£119.1m** - Incwm o weithgareddau elusennol
- **£20.0m** - Incwm o roddion a chymynroddion
- **£6.1m** - Arall (gan gynnwys incwm buddsoddi ac incwm o gynllun cadw swyddi'r llywodraeth a grantiau eraill y llywodraeth)




## Cyfanswm gwariant

- **£134.0m** - Gweithgareddau i helpu plant
- **£5.4m** - Codi arian




## Gwariant ar weithgareddau i helpu plant

- **£34.4m** - Cartrefi diogel a sefydlog
- **£31.2m** - Gwasanaethau i blant anabl
- **£31.8m** - Dechrau gorau mewn bywyd
- **£36.0m** - Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu
- **£0.6m** - Ymgyrchu a pholisi cyhoeddus

## Datganiadau ariannol y grŵp

Mae datganiadau ariannol cyfunol Gweithredu dros Blant yn cynnwys dwy ymddiriedolaeth elusennol arall. Mae'r ymddiriedolaethau hyn yn rhannu'r un ymddiriedolwr corfforaethol sef elusen Gweithredu dros Blant.

Ymddiriedolaeth anghorfforedig yw **The National Children's Home** (rhif elusen 215301). Mae'n parhau i gadw gwaddolion parhaol ac yn derbyn cymynroddion a adawyd yn hen enw'r elusen. Dim ond gwaddolion parhaol Gweithredu dros Blant y mae'r ymddiriedolaeth hon yn ei gweinyddu, a defnyddir yr holl incwm i'n helpu i gyflawni ein hamcanion.

Mae **Ymddiriedolaeth Nicholas Galperin** (rhif elusen 210618) yn cefnogi pobl ifanc o dan 25 oed.

Mae pedwar is-gwmni dan berchnogaeth lwyr, sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr a'r Alban hefyd yn cefnogi ein gwaith.

Mae **Action for Children Services Limited** (rhif cwmni 2332388) yn darparu gwasanaethau lles ac addysgol. Mae'r cwmni'n wynebu nifer o'r un heriau â Gweithredu dros Blant. Rhoddir contractau newydd gydag awdurdodau lleol drwy'r cwmni, a chynyddodd trosiant 7% yn 2020/21, i £55.8 miliwn. Gwnaeth y cwmni elw o £2.0 miliwn yn 2020/21, a bydd Rhodd Cymorth yn cael ei dalu i Gweithredu dros Blant fel nad oes unrhyw dreth gorfforaeth yn ddyledus.

Is-gwmni ar gyfer ein gweithgareddau codi arian a masnachu yw **Action for Children Trading Limited** (rhif cwmni 3776025). Gwnaeth y cwmni elw o lai na £0.1 miliwn yn 2020/21, a delir i Gweithredu dros Blant o dan Rhodd Cymorth.

Cwmni cyfyngedig trwy warant yw **Action for Children Developments Limited** (rhif cwmni 6842765). Mae'r cwmni'n gofalu am fasnachu masnachol, trafodion eiddo a datblygiadau eraill sy'n cefnogi amcanion Gweithredu dros Blant. Mae'r cwmni hefyd yn rhedeg meithrinfeydd plant o dan yr enw masnachu 'Spring'.

Gwnaeth y cwmni elw o £0.1 miliwn yn 2020/21. Mae hyn i lawr o £1.0 miliwn yn y flwyddyn flaenorol. Roedd cau meithrinfeydd dros dro oherwydd y pandemig wedi cael effaith andwyol.

Is-gwmni sy'n darparu clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast a gwersylloedd gwyliau yw **Out of School Scotland Limited** (rhif cwmni SC264619). Gwnaeth y cwmni golled o £0.1 miliwn yn 2020/21 oherwydd cau clybiau yn ystod y cyfnodau clo.

## Cronfeydd grŵp

Mae cyfraith ymddiriedolaeth ac elusen yn mynnu ein bod yn cyflwyno ein cronfeydd yn y categorïau canlynol:

**Cronfeydd cyfyngedig,** sy'n cynnwys cymynroddion, rhoddion ac incwm arall y gellir eu defnyddio at ddibenion penodol yn unig. Pan ddelir y cronfeydd hyn mewn ymddiriedolaeth, i'w cadw er ein budd fel cronfa gyfalaf, cânt eu dosbarthu fel cronfeydd gwaddol. Mae'r cronfeydd hyn ar gyfer ysgoloriaethau a defnydd cyffredinol. Ar 31 Mawrth 2021 roedd ein cronfeydd gwaddol yn £10.8 miliwn. Roedd cronfeydd pwrpas penodol yn £6.3 miliwn.

Roedd y **cronfeydd anghyfyngedig** o £65.2m yn cynnwys y gronfa gyffredinol, y mae rhan ohoni wedi'i chategoreiddio fel cronfeydd dynodedig, gyda'r gweddill heb eu dynodi.

Mae rhan o'r gronfa gyffredinol wedi'i chategoreiddio fel cronfeydd dynodedig, sy'n cynrychioli cronfa gyfalaf sy'n cyfateb i werth net asedau diriaethol sefydlog ar bapur a ddefnyddir i gefnogi gwaith gweithredol (£17.7 miliwn) a chronfa asedau arwystl sy'n cynrychioli gwerth marchnadol y buddsoddiadau hynny y mae gan y Gronfa Bensiwn dâl amdanyn nhw (£21.1 miliwn).

Cyfanswm gwerth yr asedau a godir ar y Gronfa Bensiwn yw £40 miliwn. Mae hyn yn cynnwys cronfa asedau arwystl o £21.1 miliwn ynghyd ag eiddo gweithredol o fewn y gronfa gyfalaf sydd â gwerth marchnadol o £18.9 miliwn.

Mae gweddill y gronfa gyffredinol (£26.4 miliwn) heb ei dynodi ac mae'n gyfystyr â chronfeydd rhydd yr Elusen.

Byddai'r gronfa bensiwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng gwerthoedd teg asedau pensiwn a rhwymedigaethau ar sail FRS 102. Serch hynny, ni chydnabyddir y gwarged hwn yn y cyfrifon, ar y sail na ellir rhyddhau gwarged o'r fath yn ôl ar sail ddiamod.

## Polisi cronfeydd wrth gefn a rhagolwg ariannol ar gyfer y dyfodol

Fel y rhan fwyaf o elusennau, nifer cyfyngedig o ffynonellau cyllid posibl sydd gan Gweithredu dros Blant. Rydyn ni wedi rhestru'r rhain yn ein cyfrifon. Felly mae ein cronfeydd wrth gefn yn adlewyrchu'r cyfalaf sydd ei angen arnom i barhau â'n gweithgareddau yn ddiogel ar adegau o ansicrwydd ac mewn amgylchiadau eithriadol. Mae hyn yn caniatáu cau'r gweithrediadau mewn ffordd drefnus drwy drosglwyddo'r gwasanaethau fel sy'n briodol.

Mae cronfeydd rhydd yn cynrychioli cronfeydd anghyfyngedig sydd ar gael i'w gwario. Maent yn cael eu cyfrifo drwy gymryd cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig a didynnu balansau nad ydynt ar gael i'w gwario, sef cronfeydd dynodedig.

Cyfanswm ein cronfeydd ar 31 Mawrth 2021 oedd £82.4 miliwn. Serch hynny, mae rhai o'r cronfeydd hyn yn cael eu cadw at ddibenion cyfyngedig (£17.2 miliwn) neu wedi'u neilltuo fel cronfeydd sy'n cynrychioli ein hasedau sefydlog diriaethol sy'n cael eu cadw at ddibenion gweithredol (£17.7 miliwn) a'r asedau hynny y mae'r gronfa pensiwn â buddion wedi'u diffinio yn codi tâl arnyn nhw os bydd yr elusen yn methu â chyfrannu at y cyfraniadau y cytunwyd arnyn nhw (£21.1 miliwn).

Mae'r cronfeydd sy'n weddill (£26.4 miliwn) yn ffurfio ein cronfeydd rhydd lle nad oes cyfyngiadau na dynodiadau. Cânt eu cynrychioli gan asedau y gellir eu defnyddio i alluogi ein gweithgareddau elusennol arferol i barhau hyd yn oed pan fo amgylchiadau niweidiol ac annisgwyl sy'n lleihau ein hincwm neu'n cynyddu ein costau am gyfnod.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu ein polisi cronfeydd wrth gefn – yn ogystal â lefel y cronfeydd rhydd – bob blwyddyn. Yna, caiff yr adolygiad ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Defnyddir dull risg-gwerthuso – gan bennu tebygolrwydd costau yn y dyfodol, rhwymedigaethau a risgiau posibl – i ganfod y swm sydd ei angen yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol. Mae hyn yn seiliedig ar y cynllun busnes a'r cynllun ariannol diweddaraf. Mae risgiau'n cynnwys colli incwm gan bartneriaid a rhoddion gwirfoddol, a newidiadau i'r costau.

Mae'r ymddiriedolwyr yn ceisio sicrhau bod gennym ddigon o gronfeydd rhydd i warchod sefydlogrwydd ariannol Gweithredu dros Blant. Mae hyn yn cynnig rhwyd ddiogelwch i ni petai angen ail-gydbwyso incwm a gwariant. Drwy ystyried ein cynlluniau strategol, amodau'r farchnad a'r amodau economaidd, rydym yn bwriadu cadw cronfeydd rhydd ac eithrio cronfeydd dynodedig uwchlaw £14 miliwn. Mae'r ymddiriedolwyr yn credu bod gan yr elusen ddigon o gronfeydd wrth gefn, ar sail yr amcanestyniadau presennol, i fodloni gofynion y dyfodol.

Mae ein cynllun ariannol a'n polisi cronfeydd wrth gefn yn cynnwys costau cyfraniadau i'r Gronfa Bensiwn. Mae'r datgeliad cyfrifyddu sydd ei angen ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn wedi'i gynnwys yn y fantolen, sydd ar gael yn nodyn 6. Rydyn ni wedi caniatáu ar gyfer llif arian wedi'i gynllunio ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac nid oes angen addasu'r polisi cronfeydd wrth gefn at ddibenion costau pensiwn.

## Buddsoddiadau

Bwrdd Cyllid Canolog yr Eglwys Fethodistaidd sy'n rheoli cyfran fawr o'n buddsoddiadau. Mae gan y Bwrdd Cyllid Canolog agwedd gymdeithasol, amgylcheddol a moesegol tuag at fuddsoddi, sy'n cyd-fynd â'n nodau, ein hamcanion a'n hystyriaethau moesegol.

Mae gan y Bwrdd Cyllid Canolog ddiddordeb mewn amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys yr amgylchedd, newid hinsawdd a hawliau dynol. Mae ei agwedd foesegol yn eithrio cwmnïau yr ystyrir eu bod yn amhriodol, fel y rhai sy'n ymwneud ag alcohol, tybaco, pornograffi ac arfogaeth, neu'r rhai sy'n defnyddio llafur plant. Mae'r Bwrdd Cyllid Canolog yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eglwysig eraill i sicrhau eu bod yn dylanwadu i'r eithaf ar y cwmnïau y maen nhw'n buddsoddi ynddyn nhw. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i God Stiwardiaeth y DU y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac mae'n cydymffurfio â'r Cod hefyd.

Mae ein buddsoddiadau'n darparu'r cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen arnom i reoli datblygiadau, risgiau ac ansicrwydd yn y dyfodol. Un o'n prif amcanion yw cadw model dyrannu asedau sy'n cyfateb i amseriad rhwymedigaethau posibl, o fewn cronfeydd wrth gefn, ag asedau buddsoddi priodol. Mae'r polisi buddsoddi a'r datganiad o egwyddorion buddsoddi yn seiliedig ar y model hwn, a chafodd ei adolygu a'i ddiweddaru yn 2021. Mae penderfyniadau buddsoddi a pherfformiad yn cael eu hadolygu gan y pwyllgor buddsoddi, is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cyllid. Rydyn ni'n mesur perfformiad cronfa'r Bwrdd Cyllid Canolog yn erbyn meincnod y cytunwyd

Mr a Mrs Hinch yn cynnal y Cwis Nadoligaidd.




arno. Yn 2020/21, perfformiodd ein buddsoddiadau yn well na 1.2% yn uwch na’r meincnod. Cynyddodd prif berfformiad y gronfa gyffredinol 20.6% am y flwyddyn.

Mae perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan ein pwyllgor buddsoddi a'i drafod gyda'r Bwrdd Cyllid Canolog. Mae'r pwyllgor buddsoddi hefyd yn edrych ar feincnodi allanol i sicrhau bod ein cronfeydd yn cynhyrchu enillion priodol. Roedd y portffolio 3.4% y tu ôl i’r mynegai ‘Twf Sefydlog’ a 2% o flaen y mynegai ‘Asedau Cytbwys'. Gostyngodd incwm buddsoddi i £0.8 miliwn yn 2020/21 o’i gymharu â £1.0 miliwn yn 2019/20.

## Pensiynau

Caiff cronfeydd pensiwn eu prisio mewn gwahanol ffyrdd gan yr actiwari at wahanol ddibenion. Mae prisiad bob tair blynedd yn sefydlu lefel cyllid briodol, ac yn defnyddio rhagdybiaethau ariannol set sy’n wahanol i’r rhai a ddefnyddir i gynnwys pensiynau yn natganiadau ariannol y cyflogwr sy’n noddi. Mae Safon Adrodd Ariannol FRS 102 yn llywodraethu’r gofynion datgelu cyfrifyddu hyn.

Yn ystod y prisiad tair blynedd ar 31 March 2018, roedd y diffyg pensiwn yn £38.4 miliwn, sef lefel cyllid o 94%. Mae hyn yn seiliedig ar amcangyfrif y rhwymedigaethau hirdymor dros weddill oes aelodau. Roedd y diffyg ar 31 Mawrth 2021, wedi’i gyfrifo ar yr un sail, yn £4 miliwn, a lefel cyllid yn 99%. Serch hynny, roedd y gwerth yn unol â FRS 102 yn warged o £35.5 miliwn, sy'n lefel cyllid o 106%. Mae prisiad FRS 102 yn cymryd chwyddiant is a chyfraddau llog/disgownt uwch na'r prisiad bob tair blynedd. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arwain at gyfrifiad is o ran rhwymedigaethau pensiwn.

Rydyn ni’n defnyddio'r sail brisio barhaus, fel sy’n cael ei defnyddio ar gyfer y prisiad tair blynedd, er mwyn cytuno â lefelau cyfraniadau a'r cynllun adfer. Nid ydym wedi cydnabod y gwarged ar sail FRS 102 fel ased yn y cyfrifon gan nad oes gennym unrhyw sicrwydd y byddai'r swm hwn yn cael ei ad-dalu o'r cynllun pensiwn pe byddai’n crisialu. Mae’n cymryd amser hir i setlo rhwymedigaethau pensiwn, ac mae’r costau’n cael eu hymestyn dros sawl blwyddyn. Mae lefel y cyllid hefyd yn anwadal, ac mae prisiadau’n sensitif i newidiadau yn y farchnad ariannol.

Rydyn ni’n derbyn adroddiad rheolaidd ar sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn gan yr actiwari, ac rydyn ni’n monitro hwn yn ofalus. Rydyn ni wedi parhau i wneud taliadau adennill pensiwn yn unol â’r cynllun 20 mlynedd y cytunwyd arno â chyfarwyddwyr ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn yn 2009. Mae hyn wedi’i ddiweddaru i adlewyrchu prisiad 2018.

Er gwaethaf sefyllfaoedd anwadal y farchnad, rydyn ni ar y trywydd iawn i fodloni’r sefyllfa ariannol o ran y cynllun adfer. Mae rhoi’r strategaeth fuddsoddi y cytunwyd arni ar waith wedi helpu hyn.

Yn 2019/20 cymerwyd camau i symud at bortffolio asedau o risg is er mwyn cyfyngu ar y risg o ddirywio i Gweithredu dros Blant, a pharhaodd y gwaith hwnnw yn ystod 2020/21. Yn ystod y 10 mlynedd ddiwethaf, rydyn ni wedi bod yn talu cyfraniad lleihau diffyg yn flynyddol, fel y cytunwyd gydag ymddiriedolwyr y Gronfa Bensiwn. Yn 2020/21, y taliad oedd £3 miliwn.

## Busnes gweithredol

Bu'n flwyddyn anarferol a heriol i Gweithredu dros Blant. Ond mae ein helusen wedi dangos dycnwch a chryfder mawr yn ystod y pandemig.

Newidiodd yr amgylchedd yn gyflym o fis Mawrth 2020 ymlaen, gyda mwy o ansicrwydd yn yr amgylchedd busnes a'r economi ehangach. Mae hyn wedi cynyddu'r pwysau ar nifer o elusennau. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithiodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd, drwy ystyried y sefyllfa arian parod a'r effaith ar gronfeydd wrth gefn. Helpodd y prosiect trawsnewid Diogelu ein Dyfodol i leihau'r sylfaen gostau yn barhaol, gan sicrhau model gweithredu sy'n well yn economaidd. Gallwch ddarllen mwy am y prosiect ar dudalen 46.

Roedd perfformiad ariannol positif 2020/21 i'w briodoli'n rhannol i grantiau'r llywodraeth a dderbyniwyd, drwy'r cynllun cadw swyddi a'r grant penodol gan yr Adran Addysg. Yn ogystal, fe wnaeth ein hymateb cyflym i liniaru risgiau hysbys a rheolaeth ofalus o'r sylfaen gostau ein helpu i gyflawni'r gwarged o £5.8 miliwn yn 2020/21, gan ein rhoi mewn sefyllfa gryfach. Roedd ein meithrinfeydd ar agor i blant agored i niwed neu blant gweithwyr allweddol yn unig yn ystod y cyfnodau clo. Effeithiodd hyn ar ein hincwm (er bod cynllun cadw swyddi'r llywodraeth wedi ei wrthbwyso, i raddau). Disgwyliwn i hyn newid wrth i gyfnodau clo ddod yn llai tebygol. Cafodd incwm gwasanaethau plant ei gynnal yn ystod y cyfnod hwn ac yn 2021/22 disgwylir iddo aros yr un peth fwy neu lai. Mae'n werth nodi bod y ddarpariaeth gwasanaethau plant wedi parhau yn ystod y pandemig, a bod contractau awdurdodau lleol yn gyffredinol wedi parhau i gael eu hadnewyddu.

Llwyddodd y tîm codi arian i gynnal rhai ymgyrchoedd a oedd yn benodol i'r coronafeirws yn ystod y cyfnod hwn a chynhyrchodd incwm sylweddol ar ben y grantiau ymddiriedolaeth ac incwm cymynroddion. Yn 2021/22, disgwylir i incwm codi arian ostwng. Mae hyn oherwydd amodau economaidd a chymdeithasol ansicr, a llai o gyfleoedd i lansio ymgyrchoedd arbennig.

Adolygodd yr ymddiriedolwyr gynlluniau ariannol y grŵp ym mis Chwefror 2021 a chymeradwyodd ragolwg cyllideb sylfaen gytbwys ar gyfer y tair blynedd nesaf (2021/22 i 2023/24). Mae ymddiriedolwyr hefyd wedi cymeradwyo cynlluniau twf preswyl a strategaeth dechnoleg fel galluogwr allweddol i sicrhau dyfodol tymor hwy yr elusen. Profwyd straen rhagolwg y gyllideb i sicrhau cadernid, gan ystyried pa ddigwyddiadau y byddai angen iddyn nhw ddigwydd i beri i arian parod a chronfeydd wrth gefn ostwng i lefel anghynaliadwy.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi cydweithio'n agos â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ystyried y cronfeydd wrth gefn a'r sefyllfa hylifedd a ragwelir. Roedd gwneud hyn yn dangos y gall y grŵp barhau i weithredu fel busnes gweithredol. Modelwyd sefyllfaoedd gwahanol i brofi risgiau allweddol fel colli incwm o'r holl feysydd cynhyrchu incwm, Gwasanaethau Plant, Codi Arian a Meithrinfeydd/Gofal Plant. Profodd y sefyllfaoedd hefyd oedi posib wrth dderbyn taliadau am ein gwasanaethau a'r posibilrwydd o beidio â gwireddu'r budd llawn disgwyliedig o'r Prosiect Trawsnewid. Galluogodd y gwaith hwn i ni asesu'r effaith bosib ar hylifedd a chronfeydd wrth gefn pe bai'r sefyllfaoedd uchod yn digwydd. Gwnaethpwyd hyn o'i gymharu â'r rhagolwg cyllideb rhagamcanol, sef ein hachos sylfaen. Fe wnaethon ni hefyd gynnal prawf straen. Roedd hyn yn rhagdybio'r sefyllfa waethaf posibl, lle digwyddodd yr holl risgiau uchod ar yr un pryd.

Gwerthusodd yr ymddiriedolwyr yr uchod, ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn digwydd. Maen nhw'n fodlon bod cryfder ariannol cyfredol y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol, ac yn caniatáu i ni gymryd camau adferol amserol i leihau unrhyw effaith. Mae gan y grŵp a'r rhiant gwmni elusennol fantolen gref. Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig ar 31 Mawrth 2021 oedd £65.2 miliwn (y mae £26.4 miliwn yn gronfeydd rhydd lle nad oes cyfyngiadau na dynodiadau), gyda balansau arian parod sylweddol a ragwelir ar gyfartaledd dros £20m yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023. At hynny, ystyriodd yr ymddiriedolwyr effaith ariannol y ddau brosiect sylweddol a gymeradwywyd fel yr uchod gan ddefnyddio'r cynlluniau busnes ynghyd â'r buddsoddiad sy'n ofynnol a chydnabod y bydd yr hylifedd a'r cronfeydd wrth gefn yn dal i gael eu cynnal ymhell uwchlaw'r lefel ofynnol y tu hwnt i'r 12 mis nesaf.

Felly, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau'n fodlon y gall y grŵp barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o'r dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon hyn. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn fodlon bod y cyfrifon wedi'u paratoi gan wybod bod y grŵp yn ariannol hyfyw. Ar ôl gwneud ymholiadau priodol, mae'r ymddiriedolwyr felly o'r farn bod gan y grŵp adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld, gan fod yn isafswm o 12 mis o'r dyddiad y llofnodir y cyfrifon hyn. Yn unol â hynny, paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

# Datganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar Gweithredu dros Blant at ddibenion cyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (sy'n cynnwys yr adroddiad strategol) a'r datganiadau ariannol yn unol â rheoliadau a deddfau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn mynnu bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol), gan gynnwys FRS 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon. O dan gyfraith cwmnïau, ni chaiff yr ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol a'r grŵp yn ogystal â'r adnoddau sy'n dod i fewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant. I baratoi'r datganiadau ariannol, mae angen i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson.
- Arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion sydd wedi'u nodi yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS 102).
- Gwneud penderfyniadau rhesymol a darbodus, ac amcangyfrifon cyfrifyddu.
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y grŵp yn parhau i fasnachu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn egluro trafodiadau'r cwmni elusennol a'r grŵp ac yn datgelu'n gywir sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'r grŵp unrhyw bryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd), a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol a'r grŵp, ac am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod achosion o dwyll ac enghreifftiau eraill o afreoleidd-dra

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau:

- Nad oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni, hyd y gŵyr pob ymddiriedolwr.
- Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymryd y camau angenrheidiol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod archwilydd y cwmni elusennol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal cywirdeb y wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill. Cafodd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (yn cynnwys yr adroddiad strategol) ei gymeradwyo a'i lofnodi ar ran yr ymddiriedolwyr ar 7 Medi 2021.



**Sarika Patel,**
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



# Adroddiad yr archwilydd annibynnol

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau ac ymddiriedolwyr Gweithredu dros Blant.**

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ('y cwmni elusennol') a'i is-gwmnïau ('y grŵp') am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, sy'n cynnwys y Datganiad Gweithgareddau Ariannol Cyfunol, Mantolen y Grŵp a'r Elusen, Datganiad Llif Arian Cyfunol a'r nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y grŵp a'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2021, ac o incwm a gwariant y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau 6 ac 8 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (yr Alban) 2006 (fel y'u diwygiwyd).

## Sail y Farn

Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) (ISAs (y DU)) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydyn ni'n annibynnol ar y grŵp/cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydyn ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn bod y dystiolaeth archwilio rydyn ni wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail ar gyfer ein barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydyn ni wedi dod i'r casgliad fod defnydd yr ymddiriedolwyr ar sail cyfrif busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydyn ni wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol neu'r grŵp i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'i awdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnyn nhw. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y gwnaed hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydyn ni wedi'i chael yn yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos bod camddatganiad o bwys yn y wybodaeth arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau tybiedig o bwys, mae'n ofynnol i ni bennu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall. Ar sail y gwaith rydyn ni wedi'i wneud, os byddwn yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall hon, mae'n rhaid i ni adrodd ar y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal ein harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol, a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol; a
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnyn nhw drwy eithriad

Yng ngoleuni ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r grŵp a'r cwmni elusennol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw gamddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol nac yn adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i adrodd yn ei gylch yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol i ni, o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 a Rheoliadau Cyfrifon Elusennol (yr Alban) 2006, roi gwybod i chi os ydym yn credu:

- nad yw'r cofnodion cyfrifyddu iawn a digonol wedi'u cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar dudalen 52, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, lle bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod ymddiriedolwyr un ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddyn nhw unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Rydyn ni wedi ein penodi fel archwilydd o dan adran 44 (1) (c) o Ddeddf Buddsoddiad Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 ac o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac rydyn ni'n adrodd yn unol â'r Deddfau a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael eu heffeithio ganddyn nhw.

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) wastad yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriadau ac ystyrir eu bod yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae manylion i ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, wedi'u nodi isod.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.



## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Gwnaethom nodi ac asesu risgiau o gamddatganiadau o bwys y datganiadau ariannol o afreoleidd-dra, boed hynny yn sgil twyll neu gamgymeriad, a thrafodwyd y rhain ymhlith aelodau ein tîm archwilio. Yna fe wnaethom gynllunio a pherfformio gweithdrefnau archwilio a oedd yn ymatebol i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol y mae'r cwmni elusennol a'r grŵp yn gweithredu oddi mewn iddyn nhw, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Y deddfau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn oedd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau 2011 a Deddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, ynghyd â SORP Elusennau (FRS 102). Gwnaethom asesu'r cydymffurfiaeth gofynnol gyda'r deddfau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar yr eitemau datganiad ariannol cysylltiedig.

Yn ogystal, gwnaethom ystyried darpariaethau deddfau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfio â nhw fod yn sylfaenol i allu'r cwmni elusennol a gallu'r grŵp i weithredu neu i osgoi cosb berthnasol. Gwnaethom hefyd ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn y cwmni elusennol a'r grŵp o ran twyll. Y deddfau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau'r DU oedd y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a deddfwriaeth cyflogaeth.

Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau hyn i ymchwiliad yr Ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl.

Gwnaethom nodi'r risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o ran afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, i fod o fewn amseriad cydnabod incwm a diystyru rheolaethau gan reolwyr. Roedd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys ymholiadau gan reolwyr, archwilio mewnol, cwnsler cyfreithiol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch eu dulliau eu hunain o nodi ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profion sampl ar bostio cyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn, adolygu gohebiaeth reoleiddiol gyda'r Comisiwn Elusennau a darllen cofnodion cyfarfodydd y rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae yna risg na ellir ei hosgoi efallai na fyddwn wedi canfod rhai camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a pherfformio ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, mae'r diffyg cydymffurfiaeth pellach â deddfau a rheoliadau (afreoleidd-dra) yn deillio o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, felly y lleiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau cynhenid cyfyngedig sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei nodi. Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfau a rheoliadau.

## Defnyddio ein hadroddiad

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac ar gyfer ymddiriedolwyr y cwmni elusennol, fel corff, yn unol â Rheoliad 10 o Reoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthyn nhw mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb, ac eithrio i'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.



**Naziar Hashemi**
Uwch Archwilydd Statudol
ar ran ac yn enw Crowe U.K. LLP
Archwilydd Siartredig

**Llundain**

23 Medi 2021



# Datganiadau ariannol

# Mantolen gweithgareddau ariannol cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021

## (yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant)

| | Nodiadau | Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig | Diben Penodol | Gwaddol | Cyfanswm Cronfeydd 2021 | Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig | Diben Penodol | Gwaddol | Cyfanswm Cronfeydd 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Incwm a gwaddolion** | | | | | | | | | |
| **Incwm o roddion a chymynroddion** | 3 | 14,576 | 5,404 | | 19,980 | 11,749 | 6,947 | 16 | 18,712 |
| **Incwm o fuddsoddiad** | | 771 | 56 | | 827 | 1,018 | - | - | 1,018 |
| **Incwm o weithgareddau elusennol:** | | | | | | | | | |
| Dechrau gorau mewn bywyd | | 27,556 | - | - | 27,556 | 37,593 | - | - | 37,593 |
| Gwasanaethau i blant anabl | | 29,127 | - | - | 29,127 | 33,474 | - | - | 33,474 |
| Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu | | 31,679 | - | - | 31,679 | 19,258 | - | - | 19,258 |
| Cartrefi diogel a sefydlog | | 30,744 | - | - | 30,744 | 36,562 | - | - | 36,562 |
| | | 119,106 | - | - | 119,106 | 126,887 | - | - | 126,887 |
| **Incwm arall** | | | | | | | | | |
| Enillion/(colledion) net wrth waredu asedau sefydlog | | (30) | - | - | (30) | 3 | - | - | 3 |
| Grantiau'r llywodraeth | 3 | 5,329 | | | 5,329 | - | | | - |
| **Cyfanswm incwm a gwaddolion** | | **139,752** | **5,460** | - | **145,212** | **139,657** | **6,947** | **16** | **146,620** |
| **Gwariant** | 4,5 | | | | | | | | |
| **Gwariant ar godi arian** | | 5,431 | - | - | 5,431 | 7,695 | - | 16 | 7,711 |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol:** | | | | | | | | | |
| Dechrau gorau mewn bywyd | | 30,175 | 1,604 | - | 31,779 | 37,987 | 738 | - | 38,725 |
| Gwasanaethau i blant anabl | | 30,857 | 373 | - | 31,230 | 37,099 | 376 | - | 37,475 |
| Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu | | 33,652 | 2,381 | - | 36,033 | 19,503 | 2,223 | - | 21,726 |
| Cartrefi diogel a sefydlog | | 32,807 | 1,554 | - | 34,361 | 40,337 | 1,228 | - | 41,565 |
| Ymgyrchu a pholisi cyhoeddus | | 549 | 14 | - | 563 | 649 | - | - | 649 |
| | | 128,040 | 5,926 | - | 133,966 | 135,575 | 4,565 | - | 140,140 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | **133,471** | **5,926** | - | **139,397** | **143,270** | **4,565** | **16** | **147,851** |
| Enillion / (colledion) net ar fuddsoddiadau | 9 | 2,451 | - | 2,243 | 4,694 | (580) | - | (1,681) | (2,261) |
| **Incwm / (colledion) net ar gyfer y flwyddyn cyn trosglwyddiadau** | | **8,732** | **(466)** | **2,243** | **10,509** | **(4,193)** | **2,382** | **(1,681)** | **(3,492)** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | 14 | (147) | 252 | (105) | - | 18 | (163) | 145 | - |
| | | 8,585 | (214) | 2,138 | 10,509 | (4,175) | 2,219 | (1,536) | (3,492) |
| Colledion actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | 6 | (2,724) | - | - | (2,724) | (2,818) | - | - | (2,818) |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | | **5,861** | **(214)** | **2,138** | **7,785** | **(6,993)** | **2,219** | **(1,536)** | **(6,310)** |
| Cronfeydd wedi'u dwyn ymlaen | 14 | 59,371 | 6,535 | 8,698 | 74,604 | 66,364 | 4,316 | 10,234 | 80,914 |
| **Cronfeydd wedi'u cario ymlaen** | **14** | **65,232** | **6,321** | **10,836** | **82,389** | **59,371** | **6,535** | **8,698** | **74,604** |

Mae'r holl weithgareddau'n deillio o weithrediadau parhaus. Gwarged y flwyddyn, gan gynnwys enillion wedi'u gwireddu a rhai heb eu gwireddu o £4,694,000, oedd £7,785,000 (colled 2020 o £6,310,000, gan gynnwys colledion wedi'u gwireddu a rhai heb eu gwireddu o £2,261,000).


# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2021

| | | Grŵp | | Elusen | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2021 | 2020 | 2021 | 2020 |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | 17,715 | 17,204 | 17,715 | 17,190 |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 8 | 1,216 | 1,462 | 1,216 | 1,462 |
| Buddsoddiadau | 9 | 41,211 | 36,517 | 30,116 | 27,718 |
| | | **60,142** | **55,183** | **49,047** | **46,370** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 10 | 18,663 | 23,445 | 11,357 | 14,109 |
| Adneuon rhybudd | | 4,090 | 3,852 | 3,856 | 3,700 |
| Arian parod | | 26,302 | 11,596 | 25,705 | 11,096 |
| | | **49,055** | **38,893** | **40,918** | **28,905** |
| **Credydwyr: y symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 11 | (23,926) | (17,752) | (16,019) | (14,217) |
| **Asedau cyfredol net** | | **25,129** | **21,141** | **24,899** | **14,688** |
| **Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **85,271** | **76,324** | **73,946** | **61,058** |
| **Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau** | 12 | **(2,882)** | **(1,720)** | **(2,882)** | **(1,720)** |
| **Asedau net** | | **82,389** | **74,604** | **71,064** | **59,338** |
| **Cronfeydd** | 14 | | | | |
| **Cronfeydd cyfyngedig:** | | | | | |
| Gwaddolion | | 10,836 | 8,698 | - | - |
| Diben Penodol | | 6,321 | 6,535 | 6,321 | 6,535 |
| **Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig** | | **17,157** | **15,233** | **6,321** | **6,535** |
| Cronfeydd anghyfyngedig: | | 65,232 | 59,371 | 64,743 | 52,803 |
| **Cyfanswm cronfeydd** | **14,15** | **82,389** | **74,604** | **71,064** | **59,338** |

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 7 Medi 2021, a'u llofnodi ar ei ran



Sarika Patel
Cadeirydd



Richard Cryer
Ymddiriedolwr

Rhif y cwmni 04764232

# Mantolen llif arian cyfunol

| | Grŵp 2021 | Grŵp 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Llif arian net /(all-lif) o weithgareddau gweithredu (isod)** | **15,259** | **(5,712)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 16 | 170 |
| Difidendau a dderbyniwyd | 389 | 435 |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 422 | 413 |
| Prynu is-gwmni (arian parod net a gafwyd) | - | (726) |
| Enillion gwerthu asedau sefydlog diriaethol | 370 | 3 |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | (1,512) | (1,096) |
| Enillion wrth werthu buddsoddiadau | 1,699 | 16,728 |
| Prynu buddsoddiadau | (1,699) | (3,417) |
| **Arian parod net (a ddefnyddiwyd) / darparwyd gan weithgareddau buddsoddi** | **(315)** | **12,510** |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y flwyddyn** | **14,944** | **6,798** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 1af Ebrill | 15,448 | 8,650 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar 31ain Mawrth** | **30,392** | **15,448** |

## Cysoni'r incwm net / (gwariant) â'r llif arian parod net/ (all-lif) o weithgareddau gweithredu

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm net / (gwariant) am y flwyddyn (yn unol â'r datganiad gweithgareddau ariannol) | 10,509 | (3,492) |
| **Addasiadau ar gyfer:** | | |
| Taliadau dibrisiant ac amorteiddiad | 847 | 1,110 |
| Enillion/ (colledion) net ar asedau buddsoddi | (4,694) | 2,261 |
| Incwm o fuddsoddiad | (827) | (1,018) |
| Enillion/(colledion) net wrth waredu asedau sefydlog diriaethol | 30 | (3) |
| Cost gwasanaeth cyfredol ar gyfer pensiwn a chostau gweinyddu | 1,453 | 1,525 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | (4,177) | (4,343) |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | 4,782 | 3,481 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr | 6,174 | (4,663) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | 1,162 | (570) |
| **Mewnlif arian parod net / (all-lif)** | **15,259** | **(5,712)** |

## Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian mewn llaw | 26,302 | 11,596 |
| Adneuon rhybudd (llai na 3 mis) | 4,090 | 3,852 |
| Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 30,392 | 15,448 |

## Dadansoddiad o'r newidiadau mewn dyled net

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen | 15,448 | 8,650 |
| Llif arian | 14,944 | 6,798 |
| Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen | 30,392 | 15,448 |

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1. Sail paratoi

Mae'r Elusen yn endid budd cyhoeddus fel y diffinnir o dan FRS 102. Mae datganiadau ariannol y Grŵp a'r Elusen wedi cael eu paratoi yn unol â Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: "Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102)" (Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (FRS102)) a gyhoeddwyd ar 2 Hydref 2019 a'r "Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (FRS 102). Maen nhw hefyd yn cydymffurfio â gofynion adrodd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Deddf Elusennau 2011.

Mae datganiadau ariannol y Grŵp a'r Elusen wedi'u paratoi ar sail busnes gweithredol (gweler isod) o dan y confensiwn costau hanesyddol, fel y mae wedi'i addasu drwy ailbrisio buddsoddiadau rhestredig ac eiddo buddsoddi.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r elusen wedi cymryd mantais o'r eithriad a ganiateir o dan adran 408 o'r Ddeddf Cwmnïau ac nid yw wedi cyflwyno ei Ddatganiad Gweithgareddau Ariannol heb ei gyfuno.

### Busnes gweithredol

Bu'n flwyddyn anarferol a heriol i Gweithredu dros Blant. Ond mae ein helusen wedi dangos gwytnwch a chryfder mawr yn ystod y pandemig.

Newidiodd yr amgylchedd yn gyflym o fis Mawrth 2020 ymlaen, gydag ansicrwydd cynyddol yn yr amgylchedd busnes a'r economi ehangach. Mae hyn wedi rhoi mwy o bwysau ar nifer o elusennau. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithiodd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol yn agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i fonitro'r sefyllfa yn rheolaidd, gan ystyried y safle ariannol a'r effaith ar gronfeydd wrth gefn. Helpodd y prosiect trawsnewid Diogelu ein Dyfodol i leihau'r sylfaen gostau'n barhaol, gan sicrhau model gweithredu sy'n well yn economaidd. Gallwch ddarllen mwy am y prosiect ar dudalen 46.

Roedd perfformiad ariannol positif 2020/21 i'w briodoli'n rhannol i grantiau'r llywodraeth a dderbyniwyd, drwy'r cynllun cadw swyddi a'r grant penodol gan yr Adran Addysg. Yn ogystal, fe wnaeth ein hymateb cyflym i liniaru risgiau hysbys a rheolaeth ofalus o'r sylfaen gostau ein helpu i gyflawni'r gwarged o £5.8 miliwn yn 2020/21, gan ein rhoi mewn sefyllfa gryfach. Roedd ein meithrinfeydd ar agor i blant agored i niwed neu blant gweithwyr allweddol yn unig yn ystod y cyfnodau clo. Effeithiodd hyn ar ein hincwm (er bod cynllun cadw swyddi'r llywodraeth wedi ei wrthbwyso, i raddau). Disgwyliwn i hyn newid wrth i gyfnodau clo ddod yn llai tebygol. Cafodd incwm gwasanaethau plant ei gynnal yn ystod y cyfnod hwn ac yn 2021/22 disgwylir iddo aros yr un peth fwy neu lai. Mae'n werth nodi bod y ddarpariaeth gwasanaethau plant wedi parhau yn ystod y pandemig, a bod contractau awdurdodau lleol yn gyffredinol wedi parhau i gael eu hadnewyddu. Llwyddodd y tîm codi arian i gynnal rhai ymgyrchoedd a oedd yn benodol i'r coronafeirws yn ystod y cyfnod hwn a chynhyrchodd incwm sylweddol ar ben y grantiau ymddiriedolaeth ac incwm cymynroddion. Yn 2021/22, disgwylir i incwm codi arian ostwng. Mae hyn oherwydd amodau economaidd a chymdeithasol ansicr, a llai o gyfleoedd i lansio ymgyrchoedd arbennig.

Adolygodd yr ymddiriedolwyr gynlluniau ariannol y grŵp ym mis Chwefror 2021 a chymeradwyodd ragolwg cyllideb sylfaen gytbwys ar gyfer y tair blynedd nesaf (2021/22 i 2023/24). Mae ymddiriedolwyr hefyd wedi cymeradwyo cynlluniau twf preswyl a strategaeth dechnoleg fel galluogwr allweddol i sicrhau dyfodol tymor hwy yr elusen. Profwyd straen rhagolwg y gyllideb i sicrhau cadernid, gan ystyried pa ddigwyddiadau y byddai angen iddyn nhw ddigwydd i beri i arian parod a chronfeydd wrth gefn ostwng i lefel anghynaliadwy.

Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi cydweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ystyried y cronfeydd wrth gefn a'r sefyllfa hylifedd a ragwelir. Roedd gwneud hyn yn dangos y gall y grŵp barhau i weithredu fel busnes gweithredol. Modelwyd sefyllfaoedd gwahanol i brofi risgiau allweddol fel colli incwm o'r holl feysydd cynhyrchu incwm, Gwasanaethau Plant, Codi Arian a Meithrinfeydd/Gofal Plant. Profodd y sefyllfaoedd hefyd oedi posibl wrth dderbyn taliadau am ein gwasanaethau a'r posibilrwydd o beidio â gwireddu'r budd llawn disgwyliedig o'r Prosiect Trawsnewid. Galluogodd y gwaith hwn i ni asesu'r effaith bosib ar hylifedd a chronfeydd wrth gefn pe bai'r sefyllfaoedd uchod yn digwydd. Gwnaethpwyd hyn o'i gymharu â'r rhagolwg cyllideb rhagamcanol, sef ein hachos sylfaen. Fe wnaethon ni hefyd gynnal prawf straen. Roedd hyn yn rhagdybio'r sefyllfa waethaf posibl, lle digwyddodd yr holl risgiau uchod ar yr un pryd.

Gwerthusodd yr ymddiriedolwyr yr uchod, ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hyn yn digwydd. Maen nhw'n fodlon bod cryfder ariannol cyfredol y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol, ac yn caniatáu i ni gymryd camau adferol amserol i leihau unrhyw effaith. Mae gan y grŵp a'r rhiant gwmni elusennol fantolen gref. Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig ar 31 Mawrth 2021 oedd £65.2 miliwn (y mae £26.4 miliwn yn gronfeydd rhydd lle nad oes cyfyngiadau na dynodiadau), gyda balansau arian parod sylweddol a ragwelir ar gyfartaledd dros £20m yn y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2023. At hynny, ystyriodd yr ymddiriedolwyr effaith ariannol y ddau brosiect sylweddol a gymeradwywyd fel yr uchod gan ddefnyddio'r cynlluniau busnes ynghyd â'r buddsoddiad sy'n ofynnol a chydnabod y bydd yr hylifedd a'r cronfeydd wrth gefn yn dal i gael eu cynnal ymhell uwchlaw'r lefel ofynnol y tu hwnt i'r 12 mis nesaf.

Felly, mae'r ymddiriedolwyr yn parhau'n fodlon y gall y grŵp barhau i weithredu am y 12 mis nesaf o'r dyddiad y llofnodwyd y cyfrifon hyn. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn fodlon bod y cyfrifon wedi'u paratoi gan wybod bod y grŵp yn ariannol hyfyw. Ar ôl gwneud ymholiadau priodol, mae'r ymddiriedolwyr felly o'r farn bod gan y grŵp adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol hyd y gellir rhagweld, gan fod yn isafswm o 12 mis o'r dyddiad y llofnodir y cyfrifon hyn. Yn unol â hynny, paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

## 2. Polisïau cyfrifyddu

Nodir isod y prif bolisïau cyfrifyddu a gymhwyswyd wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Elusen.

### Sail cyfuno

Mae canlyniadau is-gwmnïau'n cael eu cyfuno fesul llinell, ac mae caffaeliadau yn cael eu cynnwys ar sail gwerth teg ar y dyddiad caffael. Mae'r datganiad gweithgareddau ariannol (SOFA) a'r fantolen yn cyfuno datganiadau ariannol yr elusen a'r is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr iddi – Action for Children Services Limited, Action for Children Trading Limited, Action for Children Developments Limited ac Out of School Scotland Limited. Ar sail natur yr ymddiriedolaethau, gyda Gweithredu dros Blant fel yr un ymddiriedolaeth ac sy'n rhannu trefniadau rheolaeth a rheolaethau cyffredin gyda Gweithredu dros Blant, mae dwy elusen gysylltiedig – National Children's Home ac Ymddiriedolaeth Nicholas Galperin – hefyd yn cael eu trin fel is-gwmnïau a'u cyfuno yng nghyfrifon y grŵp.

### Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifyddu

Wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Elusen, mae'n ofynnol i'r rheolwyr lunio dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch symiau cario asedau a rhwymedigaethau.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny ac mae'r amcangyfrifon, ynghyd â'u rhagdybiaethau sylfaenol, yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae amcangyfrifon a dyfarniadau allweddol a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon hyn yn cynnwys defnyddio adroddiadau prisio allanol ar gyfer:

- gwerth cario ymlaen eiddo buddsoddi a bennir drwy ddefnyddio adroddiadau prisio allanol.
- cydnabod unrhyw ased neu rwymedigaeth pensiwn o dan FRS 102.

Gwnaed y dyfarniadau canlynol yn y broses o gymhwyso polisïau cyfrifo'r Elusen ac sydd â'r effaith fwyaf sylweddol ar y symiau yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod incwm mewn perthynas â chontractau
- Rhagdybiaethau actiwaraidd pensiwn (gweler nodyn 6)
- Prisiadau eiddo buddsoddi (gweler nodyn 9)
- Darpariaeth dadfeiliad (gweler nodyn 12)
- Darpariaeth diswyddiadau (nodyn 12)

### Incwm

Mae'r holl adnoddau i'w derbyn wedi cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol pan fo gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm, pan fo'n debygol iawn y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fo'n bosib mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r elusen yn cael yr hawl o ran cymynroddion pan fydd yn cael gwybod ei bod ar fin derbyn arian, neu pan fydd yn derbyn y gymynrodd – pa bynnag un yw'r cynharaf.

Mae adnoddau i'w derbyn yn sgil gweithgareddau elusennol, gan gynnwys grantiau cyfalaf, yn cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol pan fyddant yn dderbyniadwy. Mae swm llawn y grantiau cyfalaf yn cael ei nodi ar y datganiad gweithgareddau ariannol pan fydd yn dderbyniadwy. Pan fydd arian yn cael ei dderbyn ar gyfer gwaith o dan gontract a fydd yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr arian yn cael ei drin fel incwm gohiriedig os bydd y corff cyllido'n cytuno. Pan nad oes cytundeb o'r fath, bydd yr arian yn cael ei gynnwys yn yr adran credydwyr eraill.

Mae rhoddion ac anrhegion a dderbynnir mewn swyddfeydd a phrosiectau yn ystod y flwyddyn yn cael eu cofnodi ar eu gwerth gros, neu ar sail amcangyfrif o'u gwerth. Ond mae'r enillion wrth werthu anrhegion, a gafwyd fel rhodd i gael eu hailwerthu, yn cael eu cynnwys ar y pris gwerthu. Mae'r holl adnoddau eraill i'w derbyn yn cynnwys ffioedd a gwariant wrth gael eu cofnodi, p'un ai a ydynt wedi cael eu codi gan yr elusen neu gan ei hasiantau, ac eithrio ar gyfer digwyddiadau codi arian bach sydd ddim o dan reolaeth uniongyrchol Gweithredu dros Blant, lle dydy'r arian sy'n cael ei ad-dalu a'i gofnodi ddim yn cynnwys treuliau uniongyrchol.

Nid oes unrhyw symiau wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau a roddir gan wirfoddolwyr.

### Gwariant

Caiff gwariant ei gyfrif ar sail croniadau ac fe'i dosbarthir o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau yn uniongyrchol i benawdau penodol fe'u dyrennir i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

Mae costau cynhyrchu cronfeydd yn cynnwys costau codi arian a chyhoeddusrwydd, costau masnachu a chostau rheoli buddsoddiadau. Mae codi arian a chyhoeddusrwydd

## 2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

yn cynnwys cyflogau staff a chostau uniongyrchol ac anuniongyrchol eraill, sy'n cynnwys dyraniadau priodol o gostau cymorth canolog.

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau ymgyrchu ac eiriolaeth ynghyd â chostau hysbysu ac addysgu'r cyhoedd am y gwaith, a chost gwasanaethau gweinyddu, rheoli a chefnogi eraill sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r gwaith yn broffesiynol ac yn gymwys.

Pan fydd trefniadau'n bodoli i sefydliadau partner gyflawni gwaith, mae cost hyn yn cael ei chynnwys yn y gweithgaredd perthnasol. Pan fydd gwasanaethau canolog yn cefnogi gwaith codi arian a gwaith elusennol uniongyrchol, bydd eu costau'n cael eu neilltuo ar sail cyfrif pennau sy'n adlewyrchu'r defnydd o'r gwasanaethau hynny.

### Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu'n cynnwys cyflogau, gwariant uniongyrchol a chostau gorbenion yr adran adnoddau corfforaethol, yn ogystal â chostau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r adran adnoddau corfforaethol yn ymwneud â'r broses o gydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiadol a statudol wrth weithredu cwmni elusennol.

### Buddion ymddeol

Mae Gweithredu dros Blant yn cyfrannu at amrywiaeth o drefniadau pensiwn ar ran ei staff. Daw'r rhan fwyaf o'r buddion o Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, sy'n cynnwys nifer o adrannau, gan gynnwys elfennau buddion wedi'u diffinio a chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae costau darparu pensiynau â buddion wedi'u diffinio yn cael eu trin yn unol ag FRS 102. Mae'r elfennau canlynol yn cael eu nodi yn y datganiad gweithgareddau ariannol: cost gwasanaeth darpariaeth bensiwn sy'n ymwneud â'r cyfnod, ynghyd â chostau unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth blaenorol (yn cael eu neilltuo i gostau staff); cost cyllido'r pensiwn, sydd yr un fath â'r cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, llai credyd sy'n gyfystyr ag enillion disgwyliedig hirdymor y gronfa bensiwn ar asedau; a'r enillion neu'r colledion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn (yn cael eu neilltuo i enillion a cholledion cydnabyddedig eraill). Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth marchnadol asedau'r gronfa bensiwn a gwerth presennol rhwymedigaethau cronedig pensiwn yn ymddangos fel ased neu rwymedigaeth ar y fantolen, ond fydd ased ddim yn cael ei gydnabod oni bai mai dim ond yr Elusen sydd â'r hawl i bennu'r defnydd o'r gwarged o asedau dros rwymedigaethau.

Yn y gorffennol, cafodd credyd cyllid pensiwn ei gydnabod fel eitem ar wahân ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Serch hynny, penderfynwyd y dylid rhwydo'r eitem hon yn erbyn y golled actiwaraidd am y flwyddyn. Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar gyfer y flwyddyn flaenorol 2019/20 wedi'i addasu yn unol â hynny.

Mae costau pensiwn ar gyfer cyfraniadau'r Gronfa sydd wedi'u diffinio yn cael eu nodi yn y cyfrifon ar sail gronnus yn y cyfnod pan maent yn codi.

Mae Gweithredu dros Blant hefyd yn cyfrannu at gynlluniau pensiwn y GIG, llywodraeth leol ac athrawon ar gyfer nifer o'i weithwyr. Mae'r holl gostau hynny wedi'u cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol ar sail gronnus wrth iddynt godi.

### Lesoedd

Mae rhenti o dan lesoedd gweithredol yn cael eu nodi yn y datganiad gweithgareddau ariannol dros gyfnod y les ar sail llinol.

### Treth ar Werth

Gan fod rhai o weithgareddau Gweithredu dros Blant yn cael eu categoreiddio'n weithgareddau sydd ddim yn ymwneud â busnes neu'n weithgareddau sydd wedi'u heithrio at ddibenion TAW, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu ar gostau gweithredu. Felly mae'r gwariant a nodir yn y datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Dreth ar Werth a dalwyd ac nad oes modd ei hawlio'n ôl.

### Cronfeydd

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio yn ôl disgresiwn y Bwrdd i hyrwyddo amcanion cyffredinol yr Elusen.

Dynodwyd rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig at ddibenion penodol gan y Bwrdd fel y disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 56 ac yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Mae'r Bwrdd yn adolygu lefelau'r cronfeydd dynodedig o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn ddigonol i gefnogi'r dibenion y cawsant eu sefydlu ar eu cyfer, a bod unrhyw warged neu ddiffyg yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa gyffredinol neu oddi yno.

Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynnwys cronfeydd y dylid eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a bennwyd gan roddwyr, neu sydd wedi cael eu codi gan yr elusen at ddibenion penodol. Mae'r gost o weinyddu cronfeydd o'r fath yn cael ei nodi yn erbyn y gronfa benodol.

Mae cronfeydd gwaddol yn cynrychioli'r asedau hynny y mae'n rhaid i'r elusen eu dal yn barhaol, ac maen nhw'n cael eu buddsoddi er mwyn creu incwm i dalu am wariant, naill ai yn unol â'r gwaddol neu at ddibenion cyffredinol.

### Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau diriaethol yn cael eu cofnodi ar sail eu cost

## 2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

neu, mewn achosion pan fydd Gweithredu dros Blant wedi cael asedau diriaethol yn rhodd neu drwy broses uno, ar sail prisiad y farchnad agored pan wnaed y rhodd neu'r broses uno. Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol, a'u dibrisio ar ôl i'r gwaith ymarferol gael ei gwblhau. Y trothwy ar gyfer cyfalafu yw £1,000.

Caiff dibrisiant ei godi ar y sail ganlynol: yn achos adeiladau rhydd-ddaliadol mae'r gost o gaffael adeiladau, ynghyd ag unrhyw gostau addasu sy'n ychwanegu gwerth at yr eiddo, yn cael ei gyfalafu a'i ddibrisio dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir ar gyfer yr eiddo. Ni ddarperir dibrisiant ar gyfer tir rhydd-ddaliadol.

At ddibenion dibrisiant, mae adeiladau â lesddaliad o 999 o flynyddoedd yn cael eu trin fel petaent yn adeiladau rhydd-ddaliadol. Fel arfer, bydd gwariant cyfalaf ar adeiladau lesddaliadol eraill yn cael ei ystyried yn gost dibrisiant, ac felly'n cael ei ddiddymu dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir (gweler isod).

Mae asedau diriaethol eraill yn cael eu dibrisio ar sail llinol dros eu hoes ddefnyddiol, a amcangyfrifir fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu** | Dim dibrisiant |
| **Adeiladau rhydd-ddaliadol** | 50 mlynedd |
| **Tir ac adeiladau lesddaliadol** | 10 mlynedd neu gyfnod y les os yw'n llai |
| **Offer** | 4 blynedd |
| **Meddalwedd cyfrifiadurol** | 4 blynedd |
| **Meddalwedd cyfrifiadurol (mawr)** | 5 mlynedd |
| **Dodrefn a ffitiadau** | 5 mlynedd |
| **Cerbydau modur** | 4-6 blynedd |

Pan ystyrir bod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau unigol yn llai na'r cyfnodau hyn, defnyddir cyfnodau byrrach.

Os oes ffactorau sy'n nodi bod nam ar werth cario asedau sefydlog yn bosibl, cynhelir adolygiad amhariad ac os canfyddir bod gan asedau sefydlog werth cario sy'n sylweddol uwch na'u swm adferadwy, caiff ei ostwng yn unol â hynny.

Byddai'r swm adferadwy fel arfer yn cael ei bennu drwy gyfeirio at adroddiad prisio allanol, a byddai unrhyw golled yn cael ei chydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol am y flwyddyn.

### Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cael eu nodi ar y fantolen ar sail eu cost, llai dibrisiant sydd wedi cronni ac unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

Mae prynu brandiau yn cael ei gyfalafu fel ased sefydlog anniriaethol, a'i amorteiddio ar sail llinol dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd. Mae ewyllys da wrth gaffael busnes yn cael ei gyfalafu fel ased sefydlog anniriaethol, a'i amorteiddio ar sail llinol dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd.

Gwneir adolygiadau amhariad pan fydd digwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu achos posib o amhariad. Os gwelir bod gwerth cario ymlaen unrhyw ased yn uwch o lawer na'i fudd i gynhyrchu refeniw yn y dyfodol, caiff ei ostwng yn unol â hynny.

### Buddsoddiadau

Mae gan Gweithredu dros Blant fuddsoddiadau er mwyn cynhyrchu incwm i gefnogi gweithgareddau elusennol yn yr hirdymor, ac i ddarparu asedau i fodloni anghenion cronfeydd wrth gefn a nodwyd yn y polisi cronfeydd wrth gefn. Mae buddsoddiadau'n cael eu datgan ar sail prisiau diweddaraf y farchnad ar ddyddiad y fantolen, oni bai fod tystiolaeth o werth teg gwahanol.

Cofnodir eiddo buddsoddi ar gost i ddechrau a'i ailbrisio ar ddiwedd pob blwyddyn ar sail gwerth teg.

Mae enillion neu golledion yn ystod y flwyddyn yn cael eu datgelu yn y datganiad gweithgareddau ariannol cyfunol yn yr adran enillion a cholledion cydnabyddedig eraill yn ystod y flwyddyn, ac yn nodyn 9.

### Arian parod cyfatebol

Mae arian parod cyfatebol yn cael ei gynrychioli gan falansau arian a gedwir am gyfnod byr.

### Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod yn swm y setliad. Mae rhagdaliadau'n cael eu prisio ar sail y swm a ragdalwyd, ar ôl tynnu unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

### Credydwyr a darpariaethau

Mae credydwyr a darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan yr Elusen rwymedigaeth ar hyn o bryd sy'n deillio o ddigwyddiad blaenorol a fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo cronfeydd i drydydd parti, a phan fydd modd mesur neu amcangyfrifo'n ddibynadwy y swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth. Fel arfer, mae credydwyr a darpariaethau'n cael eu cydnabod yn swm y setliad, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

### Llif arian

Mae'r Elusen yn bodloni diffiniad endid cymwys o dan FRS 102 ac felly mae wedi manteisio ar yr eithriad datgelu mewn perthynas â chyflwyno mantolen llif arian mewn

## 2. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

perthynas â'i ddatganiadau ariannol ar wahân, a gyflwynir ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol cyfunol.

### Grantiau'r llywodraeth

Caiff grantiau'r llywodraeth eu cydnabod ar sail croniadau, pan fydd sicrwydd rhesymol y bydd yr Elusen yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant a'r grant a dderbynnir. Mae'r grant mewn cysylltiad â'r cynllun cadw swyddi, wedi'i gydnabod yn y cyfnod y mae'r costau staff ffyrlo yn gysylltiedig ag ef.

### Cydnabod Incwm a Gwariant o Feithrinfeydd a Chlybiau y Tu Allan i Oriau Ysgol

Mae'r incwm o'r gweithgareddau hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy endidau Action for Children Developments Limited ac Out of School Scotland Limited. Yn y gorffennol, mae incwm a gwariant o'r gweithgareddau hyn wedi'u hadlewyrchu o dan y categori 'Masnachu' ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Daethpwyd i'r casgliad bod y gweithgareddau hyn yn cyd-fynd ag amcanion elusennol y rhiant endid, ac y dylid dosbarthu incwm a gwariant o'r gweithgareddau hyn o dan 'Gweithgareddau Elusennol' o dan yr is-gategori 'Dechrau Gorau mewn Bywyd' ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2020/21, gyda chymhariaeth 2019/20 y flwyddyn flaenorol yn cael ei hailddatgan yn unol â hynny.

## 3. Incwm a gwaddolion

Mae adnoddau i'w derbyn yn sgil gweithgareddau elusennol yn cael eu dadansoddi ar draws prif weithgareddau Gweithredu dros Blant ar wyneb y datganiad gweithgareddau ariannol. Mae'r incwm hwn yn deillio'n bennaf o waith gydag awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau iechyd a ffynonellau llywodraeth ganolog, gan ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

| Rhoddion a chymynroddion | Grŵp 2021 | Grŵp 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhoddion | 14,269 | 15,080 |
| Cymynroddion | 5,711 | 3,632 |
| | **19,980** | **18,712** |

Mae derbynebau pwrpas penodol a gynhwysir uchod yn £5,460,000 ar gyfer rhoddion (2020: £6,947,000)

### Incwm a chanlyniad yr elusen

Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn ar gyfer yr elusen oedd £137,675,000 (2020 £127,217,000). Y gwarged net ar gyfer yr elusen oedd £11,726,000 (colled net 2020 £6,744,000)

### Is-gwmnïau ac elusennau cysylltiedig

Mae Action for Children Services Limited, Action for Children Trading Limited ac Action for Children Developments Limited yn darparu gwasanaethau llesiant ac addysg ar ran gweithgareddau elusennol, codi arian a masnachu. Mae'r holl elw'n mynd i'r elusen ar sail Rhodd Cymorth. Mae'r National Children's Home (NCH) ac Ymddiriedolaeth Nicholas Galperin yn elusennau cysylltiedig sy'n rhannu rheolwyr ac ymddiriedolwyr, ac mae'r ddau yn anghorfforedig. Mae Out of School Scotland Limited yn darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chlybiau y tu allan i oriau ysgol, clybiau brecwast a chlybiau gwyliau

Mae crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 i'w weld isod:

| | Is-gwmnïau masnachu | | | | Elusennau cysylltiedig | | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | Masnachu | OSCARS | Datblygiadau | NCH | Nicholas Galperin | 2021 | 2020 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Trosiant | 55,789 | 7 | 1,351 | 13,392 | - | - | 70,539 | 69,883 |
| Cost gwerthiannau | (53,757) | (1) | (1,120) | (12,147) | - | - | (67,025) | (61,022) |
| Elw gros | 2,032 | 6 | 231 | 1,245 | - | - | 3,514 | 8,861 |
| Gweithgareddau elusennol | - | - | - | - | - | - | - | (348) |
| Costau gweinyddu | (25) | 1 | (125) | (1,111) | (2) | (2) | (1,264) | (1,022) |
| **Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol cyn incwm o fuddsoddiad** | **2,007** | **7** | **106** | **134** | **(2)** | **(2)** | **2,250** | **7,491** |
| Incwm o fuddsoddiad | - | - | - | - | 129 | 75 | 204 | 290 |
| Enillion/(colledion) net ar asedau buddsoddi | - | - | - | - | 1,461 | 837 | 2,298 | (1,681) |
| **Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol cyn treth** | **2,007** | **7** | **106** | **134** | **1,588** | **910** | **4,752** | **6,100** |
| Treth ar weithgareddau arferol | - | | - | - | - | - | - | (2) |
| Enillion wrth gefn yn cael eu dwyn ymlaen | 5,945 | 113 | **105** | **308** | **5,732** | **3,122** | **15,325** | 14,169 |
| Rhoddion o dan Rhodd Cymorth | (7,952) | (120) | (237) | (442) | - | - | (8,751) | (4,940) |
| **Enillion wrth gefn yn cael eu cario ymlaen** | - | - | **(26)** | - | **7,320** | **4,032** | **11,326** | **15,327** |

# 3. Incwm a gwaddolion (parhad)

Mae asedau net yr is-gwmnïau a'r elusennau cysylltiedig wedi'u nodi isod:

| | Is-gwmnïau masnachu | | | | Elusennau cysylltiedig | | Cyfanswm | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | Masnachu | OSCARS | Datblygiadau | NCH | Nicholas Galperin | 2021 | 2020 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Asedau sefydlog | | | | | 7,054 | 4,042 | 11,096 | 8,812 |
| Asedau cyfredol | 9,121 | 484 | 421 | 1,216 | 266 | 244 | 11,752 | 14,168 |
| Credydwyr | (9,121) | (484) | (447) | (1,216) | - | (254) | (11,522) | (7,653) |
| **Asedau net** | - | - | **(26)** | - | **7,320** | **4,032** | **11,326** | **15,327** |

### Incwm buddsoddi:

| | Grŵp 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cronfeydd y Bwrdd Cyllid Canolog – DU | 362 | 384 |
| Cronfeydd y Bwrdd Cyllid Canolog – Tramor | 27 | 51 |
| Incwm o'r llog | 16 | 170 |
| Incwm o warannau | 405 | 605 |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 422 | 413 |
| | **827** | **1,018** |

### Grantiau'r llywodraeth:

| | Grŵp 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cynllun Cadw Swyddi'r Llywodraeth | 4,112 | - |
| Yr Adran Addysg | 1,217 | - |
| | **5,329** | - |

# 4. Gwariant

| | Costau uniongyrchol | Costau cymorth | Cyfanswm 2021 | Costau uniongyrchol | Costau cymorth | Cyfanswm 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grŵp** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant ar godi arian** | | | | | | |
| Rhoddion | 4,396 | 811 | 5,207 | 6,796 | 656 | 7,452 |
| Cymynroddion | 164 | 14 | 178 | 204 | 20 | 224 |
| | 4,560 | 825 | 5,385 | 7,000 | 676 | 7,676 |
| Costau rheoli buddsoddiadau | 46 | - | 46 | 35 | - | 35 |
| | 4,606 | 825 | 5,431 | 7,035 | 676 | 7,711 |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | | | | | | |
| Dechrau gorau mewn bywyd | 29,671 | 2,108 | 31,779 | 35,318 | 3,407 | 38,725 |
| Gwasanaethau i blant anabl | 27,977 | 3,253 | 31,230 | 34,181 | 3,294 | 37,475 |
| Iechyd meddwl a chyfle i ffynnu * | 32,164 | 3,869 | 36,033 | 19,818 | 1,908 | 21,726 |
| Cartref diogel a sefydlog * | 31,656 | 2,705 | 34,361 | 37,915 | 3,650 | 41,565 |
| Ymgyrchu a pholisi cyhoeddus | 512 | 51 | 563 | 592 | 57 | 649 |
| | 121,980 | 11,986 | 133,966 | 127,824 | 12,316 | 140,140 |
| **Cyfanswm gwariant** | **126,586** | **12,811** | **139,397** | **134,859** | **12,992** | **147,851** |

* Sylwer – ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, cafodd costau refeniw o'r prosiect Headlands eu rhoi o dan y categori 'Iechyd Meddwl a chyfle i ffynnu' (costau ar gyfer 2020/21 oedd £5.5m). Cafodd y prosiect hwn ei gydnabod o dan y categori 'Cartref diogel a sefydlog' ar gyfer 2019/20 a'r blynyddoedd blaenorol.

Polisi'r elusen yw dyrannu costau cymorth swyddogaethau amrywiol i'r gweithgareddau uchod yn seiliedig ar gostau'r gweithgareddau hynny. Mae'r costau cymorth yn ôl categori yn cynnwys Technoleg £4.4m, Eiddo £1.7m, Cyllid £2.0m, Strategaeth £1.0m, AD £1.1m, Trawsnewid £1.2m. Arall £1.4m. Manylir ar y costau llywodraethu yn hwyrach yn y nodyn hwn.

## Costau ymddiriedolwyr

Cafodd costau teithio eu had-dalu i ddau o ymddiriedolwyr gwerth £1,000

(11 wedi derbyn £6,000 yn 2020).

Prynodd yr elusen yswiriant i ymddiriedolwyr a swyddogion yn ystod y flwyddyn i'w hindemnio yn erbyn rhwymedigaethau posibl a ysgwyddir mewn perthynas â'u dyletswyddau. Cost yr yswiriant hwn oedd £3,000 (2020: £3,000).

Nid oes gan ymddiriedolwyr yr hawl i gael unrhyw dâl ac ni chawsant daliadau o'r fath.

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Ffioedd sy'n daladwy i archwilwyr Gweithredu dros Blant** | 77 | 238 |
| O ran yr archwiliad o'r elusen | 26 | 24 |
| O ran yr archwiliadau o is-gwmnïau ac ymddiriedolaethau cysylltiedig | 103 | 262 |
| | - | 4 |
| O ran tystysgrifau ar gyfer partneriaid prosiectau | - | 26 |
| O ran cyngor ar dreth a mathau eraill o gyngor | 103 | 292 |
| **Treth ar Werth** | | |
| Fel y nodir yn y polisi cyfrifyddu, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, roedd cost y dreth ar werth nad oedd modd ei hadennill yn dod i: | 1,781 | 2,412 |
| **Rhentu o dan lesoedd gweithredol** | | |
| Offer a pheiriannau | 10 | 13 |
| Tir ac adeiladau | 1,688 | 2,105 |
| | 1,698 | 2,118 |
| **Dibrisiant** | 601 | 895 |
| **Costau llywodraethu** | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 428 | 460 |
| Ffioedd archwilio mewnol ac allanol | 245 | 330 |
| Ffioedd cyfreithiol | 35 | 25 |
| Costau eraill | 38 | 130 |
| | 746 | 945 |

Mae costau llywodraethu'n cael eu cynnwys yn y costau cymorth.

## 5. Enillion gweithwyr

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 82,788 | 82,125 |
| Costau diswyddiadau | 1,912 | 312 |
| Taliadau terfynu | 114 | 88 |
| Costau staff dros dro | 2,913 | 5,588 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 6,519 | 6,334 |
| Ardoll brentisiaethau | 389 | 381 |
| Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant - cost gwasanaeth cyfredol buddion wedi'u diffinio | 23 | 107 |
| Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant - cost cyfraniadau wedi'u diffinio | 3,692 | 3,523 |
| Cyfraniadau at Gynlluniau Pensiwn Athrawon a Llywodraeth Leol a Chronfa Bensiwn y GIG | 511 | 562 |
| | 98,861 | 99,020 |

Wedi'i gynnwys yn y costau diswyddiadau y mae £453,000 (2020 £133,000) o daliadau diswyddo ex gratia, a wnaed yn unol â pholisi diswyddo Gweithredu dros Blant. Gwneir taliadau o'r fath yn ôl disgresiwn yr uwch reolwyr, ac nid ydynt yn gytundebol.

Ar wahân i Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, mae'r elusen yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau â buddion wedi'u diffinio – o ran cyfrifyddu, mae'r rheini yn cael eu trin yr un fath â chynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon a Chronfa Bensiwn y GIG yn gynlluniau heb eu hariannu. Mae rhwymedigaethau yn ogystal â chyfraniadau parhaus yn gallu codi gydag achosion o ddiswyddo neu ymddeol yn gynnar. Ond mae'r risg honno'n cael ei rheoli gan yr elusen, a gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaeth lawn os bydd hynny'n digwydd.

Mae gan yr elusen hefyd statws corff derbyniedig mewn gwahanol Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol, a allai achosi risg i'r elusen. Mae Gweithredu dros Blant yn sicrhau bod risgiau posib sydd y tu hwnt i reolaeth yr elusen yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r awdurdod lleol perthnasol yn unol â chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009 – "Darpariaethau statws corff derbyniedig yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol pan drosglwyddir gwasanaethau o awdurdod lleol neu gynllun cyflogwr arall" a'r awdurdod lleol sy'n ysgwyddo'r risgiau actiwaraidd, marwolaeth, chwyddiant, newidiadau rheoliadol, cyfradd ddisgownt ac enillion ar fuddsoddiadau.

Nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| Codi arian | 154 | 163 |
| Gweithgareddau elusennol | 4,442 | 4,638 |
| Gwasanaethau cymorth | 145 | 189 |
| | 4,741 | 4,990 |
| | | |
| Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn ar ddiwedd y flwyddyn | 3,036 | 3,116 |

Nifer y staff yr oedd eu buddion yn perthyn i bob un o'r bandiau canlynol:

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| | Nifer | Nifer |
| £60,001 i £70,000 | 27 | 29 |
| £70,001 i £80,000 | 21 | 10 |
| £80,001 i £90,000 | 8 | 8 |
| £90,001 i £100,000 | 3 | 2 |
| £100,001 i £110,000 | - | - |
| £110,001 i £120,000 | 1 | 2 |
| £120,001 i £130,000 | 2 | 1 |
| £130,001 i £140,000 | 1 | 1 |
| £140,001 i £150,000 | 0 | 1 |
| £150,001 i £160,000 | 0 | 1 |

O blith y staff a restrir uchod, roedd 52 yn cronni buddion o dan adran cyfraniadau wedi'u diffinio Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant (43 yn 2021). Talwyd £218,000 o gyfraniadau i'r cynllun mewn perthynas â'r staff hyn (£195,000 yn 2020).

Mae cyfanswm yr enillion a dalwyd yn 2020/21, a chyflogau blynyddol presennol staff rheoli allweddol, wedi'i nodi isod. Yn y bandiau uchod – ac mae'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y fan honno hefyd – y diffiniad gofynnol o enillion yw cyfanswm cyflog gros yn ogystal ag unrhyw fuddion o fath arall. Mae'r dadansoddiad isod hefyd yn cynnwys pensiwn y cyflogwr a chyfraniadau yswiriant gwladol a thaliadau terfynu cyflogaeth.

## 5. Enillion gweithwyr (parhad)

| | Cyfanswm enillion 2020/21 | Cyflog blynyddol presennol |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Prif Swyddog Gweithredu | 155,130 | 138,000 |
| Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu - Gweithrediadau (hyd at 31ain Ionawr 2021) | 134,495 | - |
| Rheolwr Gyfarwyddwr – Gwasanaethau Plant (hyd at 1 Chwefror 2021) | 24,490 | 130,000 |
| Rheolwr Gyfarwyddwr Codi Arian, Cyfathrebu a Pholisi | 148,484 | 123,333 |
| Prif Swyddog Ariannol | 150,328 | 127,333 |
| Prif Swyddog Pobl | 104,892 | 87,150 |
| Cyfarwyddwr Masnachol (ymddiswyddodd ar 18 Mehefin 2021) | 113,851 | 95,000 |
| | **831,670** | **700,816** |

Cyfanswm cost personél rheoli allweddol ar gyfer 2020/21 oedd £831,670 (2019/2020 £779,344).

## 6. Pensiynau

Mae Gweithredu dros Blant yn darparu buddion pensiwn drwy Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant yn bennaf. Mae asedau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cadw mewn cronfa ar wahân sy'n cael ei gweinyddu gan ymddiriedolwyr.

Mae'r staff presennol yn aelodau o adran cyfraniadau wedi'u diffinio y Gronfa Bensiwn, ac mae gweithwyr newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig ar gyfer yr adran honno.

